Strategaeth Addysg

Mapio'r Strategaeth

Awdur(on): Dorothy Edwards, Andrew Paramore

Contents

Adran A: Cymru **1**

Adran B: Y DU **56**

Adran C: Gwaith ymchwil / cipolwg byd-eang **155**

Adran A: Cymru

A1. Llywodraeth Cymru

A2. Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

A3. Sefydliadau eraill

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
A1	GIG Cymru mewn 10 mlynedd a mwy (GIG Cymru) Cyhoeddwyd ym mis Medi 2023 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	Cynhyrchwyd gan yr **Is-adran Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth (SEA)** ar gyfer y **Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** ar ran y **Prif Gynghorydd Gwyddonol ar Iechyd (Llywodraeth Cymru)** i lywio cynllunio hirdymor; **cyngor ar dystiolaeth ydyw, nid polisi Llywodraeth Cymru.** **Cyflyrau sy'n tyfu'n gynt na demograffeg:** Mae amcanestyniadau'n dangos y bydd **ffibriliad atrïaidd, dementia, methiant y galon, COPD, osteoporosis, CHD, IBD, PVD, asthma, pwysedd gwaed uchel, anhwylderau gorbryder a diabetes** yn tyfu'n gynt na newid demograffig, gan awgrymu sgiliau ehangach ar draws meysydd iechyd cardiaidd, anadlol, metabolig ac iechyd meddwl. **Mae'r anghydraddoldebau'n rhai pendant:** Mae'r rhai **mwyaf difreintiedig** yn treulio **~9 mlynedd yn fwy** mewn iechyd nad yw'n dda o'u cymharu â'r rhai lleiaf difreintiedig; mae'n rhaid i atal a mynediad cyfartal dreiddio drwy gwricwla a lleoliadau. **Anweithgarwch economaidd a Chyswllt LTC:** Yn 2022, roedd **466,000 o bobl** (16 i 64 oed) yng Nghymru yn economaidd anweithgar, **159,000** oherwydd salwch tymor hir, gan gysylltu anghenion sgiliau iechyd, gwaith ac adsefydlu. **Atal yn gyntaf:** Mae ffactorau risg addasadwy (ysmygu, gordewdra, penderfynyddion sy'n gysylltiedig â thlodi) yn golygu y gellir newid pethau drwy **ddiagnosis cynharach, newid ffordd o fyw a gweithredu iechyd y cyhoedd**; dylai addysg bwysleisio newid ymddygiad, sgrinio ac ymyriadau cymunedol. **Symud gofal y tu allan i'r ysbyty:** Mae effeithlonrwydd yn dibynnu ar **integreiddio cryf rhwng gofal sylfaenol/cymunedol a gofal cymdeithasol**, gyda gwell mynediad a diagnosteg yn nes at adref; rhaid i leoliadau adlewyrchu'r newid hwn. **Galw am weithlu er gwaethaf technoleg:** Hyd yn oed os bydd arosiadau byrrach yn yr ysbyty, bydd angen **llawer mwy o staff cyfwerth ag amser llawn ar Gymru erbyn 2030-31** (yn ôl graddio trefn maint o'i chymharu â Lloegr), yn ogystal â chapasiti ychwanegol o ran **meddygon teulu, gofal cymunedol a gofal cymdeithasol.**

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Gallu digidol, data a deallusrwydd artiffisial: Er mwyn sicrhau gwerth mae angen **buddsoddiad parhaus mewn meddygaeth ddigidol a deallusrwydd artiffisial** ac **uwchsgilio'r gweithlu** i'w defnyddio'n ddiogel ac yn effeithiol (moeseg, rhagfarn, llywodraethu). **Prif ffrydio genomeg:** Disgwylir i **genomeg** ail-lunio gwaith atal, diagnosis a gofal wedi'i bersonoli yng Nghymru; mae angen **addysg, seilwaith a fframweithiau moesegol** ar draws proffesiynau. **Mesur beth sy'n gweithio:** Mae'r papur yn annog cael **data cadarn, cydgysylltiedig** a **gwerthuso effaith gyda rheolaethau** i wybod pa ymyriadau sy'n sicrhau canlyniadau a gwerth - sgiliau y dylai addysgwyr eu hymgorffori. **Cynhyrchiant a gwerth:** Gall mynd i'r afael ag amseroedd aros a gwneud y gorau o lwybrau gofal arwain at **enillion economaidd**; dylai addysg gysylltu cymwyseddau â chynhyrchiant (e.e. ailddylunio llwybrau, defnyddio technoleg yn briodol).
A1	Adnewyddu Camau Gweithredu Cymru Iachach 2024-25 Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	Yn diweddaru ac yn miniogi'r camau gweithredu sy'n cyflawni *Cymru Iachach*, yn dilyn cymorth y Cabinet yn ystod haf 2024, gydag arwyddion clir o ran atal, gofal cymunedol, digidol, y gweithlu a gwerth. **Atal ac iechyd y boblogaeth (sifft craidd).** Uwchraddio ymyrraeth gynnar, sgrinio ac imiwneiddio; adeiladu mesurau diogelu iechyd cadarn i ymateb i bob perygl (gan gynnwys unrhyw bandemig); rhoi'r pwyslais ar adsefydlu, ailalluogi ac adfer mewn lleoliadau cymunedol. Mae ar y Cwricwla angen sgiliau cryfach o ran newid ymddygiad, iechyd cyhoeddus, adsefydlu a brigiadau o achosion. **Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar leoedd.** Mae Gofal Cymunedol Integredig yn dod yn egwyddor ddylunio; cynlluniau penodol ar gyfer iechyd menywod a phlant; ymrwymiad i gael Cymru oed-gyfeillgar; mynediad yn newis iaith/fformat pobl. Dylai'r hyfforddiant adlewyrchu gofal personol, dulliau teuluol, diogelu ac ymarfer dwyieithog. **Cynaliadwyedd, gwerth a pherfformiad.** Ymgorffori gweithredu ar yr hinsawdd; sbarduno gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth drwy'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd; adfer/ailosod/trawsnewid gofal wedi'i gynllunio; defnyddio perfformiad, goruchwyliaeth ac uwchgyfeirio i gynnal enillion;

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		cydweithio fel “un gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru”. Dylai cynnwys addysgwyr gysylltu sgiliau â gwerth, cynhyrchiant a datgarboneiddio. **Blaenoriaethau ansawdd a diogelwch.** Safoni llwybrau a modelau “unwaith i Gymru”; lleihau amrywiadau diangen; canolbwyntio’n benodol ar ymwrthedd gwrthficrobaidd; defnyddio Gweithrediaeth y GIG i sbarduno gwella ansawdd; cynnydd tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol. Mapio fframweithiau cymhwysedd i lwybrau safonol; cynnwys AMS/IPC fel rhai craidd. **Digidol a data (asgwrn cefn y system).** Defnyddio systemau clinigol sydd wedi'u profi, EHRC a thechnoleg feddygol; cwblhau galluoedd cenedlaethol (diagnosteg, systemau arbenigol, **Ap GIG Cymru**, e-bresgripsiynu); sefydlu **pensaernïaeth menter genedlaethol**; hybu aeddfedrwydd data (seiber, UX, rhannu/cofnodi data, diogelwch clinigol); rhoi dadansoddi wrth wraidd popeth a lliniaru allgáu digidol. Rhaid i addysg wella sgiliau digidol, data, diogelwch clinigol a gwybodeg ar draws pob proffesiwn. **Gweithlu (medrusrwydd, diwylliant, defnydd).** Gweithredu Strategaeth y Gweithlu i feithrin gweithlu cynhwysol, hyblyg ac amlbroffesiwn sy'n gweithio ar draws ffiniau; gwreiddio arweinyddiaeth dosturiol a diwylliant cadarnhaol; cynllunio defnydd effeithiol i fanteisio i'r eithaf ar sgiliau a thechnoleg. Blaenoriaethau ar gyfer AaGIC: capasiti goruchwylio, amser addysgwyr, dysgu amlbroffesiwn, a llythrennedd defnyddio. **Ymchwil, arloesi a gwyddorau bywyd.** Cryfhau capasiti ymchwil, ariannu partneriaethau a’u mabwysiadu; defnyddio genomeg/triniaethau personol ac arloesi modern i gyflawni gwerth a chynaliadwyedd; gosod gweledigaeth gwyddorau bywyd sy'n gysylltiedig ag iechyd a chyfoeth. Cynnwys gallu ysgolheigaidd/arloesi a llythrennedd genomeg mewn rhaglenni. **Cydgynhyrchu a phartneriaethau.** Codi llais dinasyddion; cefnogi pobl a gofalwyr i gydgynhyrchu a bod yn berchen ar gynlluniau gofal; cysoni cynllunio a chomisiynu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol er mwyn manteisio’n llawn ar asedau. Dylai datblygu addysgwyr gynnwys cydgynhyrchu, cynllunio gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
A1	Cynllun Cyflawni Genomeg Cymru Cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2022 Cyrchwyd ym mis Medi 2025	Mae'r cynllun, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru gyda Phartneriaeth Genomeg Cymru (GPW), yn nodi'r weledigaeth, y themâu cyflawni a'r ymrwymiadau pendant i wreiddio genomeg ar draws gwasanaethau GIG Cymru, gyda model cryf o gynnwys cleifion/y cyhoedd ac uchelgeisiau clir o ran y gweithlu. **Mae'r gweithlu'n golofn.** Mae'r cynllun yn ymrwymo i **"ddatblygu sgiliau ein gweithlu presennol"** er mwyn i glinigwyr ar draws gwahanol arbenigeddau allu defnyddio genomeg yn ddiogel ac yn effeithiol; mae'n cyfeirio at swyddi **Rhaglenni Hyfforddiant Gwyddonol/Rhaglenni Hyfforddiant Gwyddonol Arbenigol Uwch** sydd ar gynnydd (cwnsela geneteg, biowybodeg, gwyddor genomeg, microbioleg, patholeg foleciwlaidd) a hyfforddiant **genetegwyr clinigol**. Rhaid i addysg brif ffrydio **llythrennedd genomeg** ar gyfer pob proffesiwn a graddio llwybrau arbenigol. **Twf gwasanaeth → y galw am sgiliau.** Targedau penodol: **hyd at 3,000 o genomau cyfan y flwyddyn** (clefydau anghyffredin a rhai canserau), **~5,000 o broffiliau canser genomig y flwyddyn**, a **genomeg pathogenau** cryfach i oruchwylio iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn sbarduno anghenion o ran **logisteg samplau, cydsyniad, brysbennu, dehongli amrywiolion, gwaith y Tîm Amlddisgyblaethol, llywodraethu data a chwnsela.** **Themâu darparu 'Pobl, Gwasanaethau Clinigol, Ymchwil a Galluogwyr'.** • **Pobl: pensaernïaeth cyd-gynhyrchu** tair haen (Bwrdd Seinio Cleifion a'r Cyhoedd; cynfyfyrwyr; y cyhoedd yn ehangach) i lunio gwasanaethau a'u gwerthuso. Dylid hyfforddi dysgwyr ac addysgwyr mewn **cydgynhyrchu a chyfathrebu â'r cyhoedd** (gan gynnwys deunyddiau dwyieithog). • **Gwasanaethau clinigol:** gwreiddio genomeg ar draws **canser, clefydau prin, pediatreg, iechyd meddwl (Gwasanaeth Genomeg Seiciatrig Cymru Gyfan)** a sgrinio, sy'n cyd-fynd â llwybrau diagnostig wedi'u hailgynllunio. Dylai Cwricwla fapio cymwyseddau i bob llwybr. • **Ymchwil ac arloesi:** cryfhau cysylltiadau â Sefydliadau Addysg Uwch a gwasanaethau clinigol; mae angen **llythrennedd ymchwil** ac **ymwybyddiaeth o ddata/biofanciau** ar ddysgwyr.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		• **Galluogwyr: storio data a samplau'n ddiogel,** llywodraethiant, seilwaith (gan gynnwys cyfleuster newydd **Cardiff Edge** a **"nodau" darpariaeth ranbarthol**). Dylai addysg gynnwys **Llywodraethu Gwybodaeth, seiber, diogelwch clinigol** a hanfodion **gwybodeg** i bawb. **Disgyblaeth gwerthuso ac alinio diagnosteg.** Mae'r cynllun yn cyd-fynd â'r **Strategaeth Adfer a Thrawsnewid Diagnosteg** ac mae angen **strategaeth werthuso/monitro ar lefel rhaglen** a gynhyrchwyd ar y cyd â'r Bwrdd Seinio. Dylai addysgwyr addysgu **sut i fesur gwelliant** a chyfrannu at werthuso sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth. **Mynediad a thegwch.** Ymrwymiad i **wasanaethau hygyrch a chynhwysol** ac allgymorth i **gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol**; dylai addysg baratoi staff i ddarparu gofal genomeg yn **deg ac yn ddiwylliannol gymwys yn Gymraeg ac yn Saesneg**. **Mae gwaith cynllunio'r gweithlu ymhellach i lawr yn mynd rhagddo.** Un cam gweithredu oedd cael **Cynllun Gweithlu Genomeg Strategol**, a ddarparwyd gan **AaGIC a GPW** ym **mis Tachwedd 2024** - ei ddefnyddio fel sylfaen gweithlu gweithredol ar gyfer cwricwla, lleoliadau a datblygiad proffesiynol parhaus.
A1	Health Professional Education Investment Review Cyhoeddwyd Mawrth 2015 Cyrchwyd Hydref 2025.	Comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol dan gadeiryddiaeth Mel Evans OBE, i ddarparu **adolygiad cynhwysfawr o fuddsoddiad addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru**, a gomisiynwyd gan Weinidogion Cymru i asesu a oedd trefniadau cyllido, comisiynu a llywodraethu yn addas i'r diben. Roedd yr adolygiad yn dilyn pryderon ynghylch cynaliadwyedd, tegwch a chysondeb rhwng cynllunio'r gweithlu ac anghenion gwasanaethau, a gwnaeth **34 o argymhellion** i foderneiddio comisiynu, modelau addysg a gweithio ar draws sectorau. **Un fframwaith comisiynu strategol.** Canfyddiad yr adolygiad oedd bod comisiynu darniog ar draws proffesiynau ac argymhellodd y dylid creu **un fframwaith cenedlaethol canolog** ar gyfer cynllunio a chyllido pob addysg i weithwyr iechyd proffesiynol, wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â modelu'r gweithlu a blaenoriaethau gwasanaeth y GIG. Daeth hyn yn sylfaen ar gyfer rôl ddiweddarach AaGIC.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Atebolrwydd a llywodraethu cliriach. Yn argymell creu **corff cenedlaethol** (gydag atebolrwydd gweinidogol) i gysoni gwybodaeth am y gweithlu, buddsoddiad mewn addysg, ac ailgynllunio gwasanaethau, i oresgyn rheolaeth adrannol ynysig a diffyg metrigau a rennir. **Egwyddorion buddsoddi.** Yn rhoi pwyslais ar **dryloywder, gwerth am arian**, ac **elw ar fuddsoddiad** mewn gwariant addysg, gyda dangosyddion perfformiad yn gysylltiedig â recriwtio, cadw staff, ansawdd gwasanaeth a chanlyniadau cleifion, nid dim ond y nifer sy'n cael hyfforddiant. **Cryfhau gwybodaeth a rhagolygon am y gweithlu.** Yn galw am **sylfaen dystiolaeth** gadarn i lywio gwaith comisiynu, gan gynnwys modelu galw/cyflenwad tymor hir, tueddiadau iechyd y boblogaeth, a thybiaethau cynhyrchiant, yn hytrach na dibynnu ar y niferoedd a oedd yn cael eu hyfforddi'n hanesyddol. **Integreiddio â thrawsnewid gwasanaethau.** Yn argymell cysoni cyllid addysg â **rhaglenni moderneiddio gwasanaethau** (gofal sylfaenol, iechyd cymunedol, iechyd meddwl, atal), gan sicrhau bod cwricwla'n esblygu ochr yn ochr â modelau gofal newydd ac egwyddorion gofal iechyd darbodus. **Addysg ryngbroffesiynol** Yn dadlau dros ddysgu amlbroffesiwn cryfach, lleoliadau ar y cyd, a hyfforddiant sgiliau a rennir i adlewyrchu gofal integredig gan dîm; annog rheoleiddwyr a Sefydliadau Addysg Uwch i wreiddio addysg ryngbroffesiynol yn systematig. **Mynediad, cynhwysiant a'r Gymraeg.** Yn cynghori y dylid chwalu rhwystrau i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru (bwrsariaethau, caledi, costau teithio), gwreiddio gallu yn y Gymraeg, a gwella **cydraddoldeb mynediad** at addysg ar draws rhanbarthau, gan gynnwys cymhellion lleoliadau gwledig.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Alinio ar ôl cofrestru a Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Yn argymell cyllid a pholisi integredig ar gyfer **datblygiad proffesiynol parhaus**, gyda mynediad cyfartal ar draws proffesiynau a sectorau cyflogaeth, a gwerthuso canlyniadau ar y cyd. **Partneriaeth gyda darparwyr addysg.** Yn cynnig cytundebau partneriaeth hirdymor arfaethedig (5-10 mlynedd) gyda phrifysgolion a cholegau i sicrhau sefydlogrwydd, hyblygrwydd i fodloni'r galw am wasanaethau, a disgwyliadau cliriach o ran ansawdd, goruchwyliaeth a darparu polisïau yng Nghymru. **Arweinyddiaeth a gallu'r system.** Yn tynnu sylw at yr angen am allu cryfach i gynllunio'r gweithlu ar draws GIG Cymru, a dull cydlynol o ddatblygu addysgwyr, mentoriaid a goruchwylwyr clinigol. Fe gyfrannodd argymhellion yr adroddiad yn uniongyrchol at **greu Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)** yn 2018, a gynlluniwyd fel yr un corff cenedlaethol ar gyfer gwybodaeth am y gweithlu, comisiynu addysg, a datblygu arweinwyr. Yn hanesyddol, dyma'r **trobwynt rhwng comisiynu Sefydliadau Addysg Uwch ar wasgar a'r model gwasanaeth addysg y gweithlu** integredig sydd bellach yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru.
A1	<u>Gweledigaeth Strategol ar gyfer Nyrsio a Bydwreigiaeth</u> Prif Swyddog Nyrsio, Cymru Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025	Gweledigaeth strategol pum mlynedd (2025-2030) ar gyfer y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru. Mae'n nodi sut bydd nyrsys a bydwragedd "yn arwain, yn arloesi ac yn dylanwadu" ar draws y system iechyd a gofal gyda'r nod o drawsnewid y ffordd y darperir gofal, cryfhau hunaniaeth broffesiynol a chysoni datblygiad y gweithlu ag anghenion y boblogaeth, y system a'r gymdeithas. Mae "Gweledigaeth Strategol ar gyfer Nyrsio a Bydwreigiaeth 2025-2030" yn seiliedig ar **chwe thema rhyng-gysylltiedig**, pob un ohonynt ag uchelgeisiau ac egwyddorion arweiniol, ac mae gan lawer ohonynt oblygiadau uniongyrchol ar gyfer addysg, hyfforddiant a chynllunio'r gweithlu.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
	Cyrchwyd ym mis Rhagfyr 2025	• **Gweithlu sy'n cael ei Werthfawrogi, ei Barchu a'i Rymuso** ○ Nod: Erbyn 2030, mae nyrsys a bydwragedd yn cael eu cydnabod am eu rhagoriaeth; yn cael eu cefnogi i arwain, tyfu ar draws gyrfaoedd amrywiol; ac yn gweithio mewn amgylcheddau diogel, cynhwysol a hyblyg sy'n cefnogi llesiant, cadw staff ac amrywiaeth y gweithlu. ○ Goblygiadau addysgol: Comisiynu **fframweithiau llwybr gyrfa** hyblyg (israddedig → dechrau gyrfa → gyrfaoedd uwch / portffolio), gwreiddio **lles, diogelwch seicolegol, ymarfer cynhwysol a gallu yn y Gymraeg** mewn cwricwla a datblygiad proffesiynol parhaus; cynllunio **modelau gweithio hyblyg** i gefnogi cadw saff ac apêl y swyddi. • **Arweinyddiaeth wedi'i Grymuso a Hunaniaeth Broffesiynol** ○ Nod: Bod nyrsys a bydwragedd yn arwain ar bob lefel - polisi, newid systemau, gofal cymunedol - gan ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau, cyd-gynhyrchu gwasanaethau, a hyrwyddo cydraddoldeb, llywodraethiant, cynaliadwyedd a gofal yn y Gymraeg. ○ Goblygiadau addysgol: Adeiladu **llwybrau datblygu arweinyddiaeth** (israddedig → uwch arweinwyr), gwreiddio **cynllunio gwasanaethau, polisi, llywodraethiant, meddwl yn strategol, a chynaliadwyedd** mewn hyfforddiant cyn ac ar ôl cofrestru; cydnabod cymwyseddau arwain fel canlyniadau craidd. • **Arbenigedd drwy Addysg, Ymchwil a Data** ○ Nod: Erbyn 2030, bydd ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth yn seiliedig ar dystiolaeth, yn cymryd rhan mewn ymchwil, yn fedrus o ran data, ac yn gwella'n barhaus. Mae dysgu gydol gyrfa wedi'i wreiddio; mae arbenigedd ac arloesi'n cael eu hannog. ○ Goblygiadau addysgol: Ehangu **Datblygiad Proffesiynol Parhaus, arbenigedd a llwybrau ymarfer uwch ar ôl cofrestru**; cryfhau cysylltiadau ag ymarfer academaidd (prifysgolion, AaGIC, GIG) i wreiddio **ymchwil, gwerthuso, gwyddor defnyddio a gwella data** yn y cwricwla; comisiynu micro-gymwysterau ar gyfer genomeg, iechyd digidol, data, cynaliadwyedd. • **Gofal Ataliol sy'n Canolbwyntio ar y Boblogaeth** ○ Nod: Bydd nyrsys a bydwragedd yn darparu gofal teg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy gydol bywyd; yn arwain y gwaith atal, ymyrryd yn gynnar, gofal yn y gymuned a gofal sy'n canolbwyntio ar iechyd y boblogaeth; yn lleihau anghydraddoldebau; yn

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		cefnogi gofal cynhwysol a hygyrch (gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg a gofal sy'n ddiogel yn ddiwylliannol). ○ Goblygiadau addysgol: Cynyddu **lleoliadau cymunedol, gofal sylfaenol ac iechyd y cyhoedd;** gwreiddio **iechyd y cyhoedd, anghydraddoldebau iechyd, penderfynyddion cymdeithasol, iechyd y boblogaeth a chymwyseddau gofal dwyieithog** mewn cwricwla cyn ac ar ôl cofrestru; datblygu cymysgedd sgiliau sy'n canolbwyntio ar atal a hyfforddiant ymarfer sy'n seiliedig ar dimau. • **Modelau Arloesi mewn Gofal a'r Gweithlu** ○ Nod: Erbyn 2030, bydd nyrsio a bydwreigiaeth yn sbarduno modelau gofal sy'n ystwyth, sy'n amlbroffesiwn, sydd wedi'u galluogi'n ddigidol, sy'n seiliedig ar werthoedd ac sy'n gynaliadwy. Bydd technoleg newydd, iechyd digidol, awtomatiaeth a modelau gofal integredig yn safonol. ○ Goblygiadau addysgol: Gwreiddio **iechyd digidol, llythrennedd data, deallusrwydd artiffisial/technoleg, gwybodeg a chynaliadwyedd mewn** cwricwla a datblygiad proffesiynol parhaus; paratoi'r gweithlu ar gyfer swyddi newydd (amlbroffesiwn, uwch, hybrid) a gweithio mewn tîm; sicrhau hyfforddiant mewn modelau newydd (gofal rhithwir, parhad, gofal integredig yn y gymuned). • **Arweinyddiaeth Fyd-eang a Phartneriaethau** ○ Nod: Mae proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth Cymru yn cyfrannu'n rhyngwladol ac yn rhannu arferion gorau, yn dylanwadu ar bolisi iechyd byd-eang, ac yn cydweithio ar draws ffiniau wrth ymgorffori cynaliadwyedd a gwerthoedd iechyd byd-eang moesegol. ○ Goblygiadau addysgol: Meithrin **cydweithio rhyngwladol**, cyfnewid, partneriaethau ymchwil, hyfforddiant iechyd byd-eang; adeiladu cwricwla sy'n edrych drwy lens iechyd byd-eang, tegwch a chynaliadwyedd; cefnogi symudedd a dysgu ar y cyd fel rhan o ddatblygiad gyrfa. Ar ben hynny, mae'r Weledigaeth yn pwysleisio bod **cydgynhyrchu** (sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, cymunedau, staff), **cynaliadwyedd ac ymarfer sy'n ymwybodol o'r hinsawdd**, a **chynhwysiant a gofal yn y Gymraeg** yn egwyddorion trawsbynciol.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Mae'r ddogfen yn ymrwymo i gynnull **uwchgynadleddau sy'n seiliedig ar themâu** (dan arweiniad Cyfarwyddwyr Nyrsio Gweithredol) a pharatoi cynlluniau gwaith blynyddol gyda chamau gweithredu, cerrig milltir a chyfrifoldebau i roi'r weledigaeth ar waith.
A1	Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol GIG Cymru 2026 - 2031 Cyhoeddwr: Perfformiad a Gwella GIG Cymru Dyddiad: Mawrth 2026 Mae'r ddogfen hon yn nodi fframwaith pum mlynedd, Cymru gyfan, ar gyfer gwella diogelwch cleifion ar draws y system gofal iechyd. Am y tro cyntaf, mae'n sefydlu dull cenedlaethol unedig o leihau niwed y gellir ei osgoi, cryfhau diwylliant diogelwch a gwreiddio dysgu parhaus ar draws gofal sylfaenol, cymunedol, eilaidd a chymdeithasol. Dolen: Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol GIG Cymru 2026 - 2031	Pwrpas ac uchelgais cyffredinol • Mae'r Cynllun yn sefydlu dull cenedlaethol ar draws y system o ymdrin â diogelwch cleifion, gan symud oddi wrth weithgarwch tameidiog sy'n cael ei yrru gan gydymffurfiaeth tuag at welliant cydlynol. • Ei brif nod yw lleihau niwed y gellir ei osgoi a meithrin diwylliant o ddysgu a gwella ar draws GIG Cymru. • Mae'n gosod diogelwch cleifion fel rhywbeth sy'n hanfodol i ansawdd gofal iechyd, wedi'i integreiddio â dyletswyddau statudol fel y Ddyletswydd Ansawdd. Cyd-destun y system a'r rhesymeg dros weithredu • Mae'r Cynllun yn ymateb i ddiffyg un fframwaith diogelwch cleifion cenedlaethol, sy'n arwain at ddulliau digyswllt ac adweithiol. • Mae'r heriau presennol yn cynnwys: ○ Risgiau diogelwch parhaus mewn system sydd o dan bwysau ○ Dysgu cyfyngedig ar draws y system ○ Gorddibyniaeth ar adrodd am ddigwyddiadau yn hytrach na rheoli risg yn rhagweithiol • Mae'n tynnu sylw at anghydraddoldebau iechyd, y galw cynyddol a'r pwysau sydd ar y gweithlu fel risgiau diogelwch cyfunol. • Pwysleisir yr effaith ariannol, gydag £114.6 miliwn mewn hawliadau a chostau gwneud iawn yn gysylltiedig â gofal anniogel (2023-24). Nod craidd a dull cysyniadol

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		• Mae'r Cynllun wedi'i adeiladu o amgylch y nod: "Gwrando, arwain a dysgu ar gyfer gofal mwy diogel yng Nghymru." • Mae wedi'i strwythuro o amgylch tair conglfaen sylfaenol: ○ Gwrando - ymgorffori mewnwelediad cleifion, staff a phartneriaid i wella diogelwch ○ Arweinyddiaeth - arweinyddiaeth weladwy ac atebol sy'n gwreiddio diogelwch fel blaenoriaeth ○ Dysgu - dysgu parhaus ar draws y system yn seiliedig ar ddata a phrofiad • Mae'r conglfeini hyn yn sail i ddatblygu system iechyd sy'n dysgu, ac sy'n canolbwyntio ar atal, nid dim ond ymateb. Dull gweithredu System Rheoli Ansawdd (QMS) • Un o nodweddion canolog y Cynllun yw cyflwyno System Rheoli Ansawdd (QMS) genedlaethol ar gyfer diogelwch cleifion. • Mae'r QMS yn integreiddio pedair swyddogaeth graidd: ○ Cynllunio ○ Gwella ○ Rheoli ○ Sicrwydd • Fel y dangosir yn y *diagram ar dudalen 16*, mae'r elfennau hyn yn gweithredu gyda'i gilydd i greu fframwaith diogelwch parhaus ar draws y system sy'n cysylltu arweinyddiaeth, data, diwylliant a gweithgarwch gwella. • Mae'r dull yn symud y cyfrifoldeb oddi wrth unigolion tuag at ddylunio systemau a phrosesau sefydliadol, gan wreiddio diogelwch yn y gwaith o ddarparu gofal bob dydd. Blaenoriaethau diogelwch clinigol cenedlaethol • Mae'r Cynllun yn nodi set benodol o flaenoriaethau diogelwch clinigol cenedlaethol, a ddewiswyd drwy driongli data a gwybodaeth am systemau. Mae'r meysydd blaenoriaeth allweddol yn cynnwys:

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		• Dirywiad acíwt a sepsis • Datgyflyru ac eiddilwch yn y gymuned • Heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd • Diogelwch iechyd meddwl mewn gofal eilaidd • Gofalu am bobl ag anableddau dysgu a niwrowahaniaeth • Diogelwch mamolaeth a newyddenedigol • Diogelwch meddyginiaethau (sydd wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth sy'n datblygu) • Bwriad y blaenoriaethau hyn yw canolbwyntio ymdrechion cenedlaethol ar feysydd sy'n peri'r risg a'r niwed mwyaf, gan alluogi gwelliant cydlynol. Cwmpas y system gyfan • Mae'r Cynllun yn berthnasol ar draws pob sector GIG Cymru, gan gynnwys: ○ Gofal sylfaenol ○ Gwasanaethau cymunedol ○ Gofal eilaidd ○ Gofal cymdeithasol • Mae'n cynnwys gwasanaethau contractwyr annibynnol (e.e. ymarfer meddygol cyffredinol) yn benodol mewn fframwaith diogelwch cenedlaethol. • Rhoddir pwyslais ar integreiddio ar draws ffiniau sefydliadol a phroffesiynol, gan sicrhau cysondeb o ran safonau diogelwch. Chwe ffactor allweddol sy'n galluogi diogelwch cleifion • Mae'r Cynllun yn nodi chwe galluogwr system sydd eu hangen i sicrhau gwelliant: 1. Arweinyddiaeth 2. Y gweithlu 3. Diwylliant 4. Gwybodaeth a mewnwelediadau 5. Dysgu, gwella ac ymchwil 6. Dull gweithredu system gyfan

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		• Mae'r galluogwyr hyn yn cynrychioli'r amodau craidd sydd eu hangen i gynnal gwelliannau diogelwch, gan gynnwys gallu'r gweithlu, seilwaith data a diwylliant sefydliadol. Dull gweithredu pum mlynedd • Mae'r Cynllun yn nodi model cyflawni cam wrth gam (2026-2031): ○ Cam 1 (2026–27): Sefydlu'r sylfeini (llywodraethu, systemau, fframweithiau) ○ Cam 2 (2027–31): Cyflawni gwelliannau (diwylliant, integreiddio data, ymchwil) ○ Cam 3 (ar ôl 2031): Cynnal a gwella'n barhaus • Mae camau gweithredu'n cael eu trefnu ar draws y chwe galluogwr, gydag amcanion, amserlenni ac effeithiau disgwyliedig wedi'u diffinio. Model Llywodraethu a Chyflawni • Mae'r gwaith cyflawni yn cael ei arwain gan Berfformiad a Gwella GIG Cymru, gan weithio gyda: ○ Llywodraeth Cymru ○ Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd ○ Sefydliadau cenedlaethol • Darperir goruchwyliaeth drwy strwythurau llywodraethu cenedlaethol sy'n alinio â'r Fframwaith Llywodraethu Clinigol. • Mae'r Cynllun yn pwysleisio atebolrwydd clir, aliniad y system a goruchwyliaeth genedlaethol gydlynol. Mesur a gwerthuso • Bydd yr effaith yn cael ei mesur drwy'r canlynol: ○ Y Fframwaith Canlyniadau Ansawdd (QOF) ○ Dangosyddion meintiol ac ansoddol ○ Adolygiadau dwy flynedd i ailasesu blaenoriaethau

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		• Bwriad y gwaith mesur yw asesu canlyniadau, yn ogystal â bwydo'r hyn a ddysgir yn ôl i'r system, gan atgyfnerthu gwelliant parhaus. Casgliad a chyfeiriad cyffredinol • Mae'r Cynllun yn gosod cyfeiriad cenedlaethol clir ar gyfer gwella diogelwch ar draws GIG Cymru, gan ganolbwyntio ar y canlynol: ○ Lleihau niwed ○ Cryfhau diwylliant diogelwch ○ Gwella'r defnydd o ddata a systemau dysgu • Mae'n pwysleisio cydweithio ar draws sefydliadau a rôl cleifion a staff wrth lunio gofal mwy diogel. • Y nod cyffredinol yw darparu gofal diogel, effeithiol a theg i bawb yng Nghymru.
A1	Rhwystrau i addysg uwch yng Nghymru: adolygiad tystiolaeth Cyhoeddwr: Llywodraeth Cymru Dyddiad: Mawrth 2026 Rhwystrau i addysg uwch yng Nghymru: adolygiad tystiolaeth sy'n cyfuno ymchwil a data presennol i nodi'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar fynediad at addysg uwch, cyfranogiad, a chynnydd drwyddi ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn dwyn ynghyd tystiolaeth cenedlaethol a rhyngwladol i roi trosolwg	Pwrpas a chwmpas • Nod yr adolygiad yw darparu cyfosodiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth ar rwystrau sy'n effeithio ar gyfranogiad mewn addysg uwch yng Nghymru. • Mae'n cefnogi dealltwriaeth o bwy sy'n llai tebygol o gael mynediad at addysg uwch a pham, gan ddefnyddio astudiaethau meintiol ac ansoddol. • Mae'r adroddiad yn ymdrin â thaith lawn y dysgwr, o'r cam cyn-mynediad i'r cam cynnydd a chwblhau. Fframio "rhwystrau" yn gysyniadol • Deellir rhwystrau fel pethau aml-ddimensiwn sy'n rhyngweithio, yn hytrach na ffactorau ynysig. • Mae'r adroddiad yn gwahaniaethu rhwng: ○ Rhwystrau strwythurol (e.e. cyd-destun economaidd-gymdeithasol, daearyddiaeth) ○ Rhwystrau sefydliadol (e.e. niferoedd derbyn, systemau cymorth) ○ Ffactorau ar lefel yr unigolyn (e.e. dyheadau, cyrhaeddiad, hyder)

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
	cynhwysfawr o rwystrau strwythurol, ariannol, addysgol a chymdeithasol. Dolen: Rhwystrau i addysg uwch yng Nghymru: adolygiad tystiolaeth	• Mae'n pwysleisio bod rhwystrau'n aml yn cronni ar draws cwrs bywyd. Anfantais economaidd-gymdeithasol • Mae cefndir economaidd-gymdeithasol yn cael ei nodi fel prif benderfynydd cyfranogiad. • Mae dysgwyr o aelwydydd incwm is yn llai tebygol o wneud y canlynol: o Mynd i addysg uwch o Mynychu sefydliadau tariff uwch o Llwyddo i wneud cynnydd ar ôl cofrestru • Pwysleisir pryderon ariannol, gan gynnwys ofn dyled a chostau byw, fel rhwystrau sylweddol. Cyrhaeddiad blaenorol a phrofiad ysgol • Mae cyrhaeddiad addysgol cyn addysg uwch yn rhagfynegydd cryf o gyfranogiad. • Mae gwahaniaethau mewn perfformiad ysgol, mynediad at ddewisiadau pwnc, a chymorth addysgol yn cyfrannu at anghydraddoldebau. • Mae'r adroddiad yn nodi bod bylchau cyrhaeddiad yn aml yn adlewyrchu anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ehangach. Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad (IAG) • Nodir bod mynediad at wybodaeth ac arweiniad amserol o ansawdd uchel yn anghyson. • Mae dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn llai tebygol o gael: o Cyngor pwrpasol am lwybrau addysg uwch o Cymorth gyda cheisiadau ac i wneud penderfyniadau • Mae hyn yn cyfrannu at lai o hyder a llai o debygolrwydd o wneud cais.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Dyheadau, disgwyliadau a ffactorau diwylliannol • Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at rôl dyheadau a chanfyddiadau o addysg uwch. • Mae rhai dysgwyr yn ystyried: ○ bod addysg uwch yn risg ariannol ○ nad yw addysg uwch yn alinio'n ddiwylliannol â'u cefndir ○ bod addysg uwch yn ddiangen ar gyfer eu gyrfa arfaethedig • Mae amgylcheddau teuluol, cymunedol ac ysgol yn dylanwadu'n gryf ar ddisgwyliadau. Ffactorau daearyddol a rhanbarthol • Mae lleoliad daearyddol yn effeithio ar fynediad o ran: ○ Pellter o sefydliadau addysg uwch ○ Costau cludiant a llety ○ Y ddarpariaeth leol sydd ar gael • Mae dysgwyr gwledig a'r rheini mewn rhanbarthau penodol yn wynebu heriau logistaidd ac ariannol ychwanegol. Rhwystrau ariannol • Mae ystyriaethau ariannol yn thema gyson, gan gynnwys: ○ Costau byw ○ Argaeledd cymorth cynhaliaeth ○ Lefelau tybiedig a gwirioneddol o ddyled myfyrwyr • Hyd yn oed lle mae cymorth ariannol ar gael, mae canfyddiadau o fforddiadwyedd yn parhau i fod yn rhwystr. Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Mae'r adroddiad yn nodi sawl grŵp sydd â chyfraddau cyfranogiad is, gan gynnwys: • Dysgwyr o gefndiroedd incwm isel • Unigolion â phrofiad o ofal • Dysgwyr anabl • Grwpiau lleiafrifoedd ethnig (gydag amrywiaeth rhwng grwpiau) • Dysgwyr aeddfed • Mae pob grŵp yn wynebu rhwystrau penodol sy'n gorgyffwrdd, sy'n gofyn am ddealltwriaeth gynnil. Pontio a chynnydd • Nid yw'r rhwystrau'n dod i ben ar ôl cael mynediad at addysg uwch; mae'r adroddiad yn tynnu sylw at heriau o ran: ○ Pontio i addysg uwch ○ Parhau â chyrsiau a'u cwblhau ○ Symud ymlaen i gyflogaeth neu astudiaeth bellach • Gall pwysau academaidd, ariannol a lles effeithio ar gyfraddau cadw. Croestoriadedd rhwystrau • Canfyddiad allweddol yw bod rhwystrau'n groestoriadol: mae unigolion yn aml yn wynebu anfanteision lluosog ar yr un pryd. • Er enghraifft, gall statws economaidd-gymdeithasol ryngweithio â daearyddiaeth, ethnigrwydd neu anabledd i ddwysáu anfantais. Sylfaen dystiolaeth a methodoleg • Mae'r adolygiad yn defnyddio: ○ Llenyddiaeth academaidd

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		○ Adroddiadau polisi ○ Data gweinyddol ac arolygon ○ Cymariaethau yn y DU ac yn rhyngwladol • Mae'n mabwysiadu dull cyfosod naratif, gan integreiddio canfyddiadau ar draws nifer o ffynonellau yn hytrach na chynhyrchu data sylfaenol newydd. Cyfyngiadau'r dystiolaeth • Mae'r adroddiad yn cydnabod: ○ Bylchau mewn data sy'n benodol i Gymru mewn rhai meysydd ○ Amrywioldeb mewn diffiniadau a mesurau ar draws astudiaethau ○ Heriau o ran ynysu perthnasoedd achosol • Mae'n tynnu sylw at yr angen am waith ymchwil parhaus a gwell cysylltiadau data. Casgliadau cyffredinol • Mae cyfranogiad mewn addysg uwch yng Nghymru yn cael ei siapio gan gydadwaith cymhleth o ffactorau economaidd-gymdeithasol, addysgol, ariannol a diwylliannol. • Mae rhwystrau'n barhaus ac yn aml yn gronnol, gan effeithio ar fynediad a chynnydd. • Mae mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn yn gofyn am ddealltwriaeth gyfannol o daith y dysgwr, yn hytrach na chanolbwyntio ar bwyntiau ymyrryd unigol.
A1	Llwybrau i addysg a hyfforddiant ôl-16 Cyhoeddwr: Senedd Cymru - Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Dyddiad: Gorffennaf 2024	Diben a chwmpas yr ymchwiliad • Cynhaliwyd yr ymchwiliad i ddeall pa mor effeithiol y mae'r system ôl-16 yng Nghymru yn cefnogi pobl ifanc i gael mynediad at lwybrau addysg a hyfforddiant, llywio drwyddynt a gwneud cynnydd. • Mae'n ystyried llwybrau gan gynnwys: ○ Addysg bellach (AB) ○ Prentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith ○ Darpariaeth chweched dosbarth

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
	Mae Llwybrau i addysg a hyfforddiant ôl-16 yn cyflwyno canfyddiadau ymchwiliad gan bwyllgor y Senedd i'r llwybrau sydd ar gael i bobl ifanc yng Nghymru ar ôl addysg orfodol. Mae'r adroddiad yn archwilio hygyrchedd, eglurder ac effeithiolrwydd llwybrau i addysg bellach, prentisiaethau, hyfforddiant ac addysg uwch, ac yn nodi materion allweddol sy'n effeithio ar ddewis, cynnydd a chanlyniadau dysgwyr. Dolen: Llwybrau i addysg a hyfforddiant ôl-16	○ Llwybrau addysg uwch • Mae'r adroddiad yn tynnu ar dystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr addysg, dysgwyr, cyflogwyr a chyrff polisi. Cymhlethdod llwybrau a llwybrau tameidiog • Canfyddiad canolog yw bod y system ôl-16 yn gymhleth ac yn dameidiog, gan ei gwneud yn anodd i ddysgwyr ddeall yr opsiynau sydd ar gael. • Nid oes un fframwaith cydlynol sy'n nodi'n glir y llwybrau cynnydd ar draws AB, AU a llwybrau galwedigaethol. • Gall y cymhlethdod hwn arwain at ddryswch a phenderfyniadau is-optimaidd. Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad (IAG) • Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr amrywioldeb o ran ansawdd ac argaeledd cyngor ac arweiniad gyrfaoedd. • Mae rhai dysgwyr yn cael cymorth cynhwysfawr, diduedd, tra bod eraill yn cael arweiniad cyfyngedig neu anghyson. • Codir pryderon am: ○ Amseroldeb cyngor ○ Ymwybyddiaeth o lwybrau galwedigaethol a phrentisiaethau ○ Tuedd tuag at lwybrau penodol (e.e. llwybrau academaidd) Canfyddiadau a statws llwybrau gwahanol • Mae llwybrau academaidd yn aml yn cael eu hystyried yn fwy clodfawr nag opsiynau galwedigaethol neu dechnegol. • Mae prentisiaethau a llwybrau AB weithiau'n cael eu hystyried yn ddewisiadau eilradd yn hytrach na dewisiadau cyfartal.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		• Mae'r canfyddiadau hyn yn dylanwadu ar ddewisiadau dysgwyr a gallant gyfyngu ar y nifer sy'n manteisio ar rai llwybrau. Pontio a chynnydd • Mae'r adroddiad yn nodi heriau o ran pontio rhwng cyfnodau, gan gynnwys: ○ Symud o'r ysgol i AB neu brentisiaethau ○ Symud ymlaen o AB i AU ○ Newid rhwng llwybrau • Mae bylchau mewn llwybrau cynnydd clir a chydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol, a all rwystro symudedd. Mynediad a thegwch • Mae mynediad at gyfleoedd ôl-16 yn amrywio yn ôl: ○ Lleoliad daearyddol ○ Cefndir economaidd-gymdeithasol ○ Argaeledd y ddarpariaeth leol • Gall dysgwyr mewn ardaloedd gwledig neu gymunedau difreintiedig wynebu rhwystrau ychwanegol, gan gynnwys teithio ac argaeledd cyfyngedig cyrsiau. Argaeledd a chapasiti'r ddarpariaeth • Mae'r adroddiad yn nodi amrywiaeth yn y cyrsiau a'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael ledled Cymru. • Mae gan rai rhanbarthau fynediad cyfyngedig i rai rhaglenni galwedigaethol neu arbenigol. • Gall cyfyngiadau o ran capasiti gyfyngu ar ddewis y dysgwr. Prentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith • Cydnabyddir prentisiaethau fel llwybr pwysig ond maent yn wynebu heriau, gan gynnwys:

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		○ Argaeledd cyfyngedig mewn rhai sectorau ○ Cystadleuaeth am leoedd ○ Amrywioldeb o ran ymgysylltiad cyflogwyr • Mae'r adroddiad yn amlygu'r angen am lwybrau cliriach i mewn a thrwy raglenni prentisiaeth. Rôl cyflogwyr • Nodir ymgysylltiad cyflogwyr fel ffactor allweddol mewn llwybrau ôl-16 effeithiol. • Fodd bynnag, mae cyfranogiad yn anghyson, ac mae cyfleoedd ar gyfer dysgu seiliedig ar waith yn amrywio ar draws sectorau a rhanbarthau. Deall data, olrhain a systemau • Mae'r adroddiad yn nodi cyfyngiadau o ran argaeledd a defnydd data ar deithiau a chanlyniadau dysgwyr. • Mae diffyg o ran olrhain cynhwysfawr o gynnydd ar draws gwahanol lwybrau. • Mae gwell integreiddio data yn cael ei ystyried yn bwysig ar gyfer deall perfformiad systemau. Diwygiadau Llywodraeth Cymru a Medr • Mae'r adroddiad yn cyfeirio at ddiwygiadau parhaus i'r system ôl-16, gan gynnwys sefydlu Medr. • Mae'n ystyried sut mae'r diwygiadau hyn yn anelu at greu system addysg fwy cydgysylltiedig. Canfyddiadau a chasgliadau allweddol

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		• Mae'r system addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru wedi'i nodweddu gan: ○ Cymhlethdod a natur dameidiog ○ Mynediad amrywiol at arweiniad a darpariaeth ○ Canfyddiadau anghyfartal o wahanol lwybrau ○ Bylchau o ran cynnydd a data • Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad, er bod llwybrau lluosog ar gael, nad ydynt bob amser yn cael eu deall yn glir, yn cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal neu'n hawdd eu llywio gan ddysgwyr.
A2	Adolygiad o Addysg a Hyfforddiant Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Ledled Cymru Cynhyrchwyd gan KPMG ar ran AaGIC Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2019 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn, a gomisiynwyd gan **Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)** ac a baratowyd gan **KPMG LLP**, ym **mis Hydref 2019**. Mae'n cyflwyno adolygiad cynhwysfawr o addysg a hyfforddiant gweithwyr iechyd proffesiynol israddedig ac ôl-raddedig ledled Cymru, gyda'r nod o lywio penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol i gefnogi datblygiad y gweithlu iechyd a gofal. Cynhaliwyd yr adolygiad i gefnogi proses gomisiynu addysg AaGIC sydd ar y gweill. Roedd yn canolbwyntio ar y canlynol: • **Ansawdd ac ymatebolrwydd** y ddarpariaeth addysg bresennol • **Mynediad at addysg** ledled Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig • Graddau ac effeithiolrwydd **addysg ryngbroffesiynol** • Y **ddarpariaeth Gymraeg** o fewn rhaglenni addysg iechyd Roedd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ganolog i'r adolygiad, gan gynnwys dros **130 o unigolion** o ddarparwyr addysg, Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau, cyrff y llywodraeth, sefydliadau proffesiynol, a myfyrwyr. **Y Prif Ganfyddiadau** • **Ansawdd yr Addysg:** Yn gyffredinol, roedd gan randdeiliaid farn gadarnhaol amdano, gyda myfyrwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer ymarfer. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon am brofiadau lleoliadau a chefnogaeth i weithwyr proffesiynol sydd newydd gymhwyso. • **Mynediad at addysg**: Nodwyd bod y ddarpariaeth yn gyfyngedig mewn ardaloedd gwledig, gyda galwadau am fodelau darparu mwy hyblyg fel campysau lleol a dysgu o bell.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		• **Addysg ryngbroffesiynol:** Roedd y ddarpariaeth yn anghyson ar draws sefydliadau. Nodwyd dull gweithredu ar wahân, a gwnaed argymhellion ar gyfer dysgu mwy cydweithredol ac integredig. • **Darpariaeth Gymraeg:** Er nad oedd galw mawr am raglenni cyfrwng Cymraeg llawn, roedd cefnogaeth gref ymysg gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i addysg ddwyieithog a datblygu sgiliau Cymraeg .
A2	Cynllun Gweithlu Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol Cyhoeddwyd ym mis Mai 2024 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	Cynhyrchodd AaGIC **Gynllun Gweithlu Strategol pum mlynedd ar gyfer Gofal Sylfaenol (2024/25/029/30)** i ddarparu modelau gweithlu amlbroffesiwn, cynaliadwy sy'n cyd-fynd â *Cymru Iachach* a'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru; **lansiwyd 15 Mai 2024.** **Achos clir dros newid a gweledigaeth.** Mae galw/cymhlethdod cynyddol, heneiddio, amlforbidrwydd a newidiadau technolegol yn gofyn am ofal sylfaenol **mewn timau, atal yn gyntaf, wedi'i alluogi'n ddigidol**; mae'r weledigaeth yn pwysleisio gwasanaethau teg sy'n cyd-fynd ag angen lleol, gyrfaoedd deniadol, a sgiliau ehangach. **Dau ddeg chwech o gamau gweithredu ar draws wyth thema (gyda'r pwyslais ar addysg).** Ymysg yr uchafbwyntiau roedd: • **Addysg a dysgu rhagorol (Camau gweithredu 13-14):** Datblygiad Proffesiynol Parhaus strwythuredig drwy **Academïau Gofal Sylfaenol**; sgiliau craidd mewn **gwneud penderfyniadau ar y cyd, gwella ansawdd, Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif, iechyd meddwl;** hyfforddiant iechyd cynhwysiant (gan gynnwys fframwaith cymhwysedd iechyd carchardai); gwneud penderfyniadau clinigol o bell; cymwyseddau gofal brys; **ehangu hyfforddiant cyn ac ar ôl cofrestru mewn gofal sylfaenol** (mwy o leoliadau ar gyfer **fferyllwyr, nyrsys, y Proffesiwn Perthynol i Iechyd, gwyddonwyr gofal iechyd**, mwy o **feddygon sylfaen** mewn gofal sylfaenol, ehangu darpariaeth arbenigol meddygon teulu); **rhaglenni pontio** teg (e.e. **Rhaglen Sylfaen Nyrsys Meddygaeth Deulu,** rhaglenni Proffesiwn Perthynol i Iechyd newydd); model **Ymarfer Hyfforddi Uwch** mewn optometreg; **cynllun datblygu addysgwyr** i werthfawrogi a safoni'r gweithlu addysgwyr. • **Cyflenwad a ffurf y gweithlu (Camau 8 a 12): Methodoleg haws ar gyfer cynllunio'r gweithlu gofal sylfaenol; modelu'r galw ar sail senarios** sy'n pennu ffactorau penodol o

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		ran **capasiti goruchwylio**; gwreiddio **fframwaith ymarfer estynedig/uwch/ymgynghorol**; **tasglu cadw** a chynlluniau wedi'u teilwra; **ehangu prentisiaethau;** atebion i'r gweithlu meddygon teulu (ysgogiadau partneriaeth/cyflogedig, lleihau dibyniaeth ar feddygon locwm; adolygu **meddygon teulu wrth gefn**); dichonoldeb cael **banc staff arbenigol**. • **Gweithlu sy'n ymgysylltu, yn iach ac yn llawn cymhelliant (Camau Gweithredu 1-4):** Mesur **profiad a lles pwrpasol** ar gyfer pob lleoliad contractwr; **preseptoriaeth/mentoriaeth** ar gyfer dechreuwyr newydd (Nyrsys Meddygaeth Deulu, meddygon teulu gan gynnwys mewn ardaloedd o amddifadedd, gofal sylfaenol brys, rolau deintyddol); modiwlau cynefino ar gyfer staff anghlinigol (iechyd y boblogaeth/anghydraddoldebau); **canllawiau goruchwylio ac uwchsgilio** ar gyfer timau amlbroffesiwn; archwilio cydraddoldeb **manteision staff**. • **Modelau gweithlu di-dor (Camau Gweithredu 5-7):** Cyfathrebu cyhoeddus ar **rolau tîm gofal sylfaenol; pecynnau cymorth ar gwmpas/rheoleiddio/anghenion goruchwylio;** ymgorffori rolau newydd (e.e. **cymdeithion meddygol, rolau heb eu cofrestru** fel gweithwyr iechyd cymunedol, llyw-wyr gofal, presgripsiynwyr cymdeithasol) gyda disgrifiadau swydd safonol a **llwybrau addysg**. • **Denu a recriwtio (Camau gweithredu 15-17): Rolau cylchdro/portffolio/hyblyg;** adolygu cynlluniau cymhelliant; cryfhau allgymorth **gyrfaoedd** drwy **Tregyrfa** a strategaeth gyrfaoedd i bob oed. • **Arweinyddiaeth ac olyniaeth (Camau gweithredu 18-21):** Mynediad teg at raglenni arweinyddiaeth genedlaethol; datblygiad pwrpasol ar gyfer **arweinwyr clwstwr/cydweithredol; Cymrodoriaeth Glinigol mewn anghydraddoldebau iechyd/iechyd y boblogaeth** i lywio cwricwla cyn/ar ôl cofrestru; llwybrau **rheoli ac arwain** proffesiynol. f • **Gweithlu sy'n barod yn ddigidol (Camau gweithredu 22-24): Map digidol gofal sylfaenol** gyda goblygiadau o ran hyfforddiant; cyflwyno **adnodd cymhwysedd digidol AaGIC**; mynediad at **dechnolegau ymgolli** yn ystod addysg a datblygu. • **Camau gweithredu ychwanegol (25-26):** Cynnig hyfforddiant yn y **Gymraeg** (Mwy na Geiriau) ac **ehangu mynediad** i yrfaoedd ym maes gofal sylfaenol i grwpiau a dangynrychiolir.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Manteision a ddisgwylir: Mwy o leoliadau o ansawdd uchel, llwybrau gyrfa cliriach, recriwtio/cadw staff yn well, rhyddhau amser ar gyfer **addysgu/hyfforddi/gwella ansawdd** wedi'i fframio o fewn y **nod pedwarplyg**.
A2	https://aagic.gig.cymru/files/all-wales-simulation-3/ Cyhoeddwyd yn 2022 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	Nod **Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Efelychiad Cymru ar gyfer y Gweithlu Gofal Iechyd, 2022-2027** AaGIC sy'n para pum mlynedd ac yn gosod gweledigaeth, egwyddorion a darpariaeth, yw gwneud efelychu **rhyngbroffesiynol** o ansawdd uchel yn hygyrch ledled Cymru; wedi'i greu drwy ymgysylltu cenedlaethol i lywio'r gwaith o gyflawni a sicrhau ansawdd y Cynllun Tymor Canolig Integredig. **Gweledigaeth a chenhadaeth (sut beth yw "da").** Bydd AaGIC yn arwain y gwaith o ddatblygu gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n dda ac sy'n darparu gofal diogel a chynaliadwy; mae Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Efelychiad (SBET) yn rhan **annatod** o ddatblygu'r gweithlu, yn **gost-effeithiol**, yn rhyngbroffesiynol ac yn canolbwyntio ar **ganlyniadau i gleifion/defnyddwyr gwasanaeth**. **Pedwar parth strategaeth gyda 12 ffrwd waith.** **Ymgysylltu â Phobl a Phartneriaethau** (cyfathrebu a rhwydweithio; cydweithio ledled Cymru/y DU/y byd a gyda diwydiant; **llwyfannau digidol** i rannu adnoddau ac arddangos arferion gorau). **Hyrwyddo Ansawdd** (datblygu'r gyfadran; **safonau a sicrhau ansawdd; gwerthuso)**. **Cefnogi Darpariaeth Efelychu** (hygyrchedd; **datblygiad rhyngbroffesiynol; datblygu proffesiynol parhaus ac adolygu perfformiad** ar gyfer cyfadran SBET). **Dylunio Cyfeiriadau'r Dyfodol** (trosi **technolegau ymgolli; ymchwil; ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth**). **Datblygu cyfadran - haenog, teg ac amlbroffesiwn.** Ymrwymiadau i **raglen gyfadran safonol** fel bod addysgwyr yn ennill **y sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiadau** i ddarparu SBET cyson a diogel; mynediad hyblyg; cefnogaeth benodol ar gyfer **SBET rhyngbroffesiynol**. **Safonau a sicrhau ansawdd (sy'n cyd-fynd ag ASPiH).** Hyrwyddo a **gwreiddio safonau ASPiH** (a safonau proffesiynol/rheoleiddio perthnasol) yn y gwaith o ddatblygu'r gyfadran a dylunio/darparu'r SBET yn rheolaidd; meithrin diwylliant o ddysgu o lwyddiant/methiant i wella **amgylcheddau dysgu diogel**.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Gwerthusiad sy'n cyrraedd y canlyniadau. Gwerthuso **pob cam** o SBET ac atgyfnerthu'r gwaith o asesu'r **effaith ar ganlyniadau i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a dysgwyr**; darparu mynediad cyfartal at adnoddau a chymorth gwerthuso. **Mynediad a chapasiti ledled Cymru.** Gwella **hygyrchedd, y gallu i ddarparu a defnyddio** cyfleusterau, offer, technegwyr/actorion a'r gyfadran; ymdrechu i sicrhau **mynediad teg** at SBET ar gyfer y gweithlu cyfan (cofrestredig a heb gofrestru). **Datblygiad rhyngbroffesiynol yn ddiofyn.** Mae SBET wedi'i fframio fel rhywbeth **sylfaenol** i addysg ryngbroffesiynol ar draws y continwwm (israddedig → ôl-raddedig → Datblygiad Proffesiynol Parhaus), gyda diffiniadau clir o addysg ryngbroffesiynol. **Cyfraniad gwarchodedig addysgwr.** Cydnabod a chefnogi'r gyfadran SBET drwy **Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac adolygu perfformiad** fel nad yw addysg yn cael ei llethu gan bwysau ar wasanaethau. **Map technolegau ymgolli.** Nodi blaenoriaethau/manteision/heriau; cyd-greu gweledigaeth ar gyfer Realiti Ymestynnol (Realiti Estynedig/Realiti Rhithiol/Realiti Cymysg) sydd **ar gael yn deg**; hyrwyddo rhannu arloesedd ac arferion gorau. **Trosi ymchwil a thystiolaeth.** Meithrin **diwylliant ymchwil** (sy'n cysylltu â Chydweithrediaeth Arfarnu, Ymchwilio, Gwella ac Arloesi (ERIIC) AaGIC), annog prosiectau ar effaith SBET, a **throsi llenyddiaeth yn ymarfer bob dydd**. **Ymrwymiadau trawsbynciol.** Mae **cydraddoldeb ac amrywiaeth, y Gymraeg** a **chynaliadwyedd** wedi'u gwreiddio (cyfeirir at yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a'r asesiad o'r effaith ar gynaliadwyedd).
A2	**Cynllun Gweithlu Genomeg AaGIC** Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024	Cynllun tair blynedd gyda **33 o gamau gweithredu** i ddatblygu gweithlu genomeg cynaliadwy ar gyfer GIG Cymru, a "llythrennedd genomig" y gweithlu labordy/clinigol *arbenigol* a'r gweithlu *ehangach*, yn unol ag ymrwymiadau **Cynllun Cyflawni Genomeg Cymru** a rhai **Genome UK** yn y DU.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
	Cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	**Canfyddiadau cychwynnol a "llythrennedd cod".** I raddau helaeth, mae'r cyhoedd yn **tybio** i raddau helaeth bod pawb yn cael ei reoleiddio ym maes iechyd a gofal ac yn gweithio yn unol â chod; mae'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn disgwyl **tebygrwydd cyffredinol** ar draws codau gyda naws sy'n benodol i broffesiwn. Mae teimlad **anesmwyth** ynghylch rolau heb eu rheoleiddio a diffyg atebolrwydd clir. Dylai addysg amlygu'r **dirwedd reoleiddio** a nod penodol y codau. **Manteision tybiedig cod cyffredin (cysondeb, ymddiriedaeth, tryloywder).** Mae cyfranogwyr yn gweld mantais **safonau ymddygiad cyson**, cydnabyddiaeth haws o achosion o **dorri amodau**, mwy o **hyder i gwyno/chwythu'r chwiban**, a gwell **diwylliant Tîm Amlddisgyblaethol** (cydweithio, nodau cyffredin). Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael ei ystyried yn rhan o ddiwylliant parchus ac ymddygiad cyson. Gall addysg drosi'r rhain yn **ddysgu ar y cyd ar ymddygiad ar draws proffesiynau**. **Heriau i fynd i'r afael â nhw (heterogenedd, geiriad, risg o "ddiflastod").** Mae perygl y bydd dod â phroffesiynau amrywiol o dan un cod yn **rhy generig** i fod yn bwysig neu'n **rhy gaeth** ar gyfer rhai swyddi. Mae gwahaniaethau o ran geiriad (e.e., "dylai" o'i gymharu â "rhaid") yn creu amwysedd. Ffafrir dull **gweithredu ar sail egwyddorion** gyda lle i ystyried manylion am broffesiynau penodol. Mae angen i ddysgwyr ddeall **iaith reoleiddiol** a chanlyniadau hynny. **Beth fyddai cod cyffredin yn debygol o'i gynnwys (themâu cynnwys).** Pynciau craidd, trawsbynciol: **cyfathrebu; diwylliant o ddiogelwch cleifion; cyfrinachedd/GDPR; cadw cofnodion; parch a pheidio â gwahaniaethu; empathi; uniondeb, gonestrwydd; atebolrwydd.** Themâu ychwanegol a godwyd: **cyfryngau cymdeithasol, cwrteisi** a **chynaliadwyedd.** Mae'r rhain yn mapio'n dda i ganlyniadau'r cwricwlwm a chyfarwyddiadau asesu. **Gweithredu ac atebolrwydd (mae addysg yn ganolog).** Er mwyn cael effaith, byddai angen i god cyffredin gael ei **fabwysiadu ar draws y system gyfan, ei integreiddio i hyfforddiant o'r cychwyn cyntaf,** a'i gynnwys yn y broses **gynefino** er mwyn iddo ddod yn "gof cyhyrau" diwylliannol. Mae pryderon yn canolbwyntio ar **sut mae'n cyd-fynd** â chodau presennol sy'n benodol i broffesiwn/gwerthoedd presennol y GIG, **pwy sy'n ei orfodi**, a **chost/gorbenion** ei gyflwyno. Dylai addysg adeiladu'r **sut** (addysgu, goruchwylio, tystiolaeth) yn ogystal â'r **beth**.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Rheolwyr a chofrestrau achrededig. Mae llawer o ymatebwyr o **blaid cynhwysiad** (neu safonau cyfochrog) ar gyfer **uwch reolwyr anghlinigol** a'r rheini sydd ar **gofrestri achrededig,** er mwyn cau bylchau atebolrwydd a gwella ymddiriedaeth - ond maent yn pwysleisio'r angen am **oruchwyliaeth glir**. Defnyddiwyd senarios sy'n defnyddio **achosion proffil uchel** i brofi a allai cod cyffredin fod wedi gwneud gwahaniaeth. Mae'r rhain yn trosi'n dda i **ddysgu ac efelychu sy'n seiliedig ar senarios.**
B2	Arolwg o Atal Twyll 2025 – Y canlyniadau Cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	*Canlyniadau arolwg hyfforddiant cenedlaethol 2025*, adroddiad ar gyfer y DU gyfan gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) sy'n rhoi cipolwg blynyddol ar **ansawdd addysg a hyfforddiant meddygol i raddedigion** a'r **amgylchedd hyfforddi** ledled y DU, a ddefnyddir ar gyfer sicrhau ansawdd a gwella systemau. **Graddfa a phrif brofiad.** Ymatebodd **50,637 o hyfforddeion** a **21,289 o hyfforddwyr**. Roedd **87%** o hyfforddeion yn dweud bod **goruchwyliaeth glinigol** yn dda/da iawn; roedd **84%** yn dweud bod y profiad cyffredinol yn dda/da iawn; roedd **63%** yn teimlo bod eu swydd yn cynnig datblygu **sgiliau arwain.** **Mae gorweithio'n parhau'n gyffredin.** Mae **61%** o hyfforddeion a **47%** o hyfforddwyr mewn perygl **cymedrol/uchel** o orweithio. Er bod hyn wedi gostwng ers uchafbwynt 2023, mae **gorweithio risg uchel hyfforddeion wedi dyblu ers 2019;** mae **50%** yn dweud eu bod wedi **gorflino'n emosiynol** yn uchel/uchel iawn. **Mae bylchau yn y rota yn niweidio hyfforddiant.** Mae **26%** o hyfforddeion a **29%** o hyfforddwyr yn dweud bod **effaith andwyol** ar hyfforddiant oherwydd nad yw bylchau mewn rotas yn cael eu trin yn briodol. **Petruso cyn uwchgyfeirio (metrig newydd).** Mae **21%** o hyfforddeion yn teimlo'n **bryderus ynghylch uwchgyfeirio** i oruchwyliwr; **23% y tu allan i oriau**. Yn uwch mewn **llawfeddygaeth (29%), Obstetreg a Gynaecoleg (27%), meddygaeth a meddygaeth frys (26%)**. **Mae pwysau llwyth gwaith yn amrywio yn ôl arbenigedd.** Mae **42%** yn adrodd am lwyth gwaith trwm/trwm iawn, gan godi i **70%** mewn meddygaeth frys, **63%** mewn Obstetreg a Gynaecoleg a **48%** mewn llawfeddygaeth.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Gwahaniaethu a chodi llais. Mae **28%** yn profi **micro-ymosodiadau/ymddygiadau negyddol**; nid yw **39%** yn teimlo'n hyderus yn rhoi gwybod am wahaniaethu heb ofn. Mae'r baich yn **uwch** ar gyfer rhai grwpiau (e.e. mae **45%** o hyfforddeion **deurywiol** a **39%** o rhai **hoyw** yn clywed sylwadau gwahaniaethol; mae **34%** o hyfforddeion o leiafrifoedd ethnig a addysgwyd yn y DU yn nodi micro-ymosodiadau o'i gymharu â **25%** o gymheiriaid gwyn). **Cynefino a mentora.** Roedd **ansawdd y cynefino** wedi gwella i **76%** o ymatebwyr yn rhoi sgôr da/da iawn, ond **56%** yn dweud **nad oedd mentor**; mae mentora ffurfiol yn dal yn gyfyngedig y tu allan i'r meddyg teulu. **Tueddiadau hyblygrwydd.** Yn 2025, dywedodd **30% o hyfforddeion benywaidd** a **15% o rai gwrywaidd** eu bod yn gweithio'n llai nag amser llawn; mae'r rhan fwyaf o feddygon yn **camu allan ar ôl F2** (tua **65%** yn 2023). Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn tynnu sylw at yr angen am **fodelau hyfforddi hyblyg**.
B2	Adroddiad Gweithlu ar Gyflwr Addysg Feddygol (GMC) 2024 The state of medical education and practice in the UK Workforce report 2024 y Cyngor Meddygol Cyffredinol Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024 Cyrchwyd ym mis Medi 2025	Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol, yn dadansoddi tueddiadau cofrestr 2012-2023 a dynameg piblinellau ar draws pedair gwlad y DU i lywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu, capasiti hyfforddi a blaenoriaethau cynhwysiant. **Y twf cyflymaf erioed yn y gweithlu, wedi'i sbarduno gan bobl o'r tu allan i'r DU sy'n ymuno.** Rhwng 2022→2023, tyfodd nifer y meddygon trwyddedig o **+6%** (o'i gymharu â 2.6% ar gyfartaledd ers 2011); roedd **68% o'r rhai a ymunodd** yn **raddedigion o'r tu allan i'r DU** a dim ond **~9%** o weithlu 2023 a oedd newydd ennill trwydded y DU y flwyddyn honno - gan gynyddu'r angen am amgylcheddau sefydlu, goruchwylio a dysgu cynhwysol cadarn. **Mae twf Cyflogaeth Leol (LE) a chymdeithion meddygol a meddygon arbenigedd yn ail-lunio anghenion hyfforddi.** Cynyddodd nifer y meddygon a gyflogir yn lleol yng Nghymru a Lloegr o **+75% (2019→2023) i 36,831;** mae gan **66% o feddygon a gyflogir yn lleol** ac **81% o gymdeithion meddygol a meddygon arbenigedd** gymhwyster meddygol y tu allan i'r DU. Mae cyfraddau gadael meddygon a gyflogir yn lleol wedi gostwng (**7%→4%** ers 2017), sy'n dangos bod rolau a gyflogir yn lleol yn fwy hirdymor ac angen datblygiad strwythuredig a chydnabyddiaeth o ennill cymhwysedd.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Mae dargyfeirio ar ôl F2 bellach yn arferol. Ni wnaeth **75%** o garfan F2 2022 wedi ymgymryd â hyfforddiant craidd/arbenigol yn 2023; roedd **11,757** o feddygon trwyddedig wedi cwblhau F2 yn ystod y 12 mlynedd flaenorol ond erioed wedi dechrau hyfforddiant - gan ddangos y galw am l**wybrau hyblyg, cydnabod dysgu a gyflogir yn lleol**, a **chymorth gyrfa** y tu allan i raglenni ffurfiol. **Capasiti'r hyfforddwr yw'r cyfyngiad rhwymol.** Mae goruchwylwyr clinigol/addysgol yn nodi'r **llwyth gwaith anghynaliadwy o uchel** a'r niferoedd cynyddol o hyfforddeion/meddygon dan hyfforddiant y maent yn eu goruchwylio; heb amser wedi'i neilltuo a mwy o hyfforddwyr, ni fydd y **cynnydd arfaethedig mewn lleoedd mewn ysgolion meddygol yn y DU** yn troi'n arbenigwyr/meddygon teulu hyfforddedig. **Mae amrywiaeth wedi cynyddu; rhaid i degwch ddilyn.** Mae mwy o feddygon o leiafrifoedd ethnig na meddygon gwyn erbyn hyn; mae'r gweithlu bron yn gydradd rhwng y rhywiau (49% yn fenywod). Mae rhwystrau cyrhaeddiad a dilyniant gwahaniaethol parhaus yn gofyn am **ddatblygu addysgwyr wedi'u targedu** a mynediad teg at gyfleoedd hyfforddi (yn enwedig ar gyfer Graddedigion Meddygol Rhyngwladol/Cyflogaeth Leol/Cymdeithion Meddygol a Meddygon Arbenigedd). **Nifer y rhai sy'n gadael yn gyson ar y cyfan, ond gwasgedd mewn rhai mannau.** Gadawodd **4%** o feddygon trwyddedig yn 2023 (sefydlog o'i gymharu â 2022); gyda mwy yn gadael o blith meddygon sydd naill ai ddim ar y gofrestr/ddim yn cael hyfforddiant; mae nifer uwch yn gadael yn gynnar o blith rhai arbenigwyr newydd (e.e. offthalmoleg **28%** o fewn pum mlynedd). Mae ansawdd addysg a goruchwyliaeth yn ganolog i gadw staff. **Cymysgedd y dyfodol: mwy o raddedigion o'r tu allan i'r DU, yn enwedig mewn meddygaeth teulu.** Rhaid i'r gwaith cynllunio integreiddio **cynefino cynhwysol, llwybrau cynnydd** a **chapasiti hyfforddwyr** i gefnogi gweithlu mwy amrywiol sydd wedi'i hyfforddi'n rhyngwladol yn y dyfodol.
B2	State of Medical Education (Workplace Experiences) The state of medical education and practice in the UK Workplace experiences 2025 y Cyngor Meddygol Cyffredinol	Dadansoddiad ledled y DU, a gyhoeddwyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol, sy'n seiliedig ar arolwg Baromedr y GMC 2024 ynghyd â chyfweliadau, sy'n nodi lle mae pwysau yn y gweithle, amodau diwylliant a hyfforddiant yn helpu neu'n llesteirio gofal cleifion a chyfraddau **cadw** staff ar draws y pedair gwlad.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
	Cyhoeddwyd ym mis Awst 2025. Cyrchwyd ym mis Awst 2025	**Gwelliannau graddol ond straen parhaus.** Am yr **ail flwyddyn yn olynol**, mae meddygon yn nodi eu bod yn cael profiadau gwell, ac eto mae'r system yn dal o dan bwysau difrifol; roedd **40%** wedi gweld diogelwch cleifion yn cael ei beryglu yn 2024 (ychydig o newid), felly rhaid i addysg flaenoriaethu **uwchgyfeirio, blaenoriaethu a gwaith tîm diogel o dan bwysau**. **Mae pwysau gan feddygon teulu yn ddifrifol.** Roedd **61% o feddygon teulu** yn cael trafferth darparu digon o ofal bob wythnos; dywedodd **44%** eu bod yn cael trafferth gyda'u llwyth gwaith ac roedd **46%** yn anfodlon - gan fygwth yr uchelgais i symud gofal i gymunedau. Dylai rhaglenni gryfhau **sgiliau cyffredinol/gofal sylfaenol, brysbennu, mynediad digidol, a modelau tîm**, gyda mwy o leoliadau cymunedol a chymorth goruchwyliwr. **Capasiti'r hyfforddwr yw'r cyfyngiad rhwymol.** Roedd **1 meddyg o bob 10** wedi rhoi'r gorau i weithgarwch hyfforddi neu wedi lleihau gweithgarwch hyfforddi oherwydd llwyth gwaith (opsiwn ymateb newydd yn 2024). Heb **amser hyfforddi wedi'i warchod** a datblygu addysgwyr, ni fydd cynnydd yn nifer y myfyrwyr/hyfforddeion yn trosi'n ddysgu diogel. Cynnwys **amser addysgu wedi'i gynllunio yn y swydd, cymarebau goruchwylio, a datblygiad proffesiynol parhaus i addysgwyr** wrth gomisiynu. **Mae angen llwybrau datblygu ar feddygon a gyflogir yn lleol (LE).** Meddygon a gyflogir yn lleol oedd y **lleiaf tebygol o deimlo eu bod yn gallu symud ymlaen** a dim ond **44%** ddywedodd eu bod yn gallu cael mynediad digonol at ddysgu/datblygu. Dylai strategaeth addysg gydnabod dysgu/profiad blaenorol (RPL/APE), pontio modiwlaidd, a **llwybrau clir at hyfforddiant neu gymwysterau.** **Mae gorweithio'n gostwng ond mae rhwystrau o hyd o ran llwyth gwaith.** Gostyngodd gorweithio risg uchel i **18%** (o 25% yn 2022); staffio annigonol yw'r rhwystr uchaf o hyd (**72%**). Rhaid i addysg gynnwys **llythrennedd llwyth gwaith, gwaith tîm effeithlon, dirprwyo/eglurder cwmpas, a sgiliau digidol** i leihau gwrthdaro. **Tegwch a bylchau cynhwysiant.** Mae meddygon anabl a meddygon o **leiafrifoedd ethnig a gymhwysodd yn y DU** yn nodi eu bod yn cael profiadau gwaeth; rhaid **addysgu, ymarfer a mesur** tegwch mewn amgylcheddau dysgu (gwrth-wahaniaethu, gwarineb, diogelwch seicolegol, mentora).

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Llun o genedl. Mae profiadau yng **Nghymru yn adlewyrchu'r DU yn fras** ond roedd meddygon Cymru **yn fwy tebygol o nodi nifer o rwystrau rhag darparu gofal**, gan atgyfnerthu'r angen i deilwra cymorth **gwledig/dwyieithog** a chynllunio lleoliadau.
B2	Academi'r Colegau Meddygol Brenhinol The_future_is_out_there_161024.pdf Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2024 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	Fe wnaeth yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Academi'r Colegau Brenhinol Meddygol (AoMRC), gynnull arweinwyr systemau'r DU i nodi ysgogiadau ymarferol i gyflawni'r newid hirddisgwyliedig i ofal yn y cartref ac yn y gymuned, gan egluro'r weledigaeth genedlaethol, y diwylliant, y cyllid, y metrigau a'r amodau cyflawni sydd eu hangen. **"Symudiadau mawr" tair system.** .O **analog → digidol, ysbyty → cymuned** a **salwch → ataliaeth**, rhaid i addysg baratoi'r gweithlu ar gyfer lleoliadau, offer a modelau ataliol newydd. **Pedwar galluogwr i gyflawni'r symud (yr hyn i addysgu ar ei gyfer).** 1. **Blaenoriaethau a diwylliant:** gwneud gofal cymunedol yn norm o'r radd flaenaf; cyd-ddylunio gwasanaethau gyda phobl; ehangu i fodel **bio-seico-gymdeithasol** ac ymyrryd yn gynharach. → Addysgu **cydgynhyrchu, newid ymddygiad, penderfynyddion cymdeithasol, dulliau sy'n seiliedig ar asedau.** 2. **Llif a rhyddhau i'r cartref:** gwella'r broses o wneud penderfyniadau rhyddhau, safoni gwaith y Tîm Amlddisgyblaethol, a lleihau diwrnodau mewn gwlâu y gellir eu hosgoi. → Hyfforddi mewn **gwyddoniaeth llif, rhyddhau i asesu, gofal canolraddol, gwneud penderfyniadau ar y cyd**. 3. **Graddfa ac ansawdd gofal cartref/gofal cymunedol:** buddsoddi mewn **seilwaith sylfaenol/cymunedol**, diagnosis yn nes at y cartref, **gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg**, a **gweithlu proffesiynol yn y sector gofal**; galluogi timau i **reoli risg yn y gymuned;** defnyddio wardiau rhithiol. → Adeiladu **diagnosis yn y gymuned, monitro o bell, haenu risg, gweithrediadau ward rithwir** i mewn i'r cwricwla/datblygiad proffesiynol parhaus. 4. **Newid ble mae'r arian yn mynd a beth rydym yn ei fesur:** cysoni cyllid a **metrigau** â gweithgarwch cymunedol; creu fframweithiau cenedlaethol caniataol a **rhwydweithiau darparwyr y tu allan i'r ysbyty**. → Addysgu **canlyniadau iechyd y boblogaeth, llythrennedd comisiynu a chontractio, mesur gwelliannau**.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Achosion enghreifftiol i'w hefelychu mewn dysgu. Mae enghreifftiau'n dangos bod **wardiau rhithiol** yn lleihau nifer y bobl sy'n cael eu haildderbyn i'r ysbyty (-35%) ac yn gwella'r profiad; mae rhaglenni **dewisiadau rhyddhau** yn lleihau'r defnydd o welyau (-42%). → Eu defnyddio fel **cynnwys efelychu/senario** ac achosion asesu. **Goblygiadau i'r gweithlu.** Yn pwysleisio gwaith **tîm amlddisgyblaethol/traws-sefydliadol, diagnosteg gymunedol, parodrwydd TG/ystadau,** a **defnyddio cynllun nesaf y gweithlu** i atgyfnerthu'r symud-mae'n rhaid i addysg wneud y cymwyseddau hyn yn greiddiol.
B2	Independent report finds varied learning experiences for nursing & midwifery students - The Nursing and Midwifery Council Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024 Cyrchwyd Hydref 2025.	Adroddiad ymchwil / adolygiad annibynnol o ddysgu ymarfer ar gyfer myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Nuffield a Sefydliad Florence Nightingale. Adolygiad o sut mae dysgu ymarfer (lleoliadau, goruchwyliaeth, efelychu) yn cael ei ddarparu ar gyfer myfyrwyr nyrsio, bydwreigiaeth a chymdeithion nyrsio cyn cofrestru ledled y DU, wedi'i gomisiynu i nodi amrywiadau mewn profiad, bylchau mewn goruchwyliaeth a thystiolaeth, ac i lywio adolygiad rheoliadol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth sydd ar y gweill o ofynion dysgu ymarfer. **Amrywiad ym mhrofiad dysgu myfyrwyr.** Canfu'r adroddiad, er bod gofynion rheoliadol ar gyfer dysgu ymarfer yn gynhwysfawr, bod "profiadau dysgu a goruchwyliaeth amrywiol iawn" ar draws sefydliadau a lleoliadau, a allai danseilio cysondeb paratoadau myfyrwyr. **Goruchwyliaeth, rolau asesydd a phwysau llwyth gwaith.** Un o'r canfyddiadau allweddol yw bod pwysau ar y gronfa o oruchwylwyr/aseswyr ymarfer cymwys, gan arwain at amrywioldeb wrth gefnogi ac asesu myfyrwyr. Mae'r adroddiad yn argymell ehangu cymorth, amser wedi'i neilltuo a hyfforddiant ar gyfer y rolau hyn. **Eglurder y safonau a'r disgwyliadau.** Mae'r adroddiad yn pwysleisio dehongliadau anghyson o safonau dysgu ymarfer (oriau, lleoliadau, rhifau geni ar gyfer bydwragedd ac ati), ac yn galw am ganllawiau cliriach a gwell cydlynu rhwng sefydliadau addysg a phartneriaid dysgu ymarfer. **Pwysigrwydd cynyddol efelychu a lleoliadau amgen.** Er bod efelychu yn rhan gynyddol o ddysgu ymarfer, mae'r adroddiad yn nodi tystiolaeth gyfyngedig ar ei effaith, ei gost-effeithiolrwydd a sut y

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		dylid ei integreiddio; mae'n awgrymu mwy o ymchwil a chanllawiau cliriach ynghylch pryd y gall efelychu ddisodli neu ategu lleoliadau clinigol. **Ehangu lleoliadau yn y gymuned.** Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod llawer o fyfyrwyr yn dal i gael lleoliadau mewn ysbytai i raddau helaeth; mae'n galw am fwy o gysylltiad â lleoliadau cymunedol, gofal sylfaenol a lleoliadau nad ydynt yn rhai aciwt i adlewyrchu trawsnewid gwasanaethau a modelau gofal yn y dyfodol. **Tegwch, amrywiaeth a mynediad.** Nododd yr adolygiad y gallai amrywiad mewn profiadau ar leoliad gael effaith anghymesur ar fyfyrwyr o gefndiroedd a dangynrychiolir neu'r rheini mewn sefydliadau llai/pell; mae'n argymell gwell cefnogaeth a monitro cydraddoldeb mewn cyfleoedd dysgu ymarfer. **Cysylltu profiad myfyrwyr â pharodrwydd y gweithlu.** Y goblygiad sylfaenol yw, os yw dysgu ymarfer yn anghyson, yna gall graddedigion newydd fod yn llai "parod am waith" ar gyfer realiti lleoliadau gofal, yn enwedig wrth i fodelau newid (cymunedol, atal, digidol). Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â strategaeth y gweithlu a chomisiynu addysg. **Llywodraethu ac atebolrwydd.** Bydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn defnyddio'r canfyddiadau hyn "ochr yn ochr â gwaith arall" (gwerthuso dysgu ymarfer efelychu, sicrhau ansawdd rhaglenni addysg) i lywio ei argymhellion i'w Gyngor ddechrau 2025.
B2	NHS England » The Medical Training Review: Phase 1 diagnostic report Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2025 Cyrchwyd ym mis Rhagfyr 2025	Yr adolygiad cynhwysfawr cyntaf o hyfforddiant meddygol (ôl-raddedig) yn Lloegr ers dros 15 mlynedd. Mae'n asesu a yw addasiadau graddol yn ddigonol neu a oes angen diwygio systemig, yn sgil y newid yn anghenion iechyd y boblogaeth, demograffeg y gweithlu, arferion meddygol sy'n esblygu, a'r newid mewn disgwyliadau gyrfa. Mae'r Adroddiad yn dadansoddi cryfderau a gwendidau'r system bresennol ac yn datblygu **11 o argymhellion**, wedi'u hangori o amgylch **pedair blaenoriaeth allweddol**. Nodwyd **pedair blaenoriaeth allweddol**: 1. **Rhaid i hyfforddiant fod yn fwy hyblyg.**

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		2. **Adeiladu ar ragoriaeth y tu hwnt i lwybrau hyfforddi ffurfiol, gan gynnwys Arbenigwyr Cyswllt a Meddygon Arbenigol (SAS) a meddygon a gyflogir yn lleol - gan gydnabod eu rôl gynyddol.** 3. **Mynd i'r afael ar frys â thagfeydd hyfforddiant niweidiol** sy'n rhwystro cynnydd, cydgyfeirio i anghenion gwasanaeth, neu sy'n llesteirio'r gallu i gadw staff a morâl staff. 4. **Ailadeiladu strwythurau tîm cynhwysol a chefnogol** fel bod meddygon ar bob cam o'u gyrfa'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, gan fynd i'r afael â llesiant, goruchwyliaeth, sefydlogrwydd gyrfa a thegwch. Yn fwy cyffredinol, mae'r adroddiad yn nodi: • **Cam-aliniad** rhwng y model presennol o hyfforddiant ôl-raddedig a'r galw sy'n esblygu, anghenion y boblogaeth, baich clefydau, ac mae demograffeg y gweithlu wedi newid yn sydyn, ond nid yw'r strwythur hyfforddi wedi cadw i fyny â hynny. • Mwy o **gystadleuaeth a thagfeydd**: nid yw llawer o feddygon sydd newydd gymhwyso (sylfaen / dechrau eu gyrfa) yn dod o hyd i swyddi hyfforddi ar unwaith, gan arwain at ddibyniaeth ar rolau gwasanaeth, swyddi locwm neu swyddi a gyflogir yn lleol; mae hyn yn tanseilio dilyniant gyrfa rhagweladwy a chynllunio'r gweithlu. • Amrywioldeb o ran **ansawdd hyfforddiant a goruchwyliaeth**, yn enwedig y tu allan i raglenni ffurfiol, gan godi pryderon ynghylch cysondeb, tegwch a chefnogaeth ar gyfer hyfforddiant. • Angen gwerthuso a galluogi **gyrfaoedd portffolio, patrymau gweithio hyblyg, a diffiniadau ehangach o "hyfforddiant" o'i gymharu â "gwasanaeth"** i adlewyrchu dyheadau gyrfa amrywiol, demograffeg newidiol a rôl ehangach meddygon anhraddodiadol (llwybr gyrfa Arbenigwyr Cyswllt a Meddygon Arbenigol, meddygon a gyflogir yn lleol, nad ydynt yn ymgynghorol). • Galwad am **seilwaith cadarn i addysgwyr a chyllid/cymorth tryloyw** i addysgwyr clinigol, hyfforddwyr a goruchwylwyr, gan gydnabod bod hyfforddiant effeithiol yn gofyn am amser a buddsoddiad wedi'u neilltuo, nid ewyllys da yn unig. • Pwyslais ar **degwch a dosbarthiad daearyddol,** dylai diwygiadau ystyried angen cymdeithasol ar draws rhanbarthau (gan gynnwys rhai gwledig, a rhai nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol), nid dim ond dewis hyfforddeion neu gyfleustra metropolitan.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		• Cydnabod bod **sgiliau digidol, hyfforddiant cyffredinol, y newid tuag at ofal yn y gymuned, yn y boblogaeth ac sy'n canolbwyntio ar atal** yn gofyn am addasu cwricwla a modelau hyfforddi, nid dim ond hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar arbenigedd mewn ysbytai. Roedd yr Adolygiad (Cam 1) yn cynnwys rhaglen ymgysylltu helaeth: cafwyd dros 8,000 o ymatebion, gan gynnwys dros 6,000 gan feddygon preswyl, yn ogystal â mewnbwn gan fyfyrwyr meddygol, Arbenigwyr Cyswllt a Meddygon Arbenigol / meddygon a gyflogir yn lleol, addysgwyr, cyrff rheoleiddio, cleifion a gwasanaethau. *Nid* yw'r adroddiad ei hun yn rhagnodi glasbrint diwygio llawn, yn hytrach, mae'n nodi canfyddiadau, egwyddorion ac argymhellion diagnostig. Yn y cam nesaf bydd cydweithio rhwng colegau brenhinol, deoniaid ôl-raddedig, rheoleiddwyr, y llywodraeth a rhanddeiliaid eraill i gynllunio pecyn diwygio manwl. Mae'n nodi symudiad oddi wrth addasiadau cynyddrannol tameidiog ac yn arwydd o alwad am ddiwygio hyfforddiant meddygol **ar draws y system, yn seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'i arwain yn strategol**.
B2	https://www.gatsby.org.uk/app/uploads/sites/2/2025/11/towards-a-skills-first-scotland-final.pdf Towards a Skills-First Scotland: Pathways to Prosperity Sefydliad: Gatsby Foundation Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025	Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar sut gall yr Alban symud tuag at ddull gweithredu "sgiliau yn gyntaf" o ran addysg, cyflogaeth a datblygiad economaidd. Mae'n archwilio sut mae sgiliau'n cael eu datblygu, eu cydnabod a'u defnyddio ar draws y system, ac yn cynnig fframwaith mwy cydlynol i wella llwybrau i gyflogaeth fedrus a chefnogi ffyniant economaidd. Mae'r adroddiad yn dadlau bod system addysg a sgiliau bresennol yr Alban yn canolbwyntio gormod ar lwybrau academaidd traddodiadol ac nad yw'n cydnabod nac yn blaenoriaethu datblygu sgiliau'n ddigonol ar draws pob llwybr. Mae'n awgrymu y byddai newid tuag at ddull gweithredu "sgiliau yn gyntaf" yn sicrhau bod addysg a hyfforddiant yn alinio'n well ag anghenion y farchnad lafur ac yn gwella canlyniadau i unigolion a'r economi. Thema ganolog yw'r angen i roi sgiliau wrth wraidd sut mae llwybrau'n cael eu cynllunio a'u gwerthfawrogi. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod sgiliau'n cael eu datblygu drwy sawl llwybr, gan gynnwys addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau a dysgu yn y gweithle, ond nid yw'r

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		llwybrau hyn bob amser yn cael eu cydnabod yn gyfartal nac wedi'u cysylltu'n glir. Gall hyn greu natur dameidiog a chyfyngu ar gyfleoedd i gamu ymlaen. Mae'r adroddiad yn nodi problemau o ran sut mae cymwysterau a llwybrau'n cael eu strwythuro, gan nodi y gall fod yn anodd i ddysgwyr a chyflogwyr lywio drwy'r system. Mae'n tynnu sylw at ddiffyg eglurder ynghylch llwybrau cynnydd a'r gallu i drosglwyddo dysgu rhwng gwahanol rannau o'r system. Gall y cymhlethdod hwn arwain at aneffeithlonrwydd a diffyg defnydd o dalent. Mae ymgysylltiad cyflogwyr yn ffocws allweddol. Mae'r adroddiad yn nodi, er bod cyflogwyr yn hanfodol o ran diffinio anghenion sgiliau, bod eu rhan yn y gwaith o gynllunio a darparu addysg a hyfforddiant yn anghyson. Mae'n dadlau bod angen ymgysylltiad cryfach a mwy systematig i sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu gofynion y gweithlu nawr ac yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hefyd yn trafod pwysigrwydd addysg dechnegol a galwedigaethol o ansawdd uchel. Mae'n tynnu sylw at y ffaith nad yw'r llwybrau hyn yn aml yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol o'u cymharu â llwybrau academaidd, er gwaethaf eu pwysigrwydd o ran diwallu anghenion sgiliau. Cyflwynir gwella statws ac ansawdd addysg alwedigaethol fel elfen bwysig o system sgiliau yn gyntaf. Mae hyblygrwydd o ran dysgu yn thema allweddol arall. Mae'r adroddiad yn pwysleisio'r angen am gyfleoedd dysgu mwy hyblyg, modiwlaidd a gydol oes sy'n caniatáu i unigolion ddatblygu sgiliau drwy gydol eu gyrfaoedd. Mae'n nodi nad yw llwybrau addysg llinol traddodiadol yn addas iawn ar gyfer newid yn amodau'r farchnad lafur. Mae data a gwybodaeth yn cael eu nodi fel meysydd i'w gwella. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr angen am well gwybodaeth am y farchnad lafur, gwell data ar y galw a'r cyflenwad sgiliau, a gwybodaeth gliriach i ddysgwyr a chyflogwyr. Byddai hyn yn cefnogi gwell penderfyniadau a chynllunio systemau. Archwilir llywodraethu a chydlynu systemau hefyd. Mae'r adroddiad yn nodi bod cyfrifoldebau dros bolisi sgiliau a chyflawni wedi'u gwasgaru ar draws nifer o sefydliadau, sy'n gallu arwain at natur dameidiog a diffyg cydlyniad. Mae'n galw am arweinyddiaeth gliriach a chyd-drefnu cryfach ar draws y system.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Mae'r adroddiad yn cynnwys enghreifftiau a chymariaethau â gwledydd eraill i ddangos gwahanol ddulliau o ymdrin â systemau sgiliau ac i dynnu sylw at wersi posibl ar gyfer yr Alban. Yn gyffredinol, mae'r adroddiad yn cyflwyno gweledigaeth o system sgiliau fwy cydlynol, hyblyg sy'n seiliedig ar gyflogwyr lle mae sgiliau'n cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi ar draws pob llwybr. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd cysoni systemau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i gefnogi cynnydd unigol a datblygiad economaidd.
B2	**Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yn ymgynghori ar wella dysgu ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth** **Cyhoeddwr:** Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) **Dyddiad:** Mis Ebrill 2026 Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yn ymgynghori ar wella dysgu ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth, yn cyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau arfaethedig i ddull y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o ddysgu ymarfer o fewn addysg nyrsio a bydwreigiaeth. Mae'r ymgynghoriad yn dilyn adolygiad annibynnol o brofiadau dysgu ymarfer ac yn ceisio barn ar sut y gellid cryfhau safonau a chanllawiau i wella cysondeb, ansawdd a chymorth i ddysgwyr. **Dolen: <u>Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yn ymgynghori ar wella dysgu ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth</u>**	Cefndir yr ymgynghoriad • Lansiwyd yr ymgynghoriad yn dilyn pryderon a nodwyd drwy waith ymchwil ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch amrywioldeb profiadau dysgu ymarferol. • Mae'n adeiladu ar ganfyddiadau o adolygiad annibynnol a edrychodd ar brofiadau myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth yn ystod dysgu ymarferol. • Mae'r NMC yn cydnabod bod dysgu ymarferol yn elfen hanfodol o addysg broffesiynol ac yn chwarae rhan arwyddocaol wrth baratoi myfyrwyr ar gyfer cofrestru. Diben y newidiadau arfaethedig • Mae'r ymgynghoriad yn ceisio adborth ar fesurau sydd â'r bwriad o wella ansawdd, cysondeb ac effeithiolrwydd dysgu ymarferol. • Ei nod yw sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cynorthwyo mewn amgylcheddau sy'n hwyluso dysgu, datblygiad proffesiynol ac ymarfer diogel. • Mae'r cynigion wedi'u cynllunio i gryfhau safonau presennol yn hytrach na disodli'r fframwaith cyffredinol ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth. Profiad myfyrwyr mewn dysgu ymarferol • Mae'r cyhoeddiad yn tynnu sylw at dystiolaeth bod profiadau myfyrwyr yn amrywio'n sylweddol ar draws amgylcheddau dysgu. • Mae'r meysydd a nodwyd drwy waith adolygu blaenorol yn cynnwys:

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		○ Mynediad at gymorth a goruchwyliaeth ○ Ansawdd cyfleoedd dysgu ○ Cynhwysiant a pherthyn o fewn timau ○ Amlygiad i ymddygiad amhriodol a heriau diwylliant y gweithle • Mae'r ymgynghoriad yn cydnabod pwysigrwydd creu amgylcheddau dysgu cadarnhaol a chynorthwyol i bob myfyriwr. Diwylliant dysgu ymarfer • Ffocws allweddol yw diwylliant amgylcheddau dysgu ymarfer. • Mae'r NMC yn nodi bod profiadau dysgu yn cael eu llunio nid yn unig gan strwythurau addysgol ond hefyd gan ymddygiadau yn y gweithle, perthnasoedd a diwylliant sefydliadol. • Mae'r ymgynghoriad yn archwilio sut y gall safonau a disgwyliadau gynorthwyo diwylliannau dysgu cadarnhaol yn well. Goruchwyliaeth a chymorth • Mae'r cynigion yn ystyried rôl goruchwylwyr ymarfer, aseswyr ac addysgwyr wrth gynorthwyo myfyrwyr. • Mae'r ymgynghoriad yn cydnabod pwysigrwydd: ○ Goruchwyliaeth effeithiol ○ Cyfrifoldebau clir ○ Strwythurau cymorth priodol • Mae hefyd yn adlewyrchu pryderon ehangach ynghylch pwysau ar y gweithlu sy'n effeithio ar allu staff i ymgymryd â rolau addysgol. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant • Mae'r ymgynghoriad yn pwysleisio y dylid sicrhau bod amgylcheddau dysgu ymarfer yn gynhwysol ac yn deg.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		• Rhoddir sylw arbennig i brofiadau dysgwyr o gefndiroedd gwahanol a'r angen i fynd i'r afael â phrofiadau a chanlyniadau gwahanol. • Mae'r NMC yn tynnu sylw at bwysigrwydd meithrin amgylcheddau lle mae pob dysgwr yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, eu cynorthwyo a'u bod yn gallu llwyddo. Sicrwydd ansawdd a chysondeb • Mae'r NMC yn ceisio barn ar sut y gellir cyflawni mwy o gysondeb mewn profiadau dysgu ymarferol ar draws lleoliadau. • Mae'r ymgynghoriad yn archwilio a allai fod angen canllawiau, disgwyliadau neu fecanweithiau ansawdd ychwanegol. • Mae'n cydnabod bod amgylcheddau dysgu yn amrywio'n sylweddol a gall cynnal ansawdd cyson fod yn heriol. Ymgysylltu â rhanddeiliaid • Mae'r ymgynghoriad yn gwahodd ymatebion gan: ○ Fyfyrwyr ○ Addysgwyr ○ Goruchwylwyr ymarfer ac aseswyr ○ Darparwyr addysg ○ Cyflogwyr ○ Cyrff proffesiynol • Mae'r NMC yn gosod yr ymgynghoriad fel cyfle i gasglu ystod eang o safbwyntiau cyn gweithredu unrhyw newidiadau. Perthynas â safonau presennol • Bwriad y newidiadau arfaethedig yw ategu safonau addysg a hyfforddiant presennol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		• Mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio'n benodol ar gryfhau'r elfen dysgu ymarferol o addysg broffesiynol. • Byddai unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad yn rhan o'r fframwaith rheoleiddio ehangach sy'n llywodraethu addysg nyrsio a bydwreigiaeth. Mae'r ymgynghoriad yn adlewyrchu barn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) bod profiadau dysgu ymarferol yn ganolog i ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth. Mae'n cydnabod tystiolaeth o amrywiad ym mhrofiadau dysgwyr ac yn ceisio nodi ffyrdd o wella cymorth, cynhwysiant, goruchwyliaeth a chysondeb. Y nod cyffredinol yw sicrhau bod amgylcheddau dysgu ymarferol yn darparu profiadau addysgol o ansawdd uchel sy'n cynorthwyo myfyrwyr drwy gydol eu paratoad proffesiynol.
B3	Independent report on the regulation of advanced practice in nursing and midwifery | Nuffield Trust Cyhoeddwyd ym mis Mai 2023 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	Dan arweiniad Ymddiriedolaeth Nuffield, comisiynwyd yr adroddiad annibynnol hwn gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) i adolygu a ddylid rheoleiddio ymarfer uwch mewn nyrsio a bydwreigiaeth ledled y DU, a sut dylid gwneud hynny. Mae'n cyfuno llenyddiaeth, dadansoddiadau o hysbysebion swyddi a mewnbwn gan randdeiliaid yn y DU (gan gynnwys Cymru) i nodi risgiau ac opsiynau rheoleiddio. **Twf ymarfer uwch; bwlch rheoleiddio.** Mae rolau uwch yn ehangu; nid oes **unrhyw reoleiddio ychwanegol penodol** ar ymarfer uwch yn y DU - ar hyn o bryd, cyflogwyr sy'n bennaf gyfrifol am sicrwydd ac achrediad/cymhwyster cwrs anorfodol. **Amrywiad mewn addysg a mynediad.** Amrywiad pendant mewn cyrsiau Ymarferwyr Cynorthwyol lefel meistr (cynnwys clinigol, profiad mynediad) a sicrwydd allanol cyfyngedig; mae **llwybrau cydnabod portffolio** yn bodoli (yn Lloegr ac mae **llwybr tebyg yng Nghymru**). **Meysydd risg.** Risgiau cudd o ran tasgau diagnosis/ymyrraeth; **cyfyngedig yw dealltwriaeth y cyhoedd**; gall risgiau fod yn uwch mewn rhai lleoliadau nad ydynt yn lleoliadau'r GIG; nid yw cwmpas yr ymarfer bob amser yn glir.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Opsiynau ar gyfer rheoleiddio. Tri phrif lwybr: **(1)** cadw'r fframwaith cyfredol am y tro; **(2) anodi cofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth** ar gyfer cymwysterau/cyfwerthedd Ymarferwyr Cynorthwyol (darparol/gwirfoddol/gorfodol); **(3)** creu **cofrestr ail haen** yn seiliedig ar gymwyseddau a aseswyd. Mae pob un yn cyfaddawdu o ran cost, baich a chyflymder. **Egwyddorion a chysondeb.** Dylai unrhyw newid fodloni **egwyddorion y PSA** (cymesur, cyson, wedi'i dargedu, tryloyw, atebol, hyblyg); mae gormod o **amrywiaethau ar draws gwledydd y DU** yn peryglu symudedd y gweithlu.
B3	Practice learning in nursing and midwifery education Ymddiriedolaeth Nuffield ar ran y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	Mae'r adolygiad hwn yn edrych ar dystiolaeth a safbwyntiau rhanddeiliaid ar ddysgu ymarfer ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth cyn cofrestru, gan gwmpasu oriau a'r gofyniad genedigaethau, efelychu, lleoliadau, goruchwylio/asesu a thegwch, i lywio safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a chefnogi gwelliannau o ran ansawdd a chapasiti ledled y DU. Dan arweiniad Ymddiriedolaeth Nuffield, mewn partneriaeth â Sefydliad Florence Nightingale, comisiynwyd yr adolygiad cyflym annibynnol hwn gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). • **Oriau dysgu ymarfer (gan gynnwys y gofyniad geni) - mae'r dystiolaeth yn gyfyngedig; ansawdd yw'r peth pwysicaf.** Nid yw'r adolygiad wedi canfod *unrhyw dystiolaeth empirig bendant* o nifer "optimaidd" o oriau ymarfer wyneb yn wyneb ar gyfer hyfforddiant cyn cofrestru diogel ac effeithiol. Roedd rhanddeiliaid yn cytuno bod **ansawdd yr amgylchedd dysgu yn bwysicach na nifer yr oriau**. Mae safon "40 genedigaeth" Bydwreigiaeth yn gynyddol anodd ei chyflawni o ystyried patrymau gwasanaeth; defnyddir hyblygrwydd ond mae'n arwain at bryder a chanlyniadau anfwriadol (e.e. diwylliant rhestr dasgau). • **Efelychu - gwerthfawr ond wedi'i ganiatáu'n amrywiol ac yn defnyddio llawer o adnoddau.** Ar hyn o bryd, gall hyd at **600 awr o efelychu** gyfrif tuag at oriau ymarfer nyrsio (a gadwyd ar ôl y pandemig), a dim ond ar gyfer hyfedreddau anodd eu cyflawni y gall bydwreigiaeth gyfrif efelychu. Mae tystiolaeth yn cefnogi efelychiad fel pont at ymarfer a meithrin hyder, ond nid yw eto'n disodli oriau clinigol yn gyfan gwbl; mae ehangu wedi'i gyfyngu gan arbenigedd, amser a chyfarpar staff. Mae dulliau rhyngwladol yn amrywio'n fawr.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		• **Problemau o ran dehongli a gweithredu.** **Dryswch eang ynghylch beth yw 'cyfrifiadau'** (e.e. gosodiadau efelychu; egwyliau; negeseuon cymysg ers hyblygrwydd Covid); **statws ychwanegol** nad ydynt yn cael eu cadarnhau bob tro; anghysondeb o ran cymeradwyo hyfedredd. Mae'r anghysondebau hyn yn creu pryder ac yn tanseilio sicrwydd. • **Gosodiadau a modelau lleoliadau - ehangu y tu hwnt i ysbytai.** Mae lle i ehangu lleoliadau i leoliadau **cymunedol, gofal sylfaenol, annibynnol a thrydydd sector**, ond mae'r rhwystrau'n cynnwys **capasiti goruchwylio/asesu** a phryderon myfyrwyr ynghylch bodloni hyfedredd. Yn rhyngwladol, mae modelau'n cynnwys **modelau hyb a lloeren** a modelau sy'n seiliedig ar hyfforddi; nid oes un model yn "optimaidd". Mae llwyfannu lleoliadau ar draws y rhaglen yn bwysig. • **Cyllid a chymhellion - wedi'u camalinio ac yn annigonol.** Mae costau gwirioneddol i gynnal lleoliadau (amser ar gyfer goruchwylio, hyfforddi). Mae'r adroddiad yn nodi gwahaniaethau rhwng tariffau (e.e. **£32,552 fesul myfyriwr meddygol israddedig o'i gymharu â £5,343 ar gyfer myfyrwyr nyrsio/anfeddygol** yn 2023/24 yn Lloegr). **Mae Cymru'n treialu cyllid ar gyfer lleoliadau meddygon teulu**; mae hyn yn addawol ond mae angen graddfa a chysondeb. • **Seilwaith goruchwyliol - mae gan Gymru gryfderau i adeiladu arnynt.** **Mae AaGIC yn ariannu tua 60 o Hwyluswyr Addysg Ymarfer (PEF) Cyfwerth ag Amser Cyflawn** sy'n darparu cymorth a sicrwydd ansawdd ar gyfer dysgu ar leoliad - ased nodedig y gellid ei ddyfnhau a'i safoni. • **Tegwch a chynhwysiant - wedi'u galw allan yn benodol.** Mae'r adolygiad yn gosod **dysgu ymarfer teg a chynhwysol** fel rhywbeth sy'n greiddiol i baratoi diogel o ansawdd uchel (e.e. mynd i'r afael â phrofiadau amrywiol, sicrhau amgylcheddau diogel, parchus a chymorth cyson). Mae'r adolygiad hefyd yn nodi **"meysydd gweithredu penodol"** ar gyfer rheoleiddwyr, Sefydliadau Addysg Cymeradwy a phartneriaid ymarfer (eglurder ar reolau, Sicrwydd Ansawdd cymesur, gwell data, lleoliadau estynedig, capasiti goruchwylio cryfach, a chymorth i fyfyrwyr).
B3	Waste not, want not: Strategies to improve the supply of clinical staff to the NHS | Nuffield Trust	Arweiniwyd yr adroddiad ymchwil hwn gan Ymddiriedolaeth Nuffield ac mae'n archwilio piblinell hyfforddiant clinigol domestig "ddiffygiol" y DU ac yn nodi cynllun 10 pwynt i wella'r cyflenwad o staff

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
	Cyhoeddwyd ym mis Medi 2023 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	clinigol yn y GIG a'u cadw ar ddechrau eu gyrfa. Fe'i cyhoeddwyd i lywio polisi yng nghanol dibyniaeth gynyddol ar recriwtio rhyngwladol a phryderon am werth am arian o wariant addysgu. **Colledion ar draws y llwybr:** Nifer nodedig o fyfyrwyr yn gadael cyn gorffen cwrs (e.e. tua 13% mewn carfannau nyrsio/radiograffeg 2014-20) a rhai syn gadael ar ddechrau eu gyrfa (≈17–21% o nifer o fathau o Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a nyrsys yn gadael lleoliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol y GIG o fewn dwy flynedd). Dim ond **52% o'r rhai newydd sy'n ymuno â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth** a **39% o'r rhai sy'n ymuno â'r GMC** oedd wedi'u hyfforddi yn y DU yn ôl y data diweddaraf. **Sbardunau a risgiau:** Mae pwysau ariannol, profiad ar leoliadau a diffyg cefnogaeth yn cyfrannu at gyfraddau gadael; gall newidiadau polisi (llwybrau cyflymach, prentisiaethau) helpu ond gallent arwain at risgiau os byddant yn cael eu gweithredu'n wael. **Buddsoddiad a gwerth am arian:** Mae tua **£5bn** y flwyddyn yn cael ei wario ar addysg/hyfforddiant clinigol yn Lloegr; anogir sicrwydd cryfach ar ganlyniadau ac ansawdd lleoliadau. **Cymhellion a llwybrau:** Galwadau i: adolygu **prentisiaethau lefel gradd**; ystyried **maddeuant benthyciad myfyrwyr** (nyrsio, bydwreigiaeth, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd; opsiynau ar gyfer meddygon/deintyddion); gwerthuso modelau fel **preseptoriaeth Wyddelig/Awstralia** a **chysylltiadau â bwrsariaeth Cymru.** **Cyflog a gyrfaoedd:** Dadansoddi **pa mor gystadleuol yw cyflog dechrau/dechrau gyrfa**; mynd i'r afael ag **anghydraddoldebau dilyniant gyrfa** rhwng proffesiynau; cynllunio ar gyfer **llwybrau gyrfa mwy amrywiol** (e.e. rolau arbenigwyr cyswllt a meddygon arbenigol/cyflogaeth leol, portffolio). **Cyflenwad a data meddygon teulu:** Ailfeddwl polisïau piblinellau meddygon teulu ar frys; gwella **data cyfraddau gadael/cymryd rhan/cadw** a thracio cyrchfannau ar ddechrau gyrfa.
B3	Healthcare Horizons KPMG	Mae *Healthcare Horizons* (Ionawr 2023), a gynhyrchwyd gan **KPMG International**, yn adroddiad arwain agweddau sy'n disgrifio tri dyfodol posibl ar gyfer systemau iechyd ac yn llwybr at fodel **cynhwysol** sy'n cyfuno technoleg, cymunedau wedi'u grymuso a gweithlu wedi'i alluogi. Fe'i

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
	Cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	cyhoeddwyd i helpu arweinwyr i gynllunio y tu hwnt i ymateb i argyfwng ac ailgynllunio gofal dros y 5-10 mlynedd nesaf. **Tri dyfodol; anelu at fod yn "Gynhwysol".** Mae KPMG yn nodi sefyllfaoedd **o Dlodi, Dieithriad** a rhai **Cynhwysol**. Mae systemau cynhwysol yn defnyddio technoleg ac **asedau cymunedol** i alluogi'r gweithlu; mae gorddibyniaeth ar ysbytai, neu ar "gwmnïau technoleg mawr", yn creu risg ac annhegwch. Dylid cynllunio addysg i *greu'r* dyfodol cynhwysol (nid yn ddiofyn i'r ddau arall). **Pum categori o dueddiadau i'w cynnwys mewn cwricwla.** **Technoleg a data:** Data iechyd datganoledig (storfeydd data personol ar-lein), mae **deallusrwydd artiffisial** a **thechnoleg wybyddol** sy'n rhyddhau staff o dasgau arferol; mae **gefeilliaid digidol** yn cefnogi rhagfynegi a chynllunio. **Prynwriaeth:** Profiadau di-dor, personol, omnisianel a mynediad ar lwyfannau. **Y gweithlu:** Gweithio gyda chymysgedd newydd o sgiliau o'r radd flaenaf; rolau sy'n defnyddio technoleg. **Cymunedau:** Cleifion a chymunedau fel **ceidwaid gweithredol**, yn cyd-gynllunio gofal. **Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant (ESG)** Systemau wedi'u barnu ar eu heffaith gymdeithasol ac amgylcheddol yn ogystal â chanlyniadau. **Stiwardiaeth data a llythrennedd.** Rhagfynegi: mae data iechyd yn cael eu **datganoli a'u chwennych**; mae unigolion a chymunedau'n cael rheolaeth. I wneud hyn, mae angen sgiliau gweithlu mewn **moeseg data, rhyngweithredu a diogelwch**. **Symud lleoliadau gofal.** Disgwyl **llai o wariant ar ystadau** a **symud i ofal cymunedol a rhithwir**, gyda modelau cymdogaethau integredig a wardiau rhithwir; rhaid i leoliadau a chymwyseddau ddilyn. **Rolau ecosystemau a micro-gymwysterau.** Mae systemau'r dyfodol yn cynnwys **canolfannau data iechyd**, canolfannau arbenigol byd-eang, **gwasanaethau cymunedol** a **chyfranogwyr â micro-gymwysterau** (gan gynnwys gofalwyr a gweithwyr nad ydynt wedi cofrestru) sydd wedi'u hintegreiddio â thimau sylfaenol/cymunedol. **Llwybrau gofal yn y dyfodol.** Mae llwybrau cynhwysol yn troi'n **Darogan, Personol, Rhagweithiol, Ataliol**; mae enghreifftiau'n dangos hyfforddwyr deallusrwydd artiffisial, monitro o bell, adsefydlu

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		realiti rhithwir, a chymorth gan gymheiriaid yn y gymuned, gan awgrymu cymwyseddau newydd ar draws y biblinell. **Agenda 5-10 mlynedd.** Mae'r agenda trawsnewid yn cynnwys adeiladu llwyfannau data iechyd y boblogaeth, ail-ddylunio rolau, ac ail-lunio cymhellion tuag at atal a gwerth. Rhaid i addysg a rheoleiddio symud law yn llaw.
B3	In the balance: Lessons for changing the mix of professions in NHS services | Nuffield Trust Cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	Cafodd ei gyhoeddi gan Ymddiriedolaeth Nuffield ym mis Ionawr 2025 a'i gomisiynu gan **Gyflogwyr y GIG** i ddistyllu gwersi o dystiolaeth y DU a thystiolaeth ryngwladol ar gyflwyno ac integreiddio **rolau newydd a rhai sy'n datblygu** (e.e. Cymdeithion Meddygol, Cymdeithion Nyrsio, Uwch-ymarferwyr Clinigol, rolau Cynllun Ad-dalu Rolau Ychwanegol) a newid cymysgedd sgiliau yn ddiogel ac yn gynhyrchiol. **Nid yw newid cymysgedd sgiliau'n arwain yn awtomatig at ofal gwell na chost is.** Gall shifftiau sydd wedi'u cynllunio/gweithredu'n wael **gynyddu'r galw, ychwanegu cost, bygwth safonau a gwneud gofal yn dameidiog**; mae **brysbennu** cadarn, cynllunio llwybrau a dyrannu tasgau'n glir yn hanfodol. **Cynllunio rolau o'r egwyddorion cyntaf.** Adeiladu rolau o amgylch **dadansoddi gwaith, sgiliau staff ac anghenion cleifion**; cynllunio ar gyfer **capasiti ailddylunio gwasanaethau** (datblygu sefydliadol, arweinyddiaeth, ystadau/gofod) i wneud i dimau amlbroffesiwn weithio'n ymarferol. **Mae capasiti addysg a hyfforddiant yn gyfyngiad mawr.** Mae ehangu yn gofyn am **safonau/cymwyseddau y cytunwyd arnynt**, twf mewn **derbyniadau** (nyrsio, meddygol, Uwch-ymarferwyr Clinigol/Cymdeithion Nyrsio yn benodol), a realaeth ynghylch **capasiti darparwyr a lleoliadau** a chystadleuaeth am gyfleoedd dysgu ar draws proffesiynau. **Paratoi ar gyfer bylchau mewn ymarfer.** Mae tystiolaeth yn dangos nad oes gan rai dechreuwyr newydd (e.e. **fferyllwyr clinigol, cymdeithion meddygol**) ddigon o **brofiad o ddelio â chleifion**, gan greu diffygion cymorth/hyfforddiant; gall Uwch-ymarferwyr Clinigol dan hyfforddiant ei chael hi'n anodd cwblhau cymwyseddau pan fydd hyfforddiant yn cael ei ychwanegu at rolau llawn mewn gwasanaethau sydd dan bwysau.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Mae goruchwyliaeth yn hollbwysig, ac yn anghyson. Mae **goruchwyliaeth glinigol barhaus, mentora a chymorth gan gymheiriaid** yn hanfodol, ond mae mynediad yn anghyson (e.e., **nid oedd chwarter yr Uwch-ymarferwyr Clinigol yn cael goruchwyliaeth glinigol** yn ôl un astudiaeth); roedd rhai practisau'n cyflogi Cymdeithion Meddygol **heb oruchwyliaeth angenrheidiol**. **Mae'r cynllun ariannu'n siapio ymddygiad.** Gall cynlluniau fel ad-dalu cyflog ARRS ystumio penderfyniadau cymysgedd sgiliau lleol (e.e. cost uniongyrchol o £0 ar gyfer rolau Cynllun Ad-dalu Rolau Ychwanegol/cofrestryddion meddygon teulu o'i gymharu ag oddeutu meddyg teulu cyflogedig sydd â chyflog o £106k, nyrs practis sydd â chyflog o £49k), felly rhaid ystyried **costau cymharol** ochr yn ochr ag angen ac ansawdd. **Rheoleiddio, cwmpas a diogelwch.** Egluro **cwmpas ymarfer, indemniad** a **llywodraethiant** cyn graddio rolau; mae'r gwersi yn y DU yn adleisio gwaith rhyngwladol (e.e. adolygiad cwmpas ymarfer Awstralia). **Mae ymwybyddiaeth a chydsyniad y cyhoedd yn isel.** Mae dealltwriaeth gyfyngedig o rolau newydd yn peryglu **hyder a phrofiad**; mae angen **cyfathrebu** rhagweithiol a **ffiniau tryloyw**. **Derbyn materion proffesiynau eraill.** Mae **agweddau meddygon a staff eraill** yn rhwystr mawr (e.e. roedd **76%** o'r ymatebwyr mewn rolau sy'n datblygu yn cyfeirio at farn meddygon ar gymdeithion meddygol); mae gwneud rolau'n aneglur yn arwain at wrthdaro (e.e. Cymdeithion Nyrsio o'i gymharu â Nyrsys Cofrestredig). Mae **amlygiad ac eglurder** yn gwella derbyniad. **Cynnydd, lles a chadw staff.** Mae staff mewn rolau sy'n datblygu yn gadael pan **nad ydynt yn teimlo eu bod yn rhan o dîm** neu **pan fydd eu rôl yn cael ei chamddefnyddio**; mae **dilyniant, preseptoriaeth a pherthyn** strwythuredig yn rhan o integreiddio diogel. **Gwerthuso newid.** Mabwysiadu **dull systematig** gyda **gwerthusiad amser real** er mwyn osgoi ailadrodd methiannau'r gorffennol; dysgu o fentrau blaenorol cyn graddio.
B3	How will your decisions today shape the future for generations to come - MCA	Mae'r erthygl hon, a gyhoeddwyd gan EY, yn rhoi cipolwg ffurf hir gan *Elisabeth Bolshaw* ar sut mae dewisiadau arweinwyr heddiw'n siapio gweithlu aml-genhedlaeth a'r gymdeithas ehangach.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
	Ernst & Young Cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	**Gweithlu pum cenhedlaeth yw'r "normal newydd".** Am y tro cyntaf, mae pum cenhedlaeth yn gweithio gyda'i gilydd; gall cyflogwyr sy'n **ailfeddwl hen strwythurau** ddatgloi twf drwy gydweithio a dysgu ar draws cenedlaethau. Bydd poblogaethau sy'n heneiddio a chyfraddau geni is **yn tynhau'r cyflenwad talent hyd at 2050**, gan wneud cyfraniad pob cenhedlaeth yn hanfodol. Dylai addysg ddylunio **dysgu aml-oedran** a throsglwyddo gwybodaeth yn ddiofyn. **Realiti Cenhedlaeth Z: cyllid, pwrpas, cludadwyedd.** Mae Cenhedlaeth Z yn dangos **lefel isel o sicrwydd ariannol**, **gogwydd pwrpas** cryf, a chynnydd mewn **gyrfaoedd portffolio/swyddi ychwanegol**; rhaid i raglenni fod yn hyblyg (llwybrau y gellir eu pentyrru, lleoliadau â thâl, cydnabod dysgu blaenorol) a chysylltu dysgu â **chenhadaeth/effaith** i hybu ymgysylltiad a chadw staff. **Mae ymddiriedaeth a thryloywder yn bwysig.** Mae ymddiriedaeth mewn sefydliadau "mawr" yn **wan** ar gyfer Cenhedlaeth Z; mae **tryloywder** o ran defnyddio data yn ennyn ymddiriedaeth (e.e. bydd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn rhannu data iechyd yn electronig **os** oes mesurau diogelu clir). Dylai addysgwyr gynnwys **stiwardiaeth data, cydsyniad a diogelwch clinigol** ym mhob llwybr. **Optimistiaeth deallusrwydd artiffisial a'r bwlch sgiliau.** Mae Cenhedlaeth Z yn disgwyl **defnyddio mwy o ddeallusrwydd artiffisial**, gan werthfawrogi arbed amser a lleihau gwallau, ond mae sgiliau'n cael eu **goramcangyfrif** ac yn anghyson. Rhaid i gwricwla wella **gallu deallusrwydd artiffisial** (annog, goruchwylio, rhagfarn, llywodraethiant, diogelwch cleifion) ochr yn ochr â sgiliau dynol (crebwyll, empathi, gwaith tîm). **Gwaith digidol yn gyntaf a disgwyliadau o ran gyrfa.** Mae carfannau iau yn disgwyl **gwaith creadigol wedi'i alluogi'n ddigidol** gyda dilyniant cyflym ac amlygiad byd-eang; **darpariaeth gyfunol** o anghenion dysgu, **micro-gymwysterau** a phrosiectau arbrofol sy'n cyd-fynd â phroblemau go iawn y GIG. **Nid yw cynaliadwyedd a thegwch cymdeithasol yn agored i drafodaeth.** Rhaid i benderfyniadau a wneir heddiw fynd i'r afael â **datgarboneiddio a thegwch**; mae dysgwyr yn disgwyl i sefydliadau (ac addysg) weithredu ar y ddau, felly dylid gwreiddio cynaliadwyedd, cynhwysiant ac effaith gymunedol fel cymwyseddau a themâu asesu.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
B3	Health Equity in England The Marmot Review 10 Years On full report.pdf Cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	**Comisiynwyd gan y Sefydliad Iechyd** i asesu beth sydd wedi newid ers Adolygiad Marmot 2010 ac i osod agenda i leihau anghydraddoldebau iechyd sydd wedi bod yn ehangu. **Atal dirywiad mewn disgwyliad oes a bylchau sy'n ehangu.** Ers 2011, bu **arafiad cyflym** mewn enillion disgwyliad oes; **gwelwyd gostyngiad o ran menywod yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig**. **Cynyddodd** y blynyddoedd yn byw mewn afiechyd, gyda graddiant amddifadedd serth. Goblygiadau: mae angen canlyniadau tegwch penodol ar bob rhaglen, nid dim ond ansawdd cyffredinol. **Ffactorau cymdeithasol sy'n effeithio ar gwrs bywyd (y 6 maes).** Mae'r adroddiad yn cadarnhau fframwaith 2010: **(1)** y dechrau gorau mewn bywyd; **(2)** galluoedd a rheolaeth; **(3)** cyflogaeth deg/gwaith da; **(4)** safon byw iach; **(5)** lleoedd iach, cynaliadwy; **(6)** atal. Mae hefyd yn pwysleisio **cyffredinoliaeth gymesur** (cynigion cyffredinol, wedi'u graddio yn ôl angen). Defnyddiwch y meysydd hyn i drefnu cwricwla a phrofiadau ar leoliadau. **Tlodi plant a'r blynyddoedd cynnar. Cododd tlodi plant yn ôl i lefelau cyn 2010**; ar ôl costau tai cyrhaeddodd **~30% (2017/18)** ac mae'n ffigur o dros **4 miliwn** o blant, gyda chyfraddau uwch ar gyfer rhieni sengl a theuluoedd mwy. Tyfodd gwariant y blynyddoedd cynnar ar gyfer oriau gofal plant ond **crebachodd cymorth i deuluoedd sy'n canolbwyntio ar degwch**. Dylai addysg wreiddio ymarfer sy'n ymwybodol o dlodi, sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar y teulu. **Cyd-destun y system addysg ers 2010.** Mae'r adolygiad yn cysylltu **toriadau mewn cyllid** a **bylchau cyrhaeddiad** parhaus ag effeithiau hirdymor ar degwch iechyd; mae **gweithlu'r blynyddoedd cynnar** yn wynebu heriau cyflog isel a recriwtio, sy'n effeithio ar ansawdd. Mae angen sgiliau ar glinigwyr y dyfodol i weithio gyda gwasanaethau addysg a gwasanaethau lleol ar barodrwydd ysgol, lleferydd, iaith a chyfathrebu, a chynhwysiant. **Llefydd sydd wedi cael eu gadael ar ôl ac anghydraddoldeb rhanbarthol.** Ehangodd y **rhaniad rhwng y Gogledd a'r De**; roedd ardaloedd cefnog yn gwneud yn dda lle bynnag yr oeddent, ond mae **canlyniadau ardaloedd difreintiedig yn amrywio'n fawr yn ôl y rhanbarth**. Rhaid i hyfforddiant baratoi staff ar gyfer **ymarfer sy'n seiliedig ar le**, gan ddod i gysylltiad ag amddifadedd uchel/lleoliadau gwledig a phartneriaethau cymunedol.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Gwaith, incwm a safon byw'n iach. Mae cynnydd mewn tlodi mewn gwaith, gwaith ansicr a dyled aelwydydd yn tanseilio iechyd; mae'r adolygiad yn galw am **isafswm incwm ar gyfer byw'n iach**, cyflogau gwell a **gwaith da**. Mae clinigwyr angen gallu **llywio lles cymdeithasol, MECC,** iechyd galwedigaethol ac **adsefydlu i weithio.** **Atal, data ac atebolrwydd.** Mae angen **data atal** cryfach a **data cydgysylltiedig** i dargedu angen a gwerthuso effaith; mae angen i systemau lleol allu rhedeg **gwelliannau sy'n sensitif i degwch** ac adrodd ar ganlyniadau'n dryloyw.
B3	Four-nations-report-2023-2024-V3.pdf Cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Skills for Health (rhan o'r The Workforce Development Trust), yn cyfuno **heriau a chyfleoedd presennol y gweithlu ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon**, gydag **astudiaethau achos** ac **arferion gorau y gellir gweithredu** arnynt i lywio gwell gwaith cynllunio a darparu. **Pwysau ar y gweithlu sy'n cydgyfarfod ar draws y DU.** Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at **brinder sgiliau, y newid yn y galw am wasanaethau a'r angen am ddylunio rolau arloesol** fel materion cyffredin ar draws y pedair gwlad, wedi'u hamlygu nid yn unig fel problemau, ond fel cyfleoedd i ail-gynllunio timau, llwybrau a goruchwyliaeth. **Cynllunio o'r dechrau i'r diwedd yn seiliedig ar anghenion.** Mae'n pwysleisio cysoni **maint, siâp a dosbarthiad** y gweithlu ag anghenion iechyd y boblogaeth, "y gymysgedd iawn o sgiliau, yn y lle iawn, am gost effeithiol" sy'n dod â chomisiynu addysg, lleoliadau a chapasiti addysgwyr i ganol y gwaith o gynllunio'r gweithlu. **Pedair astudiaeth achos o'r gwledydd datganoledig i ddysgu oddi wrthynt.** Mae'r enghreifftiau dan sylw yn cynnwys y canlynol: **Cynllunio'r gweithlu iechyd meddwl gydag AaGIC (Cymru); optimeiddio meddygon iau yn Ysbytai Athrofaol Sussex (Lloegr); GIG Glasgow Fwyaf a Clyde (Yr Alban); a meithrin gallu cynllunio'r gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon** - enghreifftiau ymarferol o sut mae cynllunio, capasiti hyfforddi a dylunio rolau yn cysylltu. **O gipolwg i weithredu: pecyn arferion gorau.** Mae'r deunydd ategol yn tynnu sylw at **arferion sydd wedi'u profi** a **chamau ymarferol** y gall sefydliadau eu cymryd nawr -awgrymiadau defnyddiol ar

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		gyfer cynllunio'r cwricwlwm (e.e. cynllunio senarios, ailgynllunio gwasanaethau a rolau, fframweithiau galluoedd) ac ar gyfer datblygu'r gweithlu o addysgwyr. **Data, modelu a thryloywder.** Mae tystiolaeth a gasglwyd ochr yn ochr â'r adroddiad yn pwysleisio'r angen am **fodelu cadarn, tybiaethau cliriach a chyfathrebu'n well am unrhyw ansicrwydd** wrth drosi amcanestyniadau cenedlaethol yn niferoedd mewn addysg leol, capasiti goruchwylio a chynlluniau lleoli. **Cysoni systemau cyfan (addysg iechyd a gofal cymdeithasol).** Mae'r lens pedair gwlad yn tanlinellu bod cynllunio effeithiol yn dibynnu ar **weithredu cydgysylltiedig** rhwng cyrff y GIG, partneriaid gofal cymdeithasol ac addysg, gydag astudiaethau achos lleol yn dangos sut mae hyn yn cefnogi **cadw staff, llesiant a chynnydd**.
B3	From zoomers to boomers, training workers on AI is a multigenerational challenge Cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	Mae'r erthygl hon, a gyhoeddwyd gan *People Management* (CIPD), yn edrych i weld pam mae **uwchsgilio deallusrwydd artiffisial yn her sy'n pontio'r cenedlaethau** a'r hyn y dylai Adnoddau Dynol/Dysgu a Datblygu ei wneud er mwyn i *bob* grŵp oedran allu mabwysiadu deallusrwydd artiffisial yn gynhyrchiol ac yn ddiogel. **Bwlch hyfforddi mawr, galw mawr.** Mae'r erthygl yn tynnu sylw at y ffaith mai **dim ond ~16% o weithwyr sy'n dweud eu bod wedi cael hyfforddiant deallusrwydd artiffisial**, ac mae llwyddiant yn dibynnu ar sicrhau bod *pob* cenhedlaeth yn integreiddio deallusrwydd artiffisial yn eu gwaith bob dydd. Mae tystiolaeth ehangach yn dangos bod gweithwyr eisiau **hyfforddiant ffurfiol**, mynediad at **gynlluniau peilot/blychau tywod**, a chymhellion i fabwysiadu deallusrwydd artiffisial. **Mae amrywiaeth rhwng y cenedlaethau o ran mynediad a chyfleoedd.** Mae carfanau hŷn yn nod eu bod yn cael **llai o gyfleoedd i ennill sgiliau deallusrwydd artiffisial** na charfanau iau, felly rhaid i'r dyluniad sicrhau **mynediad mwy cyfartal** yn hytrach na thybio bod y "rheini â sgiliau digidol" eisoes yn gymwys. Mae rhai astudiaethau hyd yn oed yn canfod bod **cenhedlaeth y mileniwm yn nodi mwy o arbenigedd ym maes deallusrwydd artiffisial na Chenhedlaeth Z**, gan danlinellu'r angen i **asesu sgiliau, nid stereoteipiau**. **Sut mae pobl wir yn dysgu am ddeallusrwydd artiffisial yn y gwaith.** Mae gweithwyr yn aml yn **hepgor modiwlau ffurfiol** ac yn dysgu drwy **arbrofi a dysgu oddi wrth gymheiriaid**, felly dylai

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		rhaglenni gyfuno **micro-ddysgu, ymarfer carfannau, mentora cyfoedion/gwrthdro**, a **thasgau yn y gwaith**. Gwneud lle ar gyfer **dysgu anffurfiol/cymdeithasol** fel dull dosbarth cyntaf. **Egwyddorion cynllunio cynhwysol.** Defnyddio **Cynllun Cyffredinol ar gyfer Dysgu** a sawl fformat (anghydamserol, byw, efelychu) fel y gall gwahanol oedrannau, rolau a lefelau hyder lwyddo; sicrhau hygyrchedd ac amrywio cyflymder. **Mae ymddiriedaeth, diogelwch a llywodraethu yn elfennau craidd.** Rhaid i'r hyfforddiant gynnwys **stiwardiaeth data, cydsyniad, diogelwch clinigol, tuedd ac esboniadwyedd**, sy'n cyd-fynd â **chanllawiau Llywodraeth y DU** (Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial; Llawlyfr Deallusrwydd Artiffisial HMG). Mae gwersi yn y sector cyhoeddus yn rhybuddio y gall **deallusrwydd artiffisial chwyddo arferion gwael o ran caniatáu data** heb lywodraethiant cryf - addysgu *defnydd diogel* gymaint â *defnydd clyfar*. **Cysylltu dysgu â gwaith a gwerth go iawn.** Darparu **offer cymeradwy mewn blychau tywod**, clymu amcanion dysgu â **thasgau/llif gwaith penodol**, a mesur **trosglwyddo i ymarfer** (ansawdd, diogelwch, cynhyrchiant). Mae cyflogwyr yn cynllunio **awtomeiddio ac ehangu ac uwchsgilio** gyda'i gilydd; dylai cwricwla adlewyrchu'r gymysgedd honno.
B3	Five Factors Impacting the Public Sector Skills Landscape Cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	Adroddiad byr sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan *Training Zone* mewn partneriaeth â'r **Brifysgol Agored**, sy'n nodi **pum ffactor sy'n siapio sgiliau'r sector cyhoeddus** a chamau gweithredu ymarferol ar gyfer dysgu a datblygu ac arweinwyr y gweithlu; mae'n adeiladu ar ganfyddiadau **Baromedr Busnes y Brifysgol Agored 2024**. **Mabwysiadu deallusrwydd artiffisial a thechnoleg (sgiliau a diogelwch).** Mae sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn wynebu cyfleoedd a risgiau o ganlyniad i ddeallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio; mae'r Baromedr yn canfod **diffyg hyder wrth ddefnyddio deallusrwydd artiffisial/technoleg werdd (64%)**, sy'n dangos yr angen am **ddealltwriaeth sylfaenol o ddeallusrwydd artiffisial/data** a llywodraethu defnydd diogel ochr yn ochr ag uwchsgilio sy'n benodol i rôl.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Prinder sgiliau parhaus → pwysau o ran llwyth gwaith a llesiant. Mae bylchau mewn sgiliau yn **fwy difrifol yn y sector cyhoeddus/trydydd sector (66%)** nag yn gyffredinol (62%); mae **78%** yn dweud bod y prinder yn **cynyddu llwyth gwaith** staff presennol, gan danseilio ansawdd, cadw staff ac amser ar gyfer addysg. **O hyfforddiant adweithiol i hyfforddiant rhagweithiol.** Mae'r adroddiad yn annog symud y tu hwnt i ddysgu ad-hoc, sy'n cydymffurfio yn unig i **ddatblygiad wedi'i gynllunio sy'n cael ei arwain gan allu** sy'n gysylltiedig â chanlyniadau gwasanaeth a llwybrau gyrfa (cyn cofrestru tan ar ôl cofrestru). **Heriau recriwtio (demograffeg a siociau).** Mae **gweithlu sy'n heneiddio, deinameg ar ôl y pandemig a Brexit** yn cymhlethu recriwtio - galw am **ehangu mynediad**, prentisiaethau a llwybrau trosi canol gyrfa. **Anghysondebau rhanbarthol ac angen sy'n seiliedig ar leoedd. Materion daearyddol**: mae sgiliau anghyson a mynediad anghyson at ddatblygiad yn gofyn am **dargedu** addysg/lleoliadau **yn rhanbarthol** a chymorth ar gyfer gwasanaethau gwledig/o bell. **Capasiti a gallu ar gyfer heriau modern.** Mae llwyddiant yn dibynnu ar **weithredu cydgysylltiedig ar draws y llywodraeth, systemau a darparwyr lleol** i feithrin capasiti addysgwyr/goruchwylwyr, seilwaith digidol a gallu gwerthuso.
B3	Council of Deans of Health – Strategy 2030 Cyhoeddwyd ym mis Awst 2025. Cyrchwyd ym mis Awst 2025	Mae strategaeth Cyngor y Deoniaid Iechyd (CoDH) yn nodi eu gweledigaeth a'u blaenoriaethau hyd at 2030 i gefnogi aelodau (100 a mwy o brifysgolion sy'n addysgu tua 2000,000 o nyrsys, bydwragedd a rhai mewn proffesiynau perthynol i iechyd presennol/yn y dyfodol), adeiladu cymuned arweinyddiaeth gysylltiedig, a sbarduno newid ar lefel system ar draws addysg ac ymchwil iechyd y DU. Gwerthoedd craidd: **cynhwysiant, effaith, cydweithio, gonestrwydd.** **Tri nod strategol gydag ysgogiadau clir ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch a systemau.** **1) Grymuso aelodau fel arweinwyr systemau** (rhagoriaeth mewn addysg/ymchwil; ymdopi â phwysau o'r tu allan).

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		2) **Creu cymuned arweinyddiaeth gref a chysylltiedig** (rhoi mwy o lais; cydweithio). 3) **Sbarduno newid ar lefel system** drwy dystiolaeth, polisi a materion allanol. Mae'r rhain yn amlinellu sut mae prifysgolion yn gweithio mewn partneriaeth â llywodraethau, rheoleiddwyr a chyflogwyr. **Themâu blaenoriaeth a adlewyrchir mewn grwpiau Cyngor y Deoniaid Iechyd (beth mae'r strategaeth yn ei roi ar waith).** **Addysgeg ac arloesi** (technoleg addysg, newid yn y cwricwlwm), **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant** (gan gynnwys gwrth-hiliaeth), **Rheoleiddio** (sicrwydd, cludadwyedd safonau), **Ymchwil** (capasiti, effaith), ynghyd â grwpiau cyfeirio ar gyfer **Efelychu** a **Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol mewn addysg gofal iechyd**, a grwpiau thematig ar gyfer **Ymarfer Uwch** a'r **Gweithlu**. Mae'r rhain yn arwydd o flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer y cwricwlwm a gallu ac ansawdd addysgwyr. **Darpariaeth ledled y DU sy'n ymwybodol o'r genedl (perthnasol i Gymru).** Mae Cyngor Deoniaid Iechyd Cymru yn cynnull Sefydliadau Addysg Uwch Cymru ynghylch **recriwtio a chadw myfyrwyr/addysgwyr, datblygu'r gweithlu, arloesi ac ymchwil**, gan weithio gyda **Llywodraeth Cymru, AaGIC, MEDR, Prifysgolion Cymru a rheoleiddwyr** - cyfrwng parod ar gyfer cydlynu "unwaith dros Gymru". **Partneriaeth a ffocws ar y biblinell.** Mae'r strategaeth yn cyfeirio at gydweithrediadau (e.e. **Sgiliau Gofal, Fframwaith Gyrfa Addysgwyr AHP, Arweinyddiaeth Myfyrwyr, Clinig Cyllido)** y gellir eu harneisio ar gyfer ehangu mynediad, datblygu addysgwyr ac ansawdd lleoliadau.
B3	The Future of Medical Education: Learning Healthcare in the Digital Age Cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	Blog gan Care Learning sy'n crynhoi tueddiadau allweddol sy'n ail-lunio addysg feddygol, **integreiddio ac addysg ryngbroffesiynol, dysgu digidol/ar-lein, efelychu a thechnoleg ymgolli, deallusrwydd artiffisial a dadansoddeg, llwybrau sy'n seiliedig ar gymhwysedd/personol, cydweithio byd-eang**, a **llesiant/moeseg**, i arwain arweinwyr addysg yn yr oes ddigidol. **Dysgu integredig a rhyngbroffesiynol (IPE) yn ddiofyn.** Mae Cwricwla yn symud i ffwrdd o seilos, gan gyfuno gwyddoniaeth sylfaenol ag ymarfer clinigol o'r dechrau a normaleiddio addysg

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		ryngbroffesiynol i feithrin sgiliau cydweithio. Mapio amlygiad clinigol cynnar a gwaith tîm amlbroffesiwn wrth gynllunio rhaglenni. **Llwyfannau digidol ac e-ddysgu sy'n cynnig mynediad a hyblygrwydd.** Mae llwyfannau ar-lein, ystafelloedd dosbarth rhithwir, fideo/podlediadau ar-alw a modiwlau rhyngweithiol yn ehangu mynediad ac yn gadael i ddysgwyr astudio ar eu cyflymder eu hunain - sy'n bwysig i ddysgwyr Llai nag Amser Llawn a dysgwyr gwledig. Adeiladwch gydrannau anghydamserol o ansawdd uchel gydag addysgeg gref, nid dim ond llwytho cynnwys i fyny. **Hyfforddiant efelychu a throchi i ymarfer yn ddiogel.** Mae modelau realiti rhithwir/realiti estynedig a manicinau gweithrediad uchel yn creu amgylcheddau di-risg ar gyfer gweithdrefnau a phenderfyniadau clinigol, gan wella cymhwysedd ymarferol ar yr un pryd â diogelu cleifion; parhau i gynyddu SBET ledled Cymru gyda Sicrwydd Ansawdd clir. **Deallusrwydd Artiffisial a dadansoddeg data mewn cwricwla ac asesiad.** Mae deallusrwydd artiffisial/dysgu peirianyddol yn cael eu haddysgu ar gyfer dehongli data, cymorth diagnosis ac **adborth personol amser real** drwy offer asesu sy'n cael eu galluogi gan ddeallusrwydd artiffisial; rhaid i ddysgwyr hefyd ddeall **terfynau** deallusrwydd artiffisial. Blaenoriaethu dealltwriaeth o ddeallusrwydd artiffisial (diogelwch, tuedd, esboniadwyedd, llywodraethu). **Addysg bersonol sy'n seiliedig ar gymhwysedd (CBE).** Cynnydd yn seiliedig ar **feistrolaeth amlwg**, nid amser a dreuliwyd; mae dadansoddeg a deallusrwydd artiffisial yn galluogi **llwybrau unigol** sy'n canolbwyntio ymdrechion ar unrhyw fylchau sy'n bodoli. Cysoni asesiadau ac e-bortffolios â chymwyseddau y gellir eu harsylwi. **Globaleiddio, cydweithio a chynhwysiant.** Mwy o bartneriaethau, cyfnewidiadau ac ymdrechion rhyngwladol i ehangu cyfranogiad, arallgyfeirio'r biblinell a gwasgaru arloesedd; defnyddio hyn i feincnodi cynigion Cymru ac agor llwybrau allan. **Llesiant, moeseg, seiberddiogelwch a phreifatrwydd.** Mae cymorth iechyd meddwl yn dod yn fwyfwy pwysig, ochr yn ochr â mynd ati'n benodol i addysgu **moeseg ddigidol, hylendid seiber** a

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		diogelu data wrth i adnoddau digidol gynyddu. Troi diogelwch seicolegol ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer ymarfer digidol yn amgylcheddau dysgu.
B3	Final-CoDH-Nursing-and-Midwifery-Educator-Workforce-Report.pdf Cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	Arolwg ledled y DU ac astudiaeth ansoddol (Hydref-Tachwedd 2024) o **addysgwyr academaidd nyrsio a bydwreigiaeth** o safbwynt recriwtio, cadw staff, cynnydd ac arweinyddiaeth; a gyhoeddwyd yn **2025** i lywio camau gweithredu cenedlaethol ar gapasiti addysgwyr. • **Llun recriwtio (y 2 flynedd ddiwethaf).** **84%** o dimau wedi'u recriwtio; **academyddion ar ddechrau eu gyrfa** yn bennaf (dros 3 blynedd o brofiad Addysg Uwch). **Nid** oedd **60%** yn recriwtio uwch academyddion. **Nyrsio anableddau dysgu** oedd yn wynebu'r anhawster mwyaf i recriwtio, ac yna **nyrsio oedolion**. Nodwyd profiad recriwtio **mwy cadarnhaol** mewn bydwreigiaeth. Ffactorau sy'n achosi anhawster: **bylchau cyflog yn y GIG y byd academaidd** a **diffyg profiad priodol**. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr o **Gymru** at recriwtio haws oherwydd bod **partneriaethau byrddau iechyd wedi cau** ac oherwydd mai nhw oedd yr **unig ddarparwr Addysg Uwch yn lleol**. • **Swyddi gwag:** Dywedodd **34%** fod ganddynt swyddi heb eu llenwi (**swyddi 1-6 ar ddechrau eu gyrfa** yn bennaf), gan gynyddu'r llwyth gwaith a risgiau profiad myfyrwyr. **Contractau, capasiti a'r hyn nad yw'n gweithio.** • **Mae contractau ar y cyd/wedi'u hollti** yn bodoli ond maent yn anghyson; ystyriwyd yn gyffredinol bod **contractau rhan-amser/diwrnod byr iawn yn aneffeithiol**, gan ychwanegu baich cynllunio a chyfyngu ar y gallu i gynnal modiwlau neu gefnogi myfyrwyr. **Newid proffil staff a'r cymysgedd sgiliau.** • Mae'r rhan fwyaf yn nodi **mwy o staff ar ddechrau eu gyrfa** (yn enwedig ym maes **oedolion, iechyd meddwl** a **bydwreigiaeth**; mae'r duedd gryfaf y De-ddwyrain). Pryder am golli'r **"haen uchaf"** o brofiad ym maes Addysg Uwch ac ymarfer • **Cyfansoddiad tîm:** Mae **staff clinigol (58%)** yn gyffredin mewn timau, gydag **ymchwilwyr (43%), staff clinigol uwch (38%), academyddion clinigol (35%), technolegwyr dysgu**

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		(17%) a **thechnegwyr (20%)** i gyd yn bresennol; mae **bydwreigiaeth** yn fwyaf tebygol o gynnwys staff clinigol (62%). **Pwysau cadw a datblygu.** • **Rhesymau dros adael: Ymddeol (38%), dychwelyd/symud i ymarfer clinigol (30%), dilyniant gyrfa mewn mannau eraill (21%), newid gyrfa (20%).** Mae pwysau ariannol ar Addysg Uwch (toriadau, cynlluniau Cymorth i Ddioddefwyr) a **bylchau staffio** yn gwaethygu cyfraddau gadael. • **Tagfeydd cynnydd (y tu hwnt i SL): Hyrwyddiadau wedi'u rhewi, swyddi uwch cyfyngedig/strwythurau wedi'u gwastadu, meini prawf anhyblyg** sy'n breinio proffiliau ymchwil, **diffyg amser wedi'i ddiogelu ar gyfer ymchwil** neu gymorth PhD; llwybrau dyrchafiad yn aml yn **aneglur**. **Cynrychiolaeth a bylchau mewn arweinyddiaeth.** • Rôl uchaf rhywun o'r un proffesiwn: **Pennaeth ysgol/adran (28%); Deon (18%); Dirprwy Is-Ganghellor (7%).** Yn gyffredinol, mae **gwell cynrychiolaeth** nyrsio/bydwreigiaeth ar lefel weithredol na rhai Proffesiynau Perthynol i Iechyd, ac eto mae llawer o dimau'n dal i deimlo **nad ydynt yn cael eu hyrwyddo'n ddigonol** ac yn galw am arweinwyr sy'n gallu **pontio blaenoriaethau prifysgol ac ymarfer**. **Beth sy'n helpu (ymarfer sy'n datblygu).** • **Cynigion datblygu** (mentora, hyfforddi, rhwydweithio), **recriwtio cynhwysol**, cymorth **cynefino/pontio** cryf i glinigwyr sy'n mynd i'r byd academaidd, **rolau hyblyg** (e.e. darlithydd-ymarferydd, secondiadau/cylchdroi), **casglu gwybodaeth** gan uwch staff, ac adolygu **cyflogau** i leihau bylchau yn y GIG/Addysg Uwch. Yng Nghymru, tynnwyd sylw at **gynllun darlithydd cyswllt** (secondiadau clinigwyr 2 ddiwrnod yr wythnos).

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Deuddeg argymhelliad (prif feysydd). Hyrwyddo gyrfaoedd academaidd; llwybrau dilyniant strwythuredig; hyfforddiant pontio i glinigwyr; mentora ffurfiol; datblygu sgiliau wedi'u targedu (cwricwlwm, efelychu, ymarfer uwch, asesu/goruchwylio, ymchwil, gwerthuso/effaith, cymhwysedd diwylliannol, addysg ryngbroffesiynol); sgiliau arwain amlbroffesiwn; datblygu arweinyddiaeth; cludadwyedd/cydnabyddiaeth rhwng addysg uwch ac ymarfer; modelau partneriaeth Sefydliadau Addysg Uwch ac ymarfer (cylchdroi, cyfadran hedfan, interniaethau, contractau dwyochrog); llwybrau wedi'u hariannu at gymwysterau uwch; polisïau/terfynau llwyth gwaith realistig; cysoni/rheoleiddio ar draws iechyd ac addysg.
B3	Final-CoDH-Allied-Health-Professions-Educator-Workforce-Survey-Report.pdf Cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	Arolwg yn y DU ac astudiaeth ansoddol o **addysgwyr academaidd Proffesiynau Perthynol i Iechyd** (Hydref/Tachwedd 2024; **143 o ymatebion unigryw**) ar recriwtio, cadw myfyrwyr, cynnydd ac arweinyddiaeth, gan ddefnyddio **Fframwaith Gyrfaoedd Addysgwyr Proffesiynau Perthynol i Iechyd (2023)** i ddiffinio camau gyrfa; cyhoeddwyd yn 2025 i lywio camau gweithredu cenedlaethol ar gapasiti addysgwyr. **Y darlun recriwtio a sefyllfa Cymru.** Roedd y rhan fwyaf o dimau wedi recriwtio yn ystod y ddwy flynedd diwethaf; roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn **benodiadau ar ddechrau gyrfa (1-3 blynedd o brofiad)**; **Llundain** oedd â'r gyfradd recriwtio isaf, ac yng **Nghymru dywedodd 87%** o'r timau eu bod wedi recriwtio (dadansoddiad rhanbarthol). Nodwyd profiadau cadarnhaol mewn Proffesiynau Perthynol i Iechyd mwy (ffisio, parafeddygon, deietegwyr, therapyddion galwedigaethol), a **thynnodd darparwyr Cymru sylw at bartneriaethau cryf â byrddau iechyd lleol** a bod yr unig ddarparwr Addysg Uwch lleol mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol fel galluogwyr. **Heriau recriwtio (beth a ble).** Trafferth eang wrth recriwtio addysgwyr **Ymarfer yr Adran Lawdriniaethol**; **Llundain** oedd yn wynebu'r her fwyaf. Y prif achosion: **diffyg ymgeiswyr** a **bylchau cyflog o'i gymharu ag ymarfer clinigol.** Dywedodd Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd llai (orthopteg, osteopatheg, podiatreg, deieteg, Therapi Iaith a Lleferydd) mai prin oedd ymwybyddiaeth ymgeiswyr o'r proffesiwn. Therapïau'r celfyddydau creadigol oedd y lleiaf tebygol o fod wedi recriwtio. Yn aml, nid oedd gan ymgeiswyr ddigon o **brofiad/cymwysterau** ar gyfer swyddi, yn enwedig mathau o Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd sy'n fwy newydd i Addysg Uwch.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Swyddi gwag a risg o ran llwyth gwaith. Nid oedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn ystyried swyddi gwag heb eu llenwi fel pryder "mawr" yn gyffredinol, ond roedd yn bryder mawr i addysgwyr **Ymarfer Adrannau Llawdriniaethol (53%), parafeddygon (50%)** a **Therapi Iaith a Lleferydd (44%)**; **Canolbarth Lloegr** oedd yr ardal fwyaf tebygol o nodi bod swyddi heb eu llenwi (58%). Mae pryder yn canolbwyntio ar **lwyth gwaith gweddill y staff**. **Mae gogwydd yn y proffil staff tuag at staff iau.** Mae timau'n nodi bod **mwy o staff ar ddechrau eu gyrfa** ac ychydig/dim cynnydd yn nifer yr uwch-aelodau staff, gan arwain at risg o **golli arbenigedd/cof sefydliadol** - yn cael ei waethygu gan ymddeoliadau cynnar a chyfyngiadau ariannol sy'n cyfyngu ar recriwtio uwch-aelodau staff. Gwelodd rhai proffesiynau gynnydd mewn amrywiaeth (e.e. **osteopathi 67%, prostheteg ac orthoteg 60%**). **Cefndir clinigol ac arbenigedd sy'n benodol i leoliad.** Roedd cyfrannau â chymwysterau clinigol yn weddol wastad (roedd amrywiadau ym meysydd deieteg/osteopathi). Roedd **Osteopathi (67%)** ac **Ymarfer Adrannau Llawdriniaethol (42%)** yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff ag **arbenigedd mewn lleoliad penodol** (aciwt/ysbyty, amldriniaethol, theatrau, gofal critigol, cymorth cyntaf llawfeddygol). Roedd sefydliadau **trefol** yn fwy tebygol o gael trafferth gyda recriwtio sgiliau arbenigol na rhai **o bell**. **Bylchau sgiliau yng ngallu addysgwyr.** Mae sgiliau addysgu anodd eu recriwtio yn cynnwys **ymchwil, datblygu cwricwlwm, efelychu, ymarfer uwch, asesu a goruchwylio, cymhwysedd diwylliannol ac addysg ryngbroffesiynol.** Mae hyn yn awgrymu bod angen datblygu cyfadran wedi'i dargedu. **Materion ariannol (a phrentisiaethau'n ychwanegu gwaith gweinyddol).** Mae pwysau ariannol yn **lleihau'r adnoddau sydd gan raglenni** ac yn **codi cymarebau staff a myfyrwyr**; mae twf mewn **prentisiaethau** yn cynyddu **baich gweinyddol** (cydymffurfiaeth aml-reoleiddiwr) a **phwysau ar leoliadau**, gyda diffygion cyllid hefyd yn **rhwystro cynnydd staff**. **Cadw: llwyth gwaith yw'r stori gyffredin.** Ar draws y Proffesiynau Perthynol i Iechyd, nid yw cadw staff "yn hawdd nac yn anodd", ond mewn **dieteg** oedd yr anhawster mwyaf (**41%**). Y prif resymau: **gormod o lwyth gwaith**, **llwyth gwaith bugeiliol/gweinyddol** cynyddol (yn enwedig mewn rhaglenni newydd/prentisiaethau), a **disgwyliadau aneglur i glinigwyr sy'n mynd i'r byd**

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		academaidd - mae llawer yn **dychwelyd i ymarfer** yn gyflym. Y prif resymau dros adael: **llwyth gwaith** ac **ymddeoliadau** (yn ogystal ag ailstrwythuro). Mae timau parafeddygol a Therapi Galwedigaethol yn cyfeirio'n benodol at symud yn ôl i ymarfer clinigol. **Mae'n anodd cadw academyddion ar ddechrau eu gyrfaoedd.** **Cynnydd ac arweinyddiaeth.** Mae llwybrau'n edrych yn glir ar bapur ond mae **rhwystrau'n** brathu: hyrwyddiadau wedi'u rhewi, **meini prawf allbwn ymchwil** sy'n anodd eu bodloni ar gyfer staff sy'n canolbwyntio ar addysgu/staff clinigol-cefndirol, amser ysgoloriaeth wedi'i ddiogelu cyfyngedig; **Cymru oedd â'r gyfran uchaf yn nodi dim dyrchafiadau mewn 2 flynedd (60%)**. Mae **tangynrychiolaeth** o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd mewn arweinyddiaeth prifysgol ac weithiau'n cael eu **camleoli** (e.e. therapïau celf sy'n cael eu hasesu ar fetrigau anghlinigol); gall penderfyniadau wyro tuag at flaenoriaethau nyrsio. **Beth sy'n helpu (ymarfer sy'n datblygu).** Mae **contractau hyblyg, cyfleoedd PhD/cymwysterau, interniaethau, darlithio gwadd, ymarfer academaidd-glinigol ar y cyd,** a **chynefino strwythuredig ar gyfer academyddion newydd** yn cefnogi recriwtio/cadw. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at **bartneriaethau comisiynu a byrddau iechyd Cymru** fel hwyluswyr. **Argymhellion (pennaeth wedi'i osod).** Mae 13 o gamau gweithredu yn cynnwys: **hyrwyddo gyrfaoedd academaidd, dilyniant strwythuredig, mentora, hyfforddiant sgiliau cyfadran** (cwricwlwm, efelychu, asesu/goruchwylio, ymchwil, gwerthuso/effaith, cymhwysedd diwylliannol, addysg ryngbroffesiynol), **arweinyddiaeth amlbroffesiynol, cydnabyddiaeth a hygludedd rhwng addysg uwch ac ymarfer, modelau hyblyg/ar y cyd** (cylchdroadau, "cyfadran hedfan", secondiadau), **llwybrau wedi'u hariannu at gymwysterau ôl-raddedig, polisi llwyth gwaith ac egwyddorion staffio**, ac **adolygiad traws-sector o oruchwyliaeth reoleiddiol** i leihau dyblygu.
B3	KPMG a Mills and Reeve Radical Collaboration: A Playbook Cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025	Mae'r adroddiad a gynhyrchwyd gan **KPMG** a **Mills a Reeve**, ar gyfer **Tasglu Trawsnewid ac Effeithlonrwydd Prifysgolion** y DU, mae'n darparu canllawiau Ymarferol ar sut gall prifysgolion y DU gydweithio neu gyfuno, gyda modelau, opsiynau llywodraethu, pecynnau cymorth ac amodau ar gyfer llwyddiant i fynd i'r afael â chynaliadwyedd y sector a gwella canlyniadau. **Pam cydweithio, pam nawr?** Mae'r canllaw yn cysylltu pwysau ariannol, newidiadau demograffig, newidiadau mewn technoleg a pholisi â'r angen am **atebion strwythurol tymor canolig a thymor**

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
	Cyrchwyd ym mis Awst 2025	**hir**, nid arbedion effeithlonrwydd yn unig. Dylai cynllunio addysg ragdybio bod **gwasanaethau a rennir, cyfadrannau ar y cyd, a darpariaeth ar y cyd** ar draws sefydliadau. **Egwyddorion arweiniol (Seren y Gogledd → Pwy → Sut).** Dechreuwch gyda **diben clir** (budd i fyfyrwyr, staff, yr economi leol), yna sicrhewch **arweinyddiaeth a llywodraethiant**, **cydnawsedd diwylliannol, ymgysylltiad eang â rhanddeiliaid,** a **chynlluniau integreiddio tymor hir** gyda diwydrwydd dyladwy ac ymgysylltiad cynnar â'r **llywodraeth/rheoleiddiwr**. Mae'r rhain yn dod yn feini prawf dylunio ar gyfer mentrau addysg ar y cyd. **Sbectrwm o fodelau cydweithio.** Mae opsiynau'n cael eu rhedeg o **Gynghreiriau Cytundebol** (cadw annibyniaeth; rhannu gwasanaethau / lleoliadau / gweithrediaethau) drwy **Ffederasiynau** a **Grwpiau Corfforaethol Addysg** (rhiant endid gyda brand/gwasanaethau yn cael eu rhannu) i **amrywiadau uno** ac **Ymddiriedolaethau Aml-Brifysgol** yn y dyfodol. Mae gan bob un oblygiadau penodol o ran **llywodraethu, brandio, cyllid, staff a myfyrwyr** sy'n mapio i wahanol achosion o ddefnyddio addysg (e.e. cwricwla ar y cyd neu ganolfannau addysg glinigol). **Manylion gweithredol sy'n bwysig ar gyfer addysg.** • *Cynghrair Cytundebol*: mae sefydliadau'n aros yn annibynnol ond gallant **rannu cymorth i fyfyrwyr, cyfleusterau, lleoliadau, a hyd yn oed rolau gweithredol;** mae secondiadau wedi'u galluogi. Defnyddiol ar gyfer **canolfannau efelychu a rennir, timau Hwylusydd Addysg Ymarfer (PEF) ar y cyd**, neu fodiwlau sy'n cael eu rhannu. • *Grŵp Corfforaethol Addysg:* mae **rhiant gorff** yn goruchwylio strategaeth a gwasanaethau a rennir; **gall myfyrwyr astudio ar draws y grŵp;** mae llywodraethu academaidd yn parhau ar gynghorau lefel-benodol (Addysg Uwch/Addysg Bellach/ysgolion). Mae'n dda ar gyfer **llwybrau o un pen i'r llall (Addysg Bellach→Addysg Uwch→Datblygiad Proffesiynol Parhaus)** a **llyfrgelloedd cynnwys Cymru gyfan**. • *Enghraifft ymarferol o'r "Drenewydd":* mae'n dangos **grŵp aml-endid rhanbarthol** gyda chydberchnogaeth, data/dadansoddeg, a llwyfannau cefn swyddfa (e.e. **CRM, HRIS, VLE**) i alluogi **piblinellau sgiliau** sy'n cyd-fynd ag angen lleol ac y gellir eu trosglwyddo'n uniongyrchol i ranbarthau Cymru.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Amodau llwyddiant. I gyflawni newid ar lefel system mae angen **arweinyddiaeth sector, cyrff myfyrwyr, rheoleiddwyr, cyllidwyr a phartneriaid rhanbarthol** i gyd-fynd; rhaid mynd i'r afael â **rhwystrau strwythurol/rheoleiddiol** i gydweithio ar y cyd - sy'n bwysig ar gyfer modelau addysg traws-ddarparwr. **Pecyn Cydweithio.** Dull gweithredu fesul cam o'r **bwriad strategol a'r rhestr hir o opsiynau** drwy **achos busnes, map gweithredu ac integreiddio ar ôl uno** - defnyddiol fel templed ar gyfer **prosiectau addysg aml-sefydliad** (e.e. e-PAD unedig, rhwydwaith efelychu a rennir).
B3	Arolwg Profiad Academi Myfyrwyr Student Academic Experience Survey 2025 - HEPI, HEPI/Advance HE Cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025 Cyrchwyd ym mis Awst 2025	Arolwg blynyddol y DU gan HEPI ac Addysg Uwch o **10,232** o israddedigion amser llawn ar addysgu, llwyth gwaith, lles, arian a gwerth; baromedr craidd a ddefnyddir gan wneuthurwyr polisi a darparwyr. **Gwaith cyflogedig yw'r norm erbyn hyn - ac mae'n llywio dysgu.** Mae **68%** o fyfyrwyr yn gweithio yn ystod y tymor; yr oriau cymedrig ≈ **8.9/wythnos** ar draws yr holl fyfyrwyr a **13.1/wythnos** ymhlith y rhai sy'n gweithio. Cymudwyr, gofalwyr a myfyrwyr yn eu blwyddyn olaf sydd fwyaf tebygol o weithio. Rhaid i fodelau addysg dybio cyflogaeth eang. **Mae'r amser astudio annibynnol wedi gostwng yn sydyn. Astudiaeth annibynnol** ar gyfartaledd **≈ 11.6 awr/wythnos (2025)**, sydd bellach **yn is na'r oriau cyswllt a fynychwyd** yn y rhan fwyaf o bynciau; mae'n awgrymu gwasgfa amser strwythurol. **Oriau cyswllt cyson; roedd boddhad wedi gostwng, yn enwedig i fyfyrwyr sy'n gweithio.** Roedd **cyswllt nodweddiadol yn bresennol am ~13 awr yr wythnos**; roedd boddhad â'r oriau cyswllt wedi gostwng, ac mae'n **is ar gyfer myfyrwyr sy'n gweithio** nag ar gyfer y rheini nad ydynt yn gweithio. **Asesiadau'n cyflymu.** Mae **61%** o aseiniadau yn cael eu dychwelyd o fewn pythefnos (i fyny o **45%** yn 2024), cynnydd nodedig mewn ansawdd i'w gloi i mewn. **Gwerth am arian a disgwyliadau.** Mae **37%** yn dweud bod eu gwerth yn dda/da iawn o'i gymharu â **29%** yn wael/gwael iawn; mae **26%** yn dweud bod eu profiad wedi rhagori ar ddisgwyliadau (i fyny o

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		22% yn 2024). Fodd bynnag, byddai **11%** yn dewis llwybr nad yw'n un Addysg Uwch pe baent yn penderfynu eto (i fyny o 6%). **Cymorth iechyd meddwl a llesiant.** Iechyd meddwl yw'r **prif reswm o hyd dros ystyried rhoi'r gorau iddi**, gydag **anawsterau ariannol** yn ail; mae **40%** eisiau i brifysgolion gynnig **gwasanaethau iechyd meddwl cynhwysfawr**, ac mae **41%** am gael gwasanaeth ataliol a chwnsela cadarn gyda'r GIG yn ymdrin ag achosion cymhleth. **Pwysau o ran perthyn. Dirywiad bach ond arwyddocaol** yn y cysylltiadau perthyn / ar y campws yr adroddwyd arnynt; galwadau testun rhydd am **gymorth mwy personol** a **rhyngweithio un-i-un**. **Cyfanswm y llwyth wythnosol.** Ar gyfer myfyrwyr sy'n gweithio, at ei gilydd **maent yn astudio ac yn gweithio 44.3 awr yr wythnos ar gyfartaledd**, sy'n cyd-fynd â phrinder amser sy'n effeithio ar ymgysylltu. **Cyfnewidiadau ffioedd/cyllid.** Mae myfyrwyr yn rhanedig rhwng cadw ffioedd yn wastad (derbyn rhai gostyngiadau mewn ansawdd) a chynnydd bach mewn chwyddiant i gynnal ansawdd; mae gwybodaeth am systemau ffioedd yn amrywio. (Defnyddiol ar gyfer cyfathrebiadau cyllido Cymru.)
B3	JISC - Collaboration for a sustainable future Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2024 Cyrchwyd Hydref 2025.	Mae'r adroddiad hwn, a gyhoeddwyd gan JISC a KPMG, yn lasbrint ar draws y sector sy'n dadlau y gall addysg uwch yn y DU ddatgloi gwerth a chynaliadwyedd hirdymor drwy gydweithio ar ddulliau cyffredin, safonol o ymdrin â datblygiadau digidol, data a thechnoleg. Mae'n nodi pum thema cydweithio (o fodelau cyffredin a phiblinellau sgiliau a rennir i rannu gwasanaeth cyfan) ac yn pwysleisio mai'r prif rwystrau yw prosesau a diwylliant anghyson, yn hytrach na thechnoleg. Mae'r alwad i weithredu ar gyfer safoni a chlymbleidiau'r rhai sy'n fodlon sy'n cael eu cefnogi gan arweinwyr, sef "mabwysiadu-nid-addasu". **Safoni'n gyntaf, ac yna rhannu.** Mae'r adroddiad yn nodi mai'r rhwystr technegol mwyaf yw **diffyg prosesau safonol, strwythurau data a modelau gweithredu** ar draws sefydliadau. Mae'n cynnig mabwysiadu modelau/diffiniadau cyffredin ar draws y sector cyfan (e.e. drwy bensaernïaeth gyfeirio) a meddylfryd "mabwysiadu, nid addasu" i alluogi rhyngweithredu a llwyfannau a rennir.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Pum thema cydweithio i'w cynllunio o amgylch: 1. **Mwy o gydgysylltu canolog** ar fodelau a diffiniadau; 2. **Darpariaeth ganolog o sgiliau digidol, data a thechnoleg (DDaT)** ac adnoddau a rennir i fynd i'r afael â galw uchel/cyflenwad isel; 3. **Caffael/gweithredu/rheoli rhaglenni ar y cyd** ar draws meysydd addysgu a dysgu, ymchwil a gwasanaethau proffesiynol; 4. **Rhannu neu gomisiynu gwasanaethau cyfan** (manteision mwyaf, amseroedd datblygu hiraf); 5. **Cyd-adeiladu technoleg** gyda gwerthwyr (ffafrio ymestyn technoleg bresennol yn hytrach nag adeiladu o'r newydd). **Sefyllfaoedd achosion busnes.** Ar gyfer gwasanaethau a rennir, dylai achosion dybio **gorwelion 10/30 mlynedd** a mynd i'r afael â thriniaeth **TAW** er mwyn gwireddu arbedion ar raddfa fawr. **Amodau arwain a llywodraethiant.** Er mwyn llwyddo, mae angen **cefnogaeth weladwy gan uwch arweinwyr, cymhellion i gydweithio neu arweiniad clir gan y llywodraeth, ymddiriedaeth rhwng sefydliadau**, a chynullydd niwtral i fwrw ymlaen â mentrau. **Pam mae safoni'n bwysig (y tu hwnt i dechnoleg).** Nid yw llawer o weithgareddau sefydliadol **yn creu mantais gystadleuol** (e.e. galluoedd swyddfa gefn nwyddau). Mae eu safoni a'u rhannu yn rhyddhau adnoddau ar gyfer addysg ac ymchwil sy'n ychwanegu gwerth. **Cyfyngiadau gweithredu i gynllunio ar eu cyfer.** Rhaid i unrhyw strategaeth addysg ddigidol ymdopi â'r canlynol: **hen ystadau a dyled dechnegol; integreiddiadau cymhleth; risg seiber; beichiau adrodd/ansawdd data; trosglwyddo i SaaS/cwmwl a symud oddi wrth gostau cyfalaf i gostau rheolaidd;** a **phrinder cenedlaethol/cystadleuaeth am sgiliau technegol.** **Diwylliant yn hytrach nag offer.** Mae'r rhagair yn tanlinellu **nad technoleg yw'r prif rwystr;** ond yn hytrach **y parodrwydd i safoni ymarfer a sbarduno newid diwylliant**.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
B3	Galw Myfyrwyr hyd at 2035, HEPI Student-Demand-to-2035.pdf Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2024 Cyrchwyd ym mis Awst 2026	Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Polisi Addysg Uwch (HEPI), yn rhagamcanu'r **galw gan fyfyrwyr israddedig ifanc, amser llawn** hyd 2035 yn **Lloegr** ac yn archwilio'r ffactorau y tu ôl i'r oedi diweddar o ran cyfranogiad, gyda goblygiadau i sefydliadau ac o ran polisi. (Nid yw'r cwmpas yn cynnwys myfyrwyr rhan-amser, ôl-raddedig a rhyngwladol.) **Cwmpas a therfynau (i'w ddarllen gyda gofal).** Mae'r adroddiad yn modelu **israddedigion ifanc domestig yn Lloegr yn unig**, nid y DU gyfan; mae'n nodi y gallai'r galw ôl-18 y tu hwnt i bobl ifanc 18 oed (aeddfed, prentisiaethau) wrthbwyso tueddiadau'n rhannol ond nid yw'n cael ei fodelu. Defnyddiwch hwn fel **arwydd o sbardunau**, nid fel rhagolwg ar gyfer Cymru. **Demograffeg yn troi ar ôl 2030.** Mae'r garfan 18 oed yn **codi hyd 2030**, ac yna'n **gostwng ~7% (2030-35)** ac **~12% (2035-40)** - **~17% yn is na brig yn 2030 hyd at 2040**. Os na fydd cyfranogiad yn gwella, byddai'r galw cyffredinol yn **lleihau'n sylweddol ar ôl 2030**. **Mae cyfranogiad wedi arafu.** Ar ôl dau ddegawd o gynnydd cyson, **gostyngodd ceisiadau/cyfranogiad yn 2023-24,** gan olygu fod amcanestyniadau blaenorol am y galw yn "rhy uchel" oni bai fod y gostyngiad yn profi i fod yn **ddirywiad dros dro**. **Tueddiadau cymysg o ran tegwch.** Roedd **bylchau cyfranogiad tymor hir a oedd yn ehangu wedi lleihau** (y mwyaf breintiedig o'u cymharu â'r lleiaf breintiedig), ond roedd y cynnydd wedi **arafu yn ystod y ddwy flynedd diwethaf**. Mae'r **bwlch cyfranogiad ymhlith dynion** yn parhau i fod yn fawr; mae HEPI yn amcangyfrif y byddai'n cymryd **~37% o gynnydd** yn y cyfranogiad ymhlith dynion i gyfateb â'r cyfraddau ar gyfer menywod. **Mae'r arwydd cost yn ymwneud â chostau byw, nid ffioedd.** Mewn termau real, mae ffioedd wedi **gostwng ers 2012**, ond nid yw'r **cymorth cynnal a chadw wedi cadw i fyny**, sy'n debygol o atal rhai ymgeiswyr - mae **costau byw myfyrwyr** yn broblem o ran ehangu mynediad. **Mae deinameg y farchnad yn peryglu bregusrwydd darparwyr.** Mae prifysgolion "tariff uwch" wedi cynyddu nifer y ceisiadau **(+40% ers 2013)** ac mae'r **tariff is** wedi gostwng **(-13%)**, gan ddwysáu'r gystadleuaeth a'r risg i rai darparwyr. Mae'r adroddiad yn crybwyll rheolaeth niferoedd / stiwardiaeth system fwy cadarn i osgoi dadsefydlogi.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Sbardunau posibl yr arafiad. Mae HEPI yn cyfeirio at **ôl-effeithiau COVID**, **naratif cyhoeddus gelyniaethus** am Addysg Uwch, a **ffactorau economaidd**; **nid** yw tueddiadau cyrhaeddiad mewn ysgolion yn egluro'r gostyngiad yn glir.
B3	Transformation and Efficiency Taskforce: Towards a new era of collaboration Cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025 Cyrchwyd ym mis Rhagfyr 2025	Galwad ar draws y sector i weithredu sy'n nodi sut y gall prifysgolion y DU ymateb i bwysau ariannol, demograffig a thechnolegol drwy **gydweithio, rhannu gwasanaethau, trawsnewid digidol a modelau gweithredu newydd.** Mae'n dilyn ymgysylltu helaeth ar draws sefydliadau ac yn cynnig "pwyntiau cychwyn" ymarferol y gall prifysgolion eu mabwysiadu ar y cyd i leihau costau, cynyddu gwydnwch a chynnal ansawdd. Mae'r adroddiad yn cyflwyno chwe phrif *flaenoriaeth ar gyfer cydweithio:* **1. Trawsnewid digidol gyda dulliau a rennir** • Yn galw am gydweithio ar **seilwaith digidol ar draws y sector**, caffael ar y cyd, timau gweithredu ar y cyd, a systemau rhyngweithredol. • Yn argymell defnydd ar y cyd o bensaernïaeth data, gallu seiberddiogelwch a rennir a mapiau buddsoddi digidol cydgysylltiedig. **Goblygiadau addysgol:** Ar gyfer hyfforddiant iechyd-proffesiynol, mae hyn yn galluogi **ecosystem dysgu digidol ar y cyd ledled Cymru:** efelychu, Realiti Rhithwir/Realiti Estynedig, asesu digidol, dadansoddi cwricwlwm sy'n cael ei arwain gan ddata ac asgwrn cefn e-bortffolio unedig. **2. Gwasanaethau a rennir i leihau dyblygu** • Cyfle am wasanaethau a rennir "dwfn" ar draws meysydd cyllid, Adnoddau Dynol, Dysgu a Datblygu, caffael, ystadau, digidol a gwasanaethau myfyrwyr. • Canolbwyntio ar safoni, cydgrynhoi ac arbedion maint. **Goblygiadau addysgol:** Yn cefnogi'r gwaith o **weinyddu lleoliadau safonedig, trawssefydliadol, sicrhau ansawdd, hyfforddi goruchwylwyr, rheoli Datblygiad Proffesiynol Parhaus**, a rhannu gallu cefn swyddfa ar gyfer addysg iechyd Cymru.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		3. Darpariaeth academaidd ar y cyd a dysgu hyblyg • Mae'n awgrymu datblygu cwricwlwm ar y cyd, modiwlau traws-sefydliadol, micro-gymwysterau, a modelau cyflwyno a rennir rhwng sefydliadau. • Mwy o ffocws ar ddysgu gydol oes a chymwysterau y gellir eu pentyrru. **Goblygiadau addysgol:** Yn cyd-fynd ag uchelgeisiau AaGIC ar gyfer **micro-gymwysterau Cymru gyfan**, cwricwla craidd cyffredin (digidol, deallusrwydd artiffisial, cyffredinoliaeth, genomeg), a modiwlau a rennir sy'n seiliedig ar efelychu. **4. Gwneud penderfyniadau ar sail data** • Cryfhau'r achos dros ddangosfyrddau rhannu gwybodaeth, meincnodi'r sector, dadansoddi llwyth gwaith, optimeiddio adnoddau a modelu senarios. **Goblygiadau addysgol:** Yn galluogi **gwybodaeth am y gweithlu/addysg ledled Cymru**, gan gysylltu darpariaeth Sefydliadau Addysg Uwch, capasiti lleoliadau a galw'r gweithlu **5. Cydweithio ar sail lleoedd** • Dylai prifysgolion gydweithio â gwasanaethau lleol, busnesau a phartneriaid dinesig i gefnogi anghenion economaidd rhanbarthol ac anghenion y gweithlu. **Goblygiadau addysgol:** Mae'n atgyfnerthu pwysigrwydd **Byrddau Iechyd, Sefydliadau Addysg Uwch a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyd-gynllunio lleoliadau, piblinellau gweithlu a chanolfannau hyfforddi yn y gymuned.** **6. Partneriaethau traws-sector cryfach** • Yn annog partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus, cyrff y GIG, llywodraeth leol, Addysg Bellach a diwydiant ar gyfer arloesi, sgiliau a chynhwysiant.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Goblygiadau addysgol: Cefnogi hyfforddiant aml-sector ym meysydd **iechyd, gofal, arloesi ym maes iechyd digidol, gofal cymunedol, ac ymarfer ataliol**, gyda darpariaeth ar y cyd rhwng y GIG a darparwyr Addysg Uwch. Comisiynwyd yr adroddiad gan UUK ar ôl pryderon cynyddol am bwysau ariannol ar draws y sector, ystadau sy'n heneiddio, cynnydd mewn costau digidol, prinder sgiliau a beichiau rheoleiddio cynyddol. Mae'n pwysleisio **"cydweithio cyn toriadau"**, ac yn rhybuddio na fydd mesurau tameidiog fesul sefydliad yn mynd i'r afael â materion strwythurol. Mae'n darparu "mannau cychwyn" ac astudiaethau achos ymarferol i gefnogi'r gwaith o'u rhoi ar waith ar unwaith. Annog newid diwylliannol i **feddylfryd seilwaith a rennir**, gyda chydlyniant cenedlaethol neu ranbarthol.
B3	Delivering a joined-up post-16 skills system **Prifysgolion y DU (UUK)** Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2025 Cyrchwyd ym mis Rhagfyr 2025	Mae *Delivering a joined-up post-16 skills system* yn nodi cynigion UUK ar gyfer tirwedd sgiliau ôl-16 fwy cydlynol a chydweithredol ledled y DU. Mae'n nodi bod darnio rhwng Addysg Bellach, Addysg Uwch, cyflogwyr a'r llywodraeth yn rhwystr rhag mynd i'r afael â phrinder sgiliau ac yn galw am system lle mae cymwysterau, cyllid, data a llwybrau dilyniant yn haws eu defnyddio. Mae'r papur yn amlinellu cynigion ymarferol i greu system sgiliau fwy hyblyg, hygyrch, ymatebol i gyflogwyr ac o ansawdd uchel. **1. Ecosystem sgiliau ôl-16 unedig, rhyngweithredol** • Mae'r adroddiad yn dadlau bod y system sgiliau ar hyn o bryd yn **gymhleth ac yn anodd i ddysgwyr a chyflogwyr ei defnyddio**, gyda dyblygu a llwybrau cynnydd anghyson. • Galwadau am **fframweithiau a rennir, llwybrau cymwysterau a safonau cyson** ar draws Addysg Bellach, Addysg Uwch a phrentisiaethau. • Yn pwysleisio pwysigrwydd darpariaeth sy'n cael ei harwain gan gyflogwyr ond sy'n cael ei chydlynu'n genedlaethol.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		2. Dysgu gydol oes a llwybrau hyblyg • Yn cefnogi **dysgu modiwlaidd sy'n seiliedig ar gredydau**, cymwysterau y gellir eu pentyrru a dulliau cymysg (ar-lein, cyfunol, yn y gwaith). • Mae'n cynnig ei gwneud hi'n haws cludo credydau ar draws sefydliadau er mwyn galluogi symudedd i ddysgwyr. • Yn pwysleisio'r angen am gysondeb â'r Hawl Dysgu Gydol Oes ledled y DU. **3. Gwell cydlynu rhwng Addysg Bellach, Addysg Uwch a chyflogwyr** • Yn tynnu sylw at yr angen am **bartneriaethau sy'n seiliedig ar leoedd** i ddiwallu anghenion y gweithlu rhanbarthol. • Yn annog cwricwla wedi'u cyd-ddylunio a darpariaeth ar y cyd rhwng colegau addysg bellach, prifysgolion a chyflogwyr. • Galwadau am arweiniad gyrfaoedd integredig a chymorth pontio. **4. Cyflogadwyedd, cynhyrchedd a thwf economaidd** • Yn cysylltu system sgiliau gydgysylltiedig â gwell cynhyrchiant a datblygiad economaidd lleol. • Yn annog gwreiddio **sgiliau'r dyfodol** (digidol, gwyrdd, data, deallusrwydd artiffisial) ar draws y cwricwlwm. • Hyrwyddo dysgu wedi'i integreiddio â gwaith, lleoliadau mewn diwydiant, a chyd-fuddsoddiad cyflogwyr. **5. Symleiddio polisi a chyllido** • Mae'n nodi cymhlethdod cyllido fel cyfyngiad mawr ar gydweithio a hyblygrwydd dysgwyr.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		• Yn galw am drefniadau cyllido mwy sefydlog, tymor hirach er mwyn gallu cynllunio'n strategol. • Yn eiriol dros gymhellion i annog cydweithio rhwng Addysg Bellach ac Addysg Uwch. **6. Data, gwerthuso ac ansawdd** • Yn argymell gwell **gwybodaeth am sgiliau a data am y farchnad lafur** sy'n cael eu rhannu ar draws Addysg Bellach, Addysg Uwch, llywodraeth a chyflogwyr. • Yn galw am fesurau canlyniadau cliriach sy'n gysylltiedig â chynnydd, cyflogaeth ac anghenion y gweithlu rhanbarthol. • Yn awgrymu datblygu seilwaith digidol a rennir ar gyfer olrhain credyd a chofnodion dysgwyr. **7. Gweithio gyda'r gwledydd datganoledig** • Er bod yr adroddiad yn cydnabod yn benodol bod angen cysoni **systemau sgiliau datganoledig** (gan gynnwys Cymru) yn agos ledled y DU er mwyn osgoi darnio ac i fanteisio i'r eithaf ar ystwythder y farchnad lafur. • Yn annog dysgu trawsffiniol gan barchu llywodraethu datganoledig ar yr un pryd. Rhan o agenda ehangach UUK ar gyfer diwygio addysg drydyddol ac ymateb i brinder sgiliau, newid demograffig, a galw cyflogwyr am hyblygrwydd. Ei nod yw dylanwadu ar bolisi Llywodraeth y DU a dulliau gweithredu datganoledig drwy ddarparu **fframwaith cydweithredol, sy'n rhoi partneriaeth yn gyntaf**. Mae'n atgyfnerthu rôl prifysgolion fel gweithredwyr canolog mewn **ecosystemau sgiliau rhanbarthol**, nid darparwyr graddau academaidd yn unig.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
B3	Rethinking Placement: Increasing Clinical Placement Efficacy for a Sustainable NHS Future - HEPI **Higher Education Policy Institute (HEPI)** Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025 Cyrchwyd ym mis Rhagfyr 2025	*Mae Rethinking Placement: Increasing Clinical Placement Efficacy for a Sustainable NHS Future* yn edrych ar yr **argyfwng lleoliadau clinigol** ar draws disgyblaethau gofal iechyd yn y DU. Mae'n rhoi diagnosis o bwysau strwythurol (capasiti, goruchwyliaeth, diwylliant, cyllid, cynhyrchiant) ac yn cynnig model strategol newydd ar gyfer **lleoliadau effeithlon, amlbroffesiynol o ansawdd uchel sydd wedi'u galluogi'n ddigidol**. Mae wedi'i anelu at lunwyr polisïau, sefydliadau addysg uwch, rheoleiddwyr ac arweinwyr gweithlu'r GIG. Mae'r adroddiad yn ymateb i ddadleuon cenedlaethol ar **brinder gweithlu**, Cynllun y Gweithlu Hirdymor (Lloegr), a chydnabyddiaeth ehangach na all y DU ehangu addysg iechyd heb drwsio'r ecosystem lleoliadau. Mae'n dwyn ynghyd dystiolaeth gan Sefydliadau Addysg Uwch, darparwyr y GIG, rheoleiddwyr, myfyrwyr, cyrff proffesiynol a chynllunwyr y gweithlu. **1. Mae'r system leoliadau dan bwysau sylweddol.** • Mae'r galw am leoliadau clinigol wedi cynyddu'n sydyn (nyrsio, Proffesiynau Perthynol i Iechyd, meddygaeth, bydwreigiaeth, fferylliaeth), ond nid yw **capasiti, amser goruchwylio, nac argaeledd lle a staff** wedi cynyddu'n ddigon cyflym. • Mae prinder lleoliadau bellach yn cyfyngu ar **ehangu addysg**, cyflenwi'r gweithlu a thrawsnewid gwasanaethau. • Mae pwysau'n disgyn yn anghymesur ar dimau clinigol sy'n cael eu gorymestyn; mae amrywiaeth mewn ansawdd a phrofiad myfyrwyr yn ehangu. **2. Ail-lunio lleoliadau fel ased strategol craidd** • Mae HEPI yn dadlau bod yn rhaid trin lleoliadau fel **swyddogaeth strategol, wedi'i hariannu ar lefel system**, ac nid yn ddibynnol ar ewyllys da. • Galwadau am **gynllunio cenedlaethol a rhanbarthol**, gydag amcanion clir sydd wedi'u cysylltu â modelu'r gweithlu ac anghenion y gwasanaeth.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		3. Ehangu capasiti drwy fodel amlbroffesiwn sy'n seiliedig ar dîm • Mae'n cynnig symud o'r model goruchwylio 1:1 traddodiadol i **oruchwylio mewn tîm, mewn hybiau a drwy hyfforddi**, gan alluogi un addysgwr i gefnogi nifer o ddysgwyr. • Argymell ehangu **lleoliadau rhyngbroffesiynol** (nyrsio, Proffesiynau Perthynol i Iechyd, meddygol, dysgwyr fferylliaeth mewn lleoliadau a rennir) fel arfer diofyn. **4. Buddsoddi yn y gweithlu o addysgwyr** • Yn galw am amser wedi'i neilltuo, cydnabyddiaeth ffurfiol, llwybrau gyrfa a datblygiad ar gyfer **goruchwylwyr ymarfer, aseswyr ac addysgwyr clinigol**. • Mae'n cynnig safonau cenedlaethol ar gyfer gallu addysgwyr, cymorth llesiant a disgwyliadau o ran cymarebau. **5. Cynyddu efelychu mewn modd strategol, nid dim ond cael mwy o oriau** • Cefnogi **efelychu ar sail tystiolaeth**, sy'n cyd-fynd â chymwyseddau a modelau gwasanaeth, i leddfu'r pwysau ar safleoedd lleoliadau. • Yn rhybuddio yn erbyn defnyddio efelychu fel ffordd syml o "gymryd lle lleoliadau" heb dystiolaeth na chynllun addysgol. **6. Defnyddio arloesedd digidol a lleoliadau rhithwir** • Yn tynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer **wardiau rhithwir, monitro o bell, amgylcheddau dysgu a gefnogir gan ddeallusrwydd artiffisial, goruchwyliaeth o bell,** ac offer paru a dyrannu lleoliadau sydd wedi'u galluogi'n ddigidol. • Yn eirioli dros seilwaith digidol cenedlaethol i olrhain capasiti, ansawdd a chynnydd dysgwyr.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		7. Gwell data a gwybodaeth i gynllunio capasiti • Yn nodi diffyg data sylfaenol a chyson ar gapasiti lleoliadau, ansawdd, cyfraddau gadael, llwyth gwaith goruchwylio a chanlyniadau dysgwyr. • Yn argymell datblygu **system genedlaethol o wybodaeth am leoliadau** wedi'i hintegreiddio â gwaith modelu'r gweithlu. **8. Model cyllido tryloyw a chynaliadwy** • Yn galw am **gyllid aml-flwyddyn tryloyw, wedi'i neilltuo** ar gyfer lleoliadau, amser i addysgwyr, efelychu, seilwaith a systemau digidol. • Yn awgrymu symud oddi wrth fetrigau gweithgaredd-yn-unig (e.e. oriau) tuag at **gyllid sydd wedi'i gysylltu â chanlyniadau ac ansawdd.** **9. Cysoni rheoleiddio a sicrwydd** • Yn argymell bod rheoleiddwyr yn darparu gofynion **mwy hyblyg sy'n seiliedig ar ganlyniadau**, yn lleihau biwrocratiaeth feichus, ac yn cysoni disgwyliadau ar gyfer dysgu ac efelychu amlbroffesiwn.
B3	jobs-of-the-future.pdf **Prifysgolion y DU (UUK)** Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025 Cyrchwyd ym mis Rhagfyr 2025	Mae *Jobs of the future* yn nodi sut bydd newidiadau economaidd, technolegol a demograffig yn trawsnewid marchnad lafur y DU. Mae'n nodi'r teuluoedd swyddi sy'n tyfu gyflymaf, y sgiliau y bydd y galw mwyaf amdanynt, a rôl prifysgolion wrth baratoi gweithlu sy'n barod ar gyfer y dyfodol. Mae'n dadlau bod yn rhaid i addysg uwch addasu i fanteisio ar **ddeallusrwydd artiffisial, awtomeiddio, y newid gwyrdd, digideiddio a modelau gwaith newydd**, ac y bydd prinder sgiliau yn dwysáu heb ailgynllunio'r system yn sylweddol. **1. Chwe phrif ysgogwr yn ail-lunio'r farchnad lafur** • **Deallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio** yn trawsnewid rolau proffesiynol, gweinyddol, clinigol a dadansoddol.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		• **Digideiddio gwasanaethau**, gan gynnwys iechyd, gwasanaethau cyhoeddus ac addysg. • **Poblogaeth sy'n heneiddio** yn cynyddu'r galw am wasanaethau iechyd, gofal ac ataliol. • **Newid i sero net** gan newid anghenion sgiliau ym mhob sector, gan gynnwys ystadau iechyd a gweithrediadau gwyrdd. • **Cystadleuaeth fyd-eang am dalent**, yn enwedig mewn rolau STEM, iechyd a digidol. • **Esblygu patrymau gwaith:** gyrfaoedd portffolio, gwaith hybrid, llwybrau proffesiynol hyblyg. **2. Swyddi'r dyfodol: meysydd â thwf uchel** • Rolau digidol uwch (deallusrwydd artiffisial, gwyddor data, seiberddiogelwch, gwybodeg). • Gwyddorau iechyd a bywyd: genomeg, diagnosteg, therapiwteg ddigidol, biodechnoleg. • Rolau iechyd meddwl, iechyd cymunedol, heneiddio a chydlynu gofal. • Rolau gwyrdd a chynaliadwyedd ar draws pob sector (gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus). • Swyddi rhyngddisgyblaethol sy'n cyfuno sgiliau technegol, clinigol ac ymddygiadol. **3. Sgiliau'r dyfodol** Mae Prifysgolion y DU yn nodi set graidd o **sgiliau hanfodol trawsbynciol:** • **Gallu digidol a gallu â data** • **Penderfyniadau critigol a chrebwyll gyda chymorth deallusrwydd artiffisial** • **Meddwl trwy systemau a datrys problemau** • **Sgiliau rhyngbersonol, gwaith tîm a chyfathrebu** • **Creadigrwydd ac arloesi** • **Rheolwyr, arweinyddiaeth a llywio newid** Rhoddir pwyslais cryf ar *sgiliau cyffredinol* a *meta-sgiliau* wrth i awtomeiddio ail-lunio tasgau arbenigol. **4. Rôl Prifysgolion a Mwy mewn gweithlu sy'n barod ar gyfer y dyfodol** • Darparu **dysgu hyblyg, modiwlaidd y gellir ei bentyrru** dros oes.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		• Meithrin **partneriaethau cryfach â diwydiant a'r sector cyhoeddus**, gan gynnwys darparu ar y cyd. • Buddsoddi mewn **seilwaith dysgu digidol,** efelychu ac addysgeg a alluogir gan ddeallusrwydd artiffisial. • Cryfhau **gyrfaoedd, cyflogadwyedd a phontio** i feysydd gwaith newydd. • Ehangu rhaglenni trawsddisgyblaethol sy'n chwalu seilos pynciau. **5. Tegwch a mynediad** • Rhybuddio bod perygl i newid technolegol ledu bylchau rhanbarthol ac economaidd-gymdeithasol. • Galwadau am fynediad digidol cynhwysol, llwybrau teg, ac ehangu cyfranogiad mewn rhaglenni sgiliau yn y dyfodol. • Yn pwysleisio'r angen am waith uwchsgilio hygyrch i oedolion sy'n gweithio. **6. Argymhellion polisi** • **Strategaeth sgiliau genedlaethol** gydlynol i integreiddio Addysg Bellach, Addysg Uwch, cyflogwyr a'r llywodraeth. • Cymhellion ar gyfer **dysgu gydol oes**, micro-gymwysterau ac uwchsgilio'n gyflym. • Buddsoddi mewn seilwaith digidol, y gallu i arloesi ac ymchwil gymhwysol. • Gwybodaeth am y farchnad lafur i lywio darpariaeth ranbarthol a chynllunio'r gweithlu. Wedi'u lleoli o fewn y dadleuon polisi ar gynhyrchiant, sero net, prinder sgiliau, ac arloesi. Wedi'i osod fel galwad i weithredu sy'n edrych tua'r dyfodol, gan annog prifysgolion a llywodraethau i ragweld pethau yn hytrach nag ymateb i ofynion y gweithlu yn y dyfodol.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
B3	**Financial sustainability of higher education providers in** **England: November 2025 update** **Cyhoeddwr:** Office for Students (OfS), England. **Dyddiad:** Tachwedd 2025 Asesiad wedi'i ddiweddaru o gynaliadwyedd ariannol a gwydnwch darparwyr addysg uwch yn Lloegr, gan ddefnyddio rhagolygon ariannol ac enillion risg diweddaraf darparwyr. Mae'n gwerthuso hyfywedd tymor byr, tymor canolig a thymor hir, yn tynnu sylw at bwysau systemig, ac yn nodi ymateb rheoleiddio'r OfS. Er ei fod yn canolbwyntio ar Loegr, mae'r canfyddiadau'n berthnasol iawn i Gymru o ystyried ffactorau rhannu costau, marchnadoedd llafur, a chyd-ddibyniaeth cyflenwad y gweithlu addysg uwch a gwasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys iechyd). Dolen: Financial sustainability of higher education providers in England: November 2025 update	**1. Bregusrwydd ariannol eang** • Mae'r diweddariad yn cadarnhau **dirywiad sylweddol yn sefyllfa ariannol** llawer o ddarparwyr ers asesiadau cynharach. • Mae cyfran sylweddol yn rhagweld **diffygion**, gyda llai o hylifedd a gorsymiau gweithredu tenau. • Mae risgiau'n systemig yn hytrach nag yn ynysig, yn cael eu gyrru gan gyfyngiadau cyllido strwythurol yn hytrach na rheolaeth leol wael. **2. Pwysau cost craidd** • **Cyflog a phensiynau** (gan gynnwys cynnydd yng nghyfraniad y cyflogwr). • **Pwysau chwyddiant** ar ystadau, ynni a seilwaith digidol. • **Costau rheoleiddio a chydymffurfio cynyddol.** • **Cyfyngiadau cyfalaf,** sy'n cyfyngu ar y gallu i fuddsoddi mewn ystadau, efelychu, llwyfannau digidol a chyfleusterau arbenigol. **3. Ansefydlogrwydd incwm a risg o grynodiad** • Parhad o ran **erydiad incwm ffioedd israddedig cartref mewn termau real.** • Dibyniaeth gynyddol ar **recriwtio myfyrwyr rhyngwladol**, cynnydd o ran amlygiad i sociau geowleidyddol, fisa a'r farchnad. • Mae darparwyr llai ac arbenigol yn arbennig o agored, gan gynnwys y rheini sy'n darparu pynciau cost uchel. **4. Goblygiadau o ran darpariaeth a chapasiti** • Mae darparwyr eisoes yn ymateb drwy **gau cyrsiau, ailstrwythuro, lleihau nifer y staff, a gohirio cyfalaf.**

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		• Mae pynciau cost uchel, sy'n ddwys o ran lleoliadau (e.e. iechyd, gwyddorau clinigol, nyrsio, Proffesiynau Perthynol i Iechyd) mewn **perygl anghymesur** heb gymorth wedi'i dargedu. • Mae'r OfS yn tynnu sylw at risg wirioneddol o **lai o ddarpariaeth ranbarthol**, gyda goblygiadau i biblinellau gweithlu lleol. **5. Effeithiau ar y gweithlu mewn prifysgolion** • Mae oedi recriwtio dros dro a diswyddiadau yn effeithio ar **staff academaidd, clinigol a phroffesiynol,** gan gynnwys y rhai sy'n hanfodol i gyd-drefnu lleoliadau, goruchwylio, efelychu a datblygu addysgwyr. • Mae risgiau cynyddol i forâl, lles a chadw staff yn adlewyrchu'r heriau a welir yng ngweithlu'r GIG. **6. Safbwynt rheoleiddio ac ymyrryd** • Mae'r OfS yn nodi **mwy o ymgysylltu rheoleiddiol**, gan gynnwys monitro gwell, gofynion ar gyfer cynlluniau adfer, ac ymyrraeth bosibl lle mae bygythiad i hyfywedd. • Mae'n pwysleisio bod yn rhaid i ddarparwyr ddangos **modelau busnes credadwy a chynaliadwy**, nid datrysiadau tymor byr. **7. Her strwythurol hirdymor** • Mae'r adroddiad yn nodi'n glir na fydd **mesurau lliniaru tymor byr yn datrys materion cynaliadwyedd sylfaenol** heb newid polisi ar gyllid, ffioedd na dyluniad systemau. • Mae'n tynnu sylw at yr angen am **ddatrysiadau ar lefel system**, cydweithio a thrawsnewid yn hytrach nag adfer fesul sefydliad.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Mae'r diweddariad yn rhan o ddyletswydd statudol yr OfS i ddiogelu myfyrwyr a sefydlogrwydd system AU Lloegr. Mae'n sail i reoleiddio ar sail risg yr OfS, cyngor gweinidogol a deialog sector. Er bod pwerau rheoleiddio yn wahanol yng Nghymru, mae'r ecosystem ariannol yn rhyng-gysylltiedig: Mae darparwyr yng Nghymru yn wynebu pwysau tebyg ac yn cystadlu yn yr un marchnadoedd llafur a myfyrwyr.
B3	**Plan B: What the forthcoming NHS workforce strategy should not ignore** **Cyhoeddwr:** Nuffield Trust **Dyddiad:** Mai 2023 Papur her a gyhoeddwyd cyn Cynllun Gweithlu Hirdymor GIG Lloegr yw *Plan B: What the forthcoming NHS workforce strategy should not ignore*. Mae'n dadlau, er bod strategaethau'r gweithlu yn aml yn canolbwyntio ar brif niferoedd staff, eu bod mewn perygl o fethu oni bai eu bod yn mynd i'r afael â chadw staff, cynhyrchiant, ansawdd swyddi, cymysgedd sgiliau a chyfyngiadau systemau. Mae'r papur yn nodi'r "mannau dall" y mae'n rhaid i unrhyw strategaeth gweithlu gredadwy eu hwynebu. **Dolen:**	**1. Mae cadw staff yn bwysicach na recriwtio yn unig** Mae'r papur yn pwysleisio bod cadw staff yn cael effaith llawer mwy tymor byr ar gapasiti'r gweithlu na hyfforddi mwy o staff. Mae trosiant uchel, absenoldeb oherwydd salwch a gorflinder yn tanseilio manteision piblinellau addysg ehangach. Bydd cynlluniau gweithlu sy'n anwybyddu amodau gwaith, morâl a llwyth gwaith yn ei chael hi'n anodd cyflawni. **2. Mae cynhyrchiant a defnydd sgiliau yn ganolog, nid yn ddewisol** Mae'r Ymddiriedolaeth yn dadlau na all y GIG hyfforddi ei ffordd allan o fylchau yn y gweithlu heb wella sut mae amser a sgiliau staff yn cael eu defnyddio. Mae'r materion yn cynnwys tanddefnyddio sgiliau, ffiniau rôl anhyblyg, a diffyg buddsoddiad mewn seilwaith galluogi (digidol, ystadau, cymorth gweinyddol). **3. Cyfyngir ar ehangu hyfforddiant gan gapasiti lleoliadau ac addysgwyr**

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Mae'r erthygl yn tynnu sylw at y ffaith nad yw cynlluniau i gynyddu niferoedd hyfforddi yn aml yn cyd-fynd â chapasiti o ran lleoliadau, goruchwylwyr neu addysgwyr. Heb fynd i'r afael â'r cyfyngiadau hyn, mae perygl na fydd modd cyrraedd targedau twf. **4. Mae profiad ar ddechrau gyrfa yn bwynt risg critigol** Mae staff sydd newydd gymhwyso yn arbennig o agored i adael oherwydd straen, cefnogaeth wael a diffyg cyfleoedd datblygu. Mae methu â gwella profiad gyrfa gynnar yn gwastraffu buddsoddiad mewn addysg. **5. Nid yw recriwtio rhyngwladol yn disodli diwygio'r system** Er ei fod yn cydnabod rôl recriwtio rhyngwladol, mae'r papur yn rhybuddio yn erbyn gorddibyniaeth heb ystyriaeth foesegol na gwelliannau i'r system ddomestig. Mae diffyg cadw staff a recriwtiwyd yn rhyngwladol yn adlewyrchu problemau sylfaenol y system. **6. Mae lles y gweithlu ac ansawdd swyddi yn faterion strategol** Mae gorflinder, straen a llwyth gwaith yn cael eu fframio fel methiannau ar lefel system, nid problemau gwydnwch unigol. Mae anwybyddu lles yn tanseilio cynaliadwyedd hirdymor y gweithlu. **7. Rhaid i strategaethau'r gweithlu alinio â thrawsnewid gwasanaethau** Mae'r papur yn rhybuddio bod cynlluniau gweithlu yn aml yn tybio bod modelau gwasanaeth yn aros yr un fath, er gwaethaf uchelgeisiau ar gyfer gofal cymunedol, atal a darpariaeth ddigidol.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Cyhoeddwyd yr erthygl fel rhan o rôl Nuffield Trust fel melin drafod polisi iechyd annibynnol, gan ddylanwadu ar drafodaethau cyn Cynllun Gweithlu Hirdymor y GIG (Lloegr, Mehefin 2023). Er fod y papur yn canolbwyntio ar Loegr, mae ei feirniadaethau yn systemig ac yn strwythurol, ac felly'n drosglwyddadwy iawn i systemau eraill y DU, gan gynnwys Cymru.
B3	**Future Medical Workforce Project** **Cyhoeddwr:** Llywodraeth yr Alban **Dyddiad:** Rhagfyr 2025 Mae'r *Future Medical Workforce Project – Draft Phase 1 Report* yn nodi canfyddiadau cynnar yr Alban ynghylch sut mae'n rhaid i rolau meddygol, strwythurau hyfforddi a modelau gwasanaeth esblygu i ateb y galw yn y dyfodol. Mae Cam 1 yn canolbwyntio ar ddiagnosis: archwilio newid demograffig, ail-ddylunio gwasanaethau, dosbarthu rolau, tagfeydd hyfforddi a chynaliadwyedd y gweithlu. Mae'n paratoi'r tir ar gyfer argymhellion gweithredu Cam 2. **Dolen:**	**1. Alinio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu meddygol ag anghenion y boblogaeth** • Mae'n cydnabod bod cymhlethdod, amlafiachedd a phoblogaeth sy'n heneiddio yn ffactorau sylfaenol sy'n sbarduno ailgynllunio'r gweithlu. • Mae'n pwysleisio bod angen cryfhau gallu cyffredinol ac ymarfer yn y gymuned, ochr yn ochr ag arbenigedd. • Mae'n awgrymu bod yn rhaid i'r gwaith o gynllunio'r gweithlu meddygol symud y tu hwnt i fodelu niferoedd syml, i ragolygon sy'n seiliedig ar rôl. **2. Ail-gydbwyso hyfforddiant cyffredinol ac arbenigol** • Mae'n nodi anghydbwysedd rhwng arbenigeddau ysbyty a darpariaeth gyffredinol / gymunedol. • Mae'n awgrymu archwilio mwy o hyblygrwydd mewn hyfforddiant arbenigol, elfennau modiwlaidd, a llwybrau cliriach rhwng rolau cyffredinol ac arbenigol. **3. Mynd i'r afael â thagfeydd hyfforddiant a bylchau pontio** • Mae'n tynnu sylw at swyddi hyfforddiant arbenigol cyfyngedig mewn perthynas â chwblhau'r cam sylfaen. • Mae'n cydnabod twf mewn meddygon a gyflogir yn lleol a swyddi gwasanaeth y tu allan i hyfforddiant ffurfiol.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		• Mae'n nodi bod angen dangos gwell cydnabyddiaeth, goruchwyliaeth a llwybrau cynnydd ar gyfer y grwpiau hyn. **4. Cryfhau seilwaith goruchwylio ac addysgu** • Mae'n nodi'r pwysau ar hyfforddwyr a goruchwylwyr ymgynghorol. • Mae'n awgrymu cydnabyddiaeth ffurfiol, amser wedi'i gynllunio ar gyfer swydd a llwybrau arweinyddiaeth i addysgwyr. **5. Gwella hyblygrwydd y gweithlu a chyfraddau cadw staff** • Mae'n galw am well hyblygrwydd o ran patrymau gweithio a seibiant gyrfa. • Mae'n pwysleisio gwella morâl, llesiant a boddhad gyrfa er mwyn sefydlogi'r cyflenwad. **6. Integreiddio modelau gwasanaeth digidol, deallusrwydd artiffisial a modelau gwasanaeth newydd** • Mae'n cydnabod iechyd digidol, diagnosteg a gefnogir gan ddeallusrwydd artiffisial a gofal o bell wrth ail-lunio rolau meddygol. • Rhaid i'r hyfforddiant adlewyrchu cwmpas ymarfer sy'n newid ac integreiddio technolegol. **7. Gwella galluogrwydd data a modelu** • Mae'n nodi bylchau o ran deallusrwydd y gweithlu a chywirdeb rhagolygon. • Mae'n argymell gwell integreiddio data rhwng addysg, cynllunio'r gweithlu a darparu gwasanaethau.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		8. Hyrwyddo gofal amlbroffesiwn a gofal sy'n seiliedig ar dîm • Mae'n annog integreiddio cryfach rhwng meddygon ac ymarferwyr uwch, fferyllwyr, Proffesiynau Perthynol i Iechyd a nyrsys. • Mae'n cydnabod bod newid tasgau a rolau newydd yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd. Mae'r Prosiect yn fenter gan Lywodraeth yr Alban sy'n ymateb i brinder yn y gweithlu a phwysau trawsnewid gwasanaeth. Mae Cam 1 yn ddiagnostig ac yn ymgynghorol; disgwylir camau pellach i osod cynlluniau gweithredu. Mae'n gweithredu o fewn system cynllunio gweithlu datganoledig yr Alban ond mae'n adlewyrchu pwysau cyffredin ledled y DU.
B3	**Student Working Lives** **Cyhoeddwr:** Higher Education Policy Institute (HEPI) **Dyddiad:** Tachwedd 2025 Mae *Student Working Lives* yn archwilio graddau, natur a chanlyniadau gwaith cyflogedig a wneir gan fyfyrwyr yn ystod addysg uwch. Mae'n dadansoddi tueddiadau mewn cyflogaeth yn ystod y tymor, pwysau ariannol, effeithiau lles a goblygiadau ar gyfer canlyniadau academaidd. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at sut mae straen ariannol a chostau byw cynyddol yn ail-lunio profiad myfyrwyr ac, mewn rhai achosion, yn tanseilio cynnydd a pherfformiad. **Dolen:**	**1. Lefelau cynyddol o gyflogaeth yn ystod y tymor** • Mae cyfran gynyddol o fyfyrwyr yn ymgymryd â gwaith â thâl yn ystod y tymor, yn aml am oriau sylweddol yr wythnos. • Angenrheidrwydd ariannol - yn hytrach na datblygu gyrfa - yw'r prif sbardun. • Cyfeirir at bwysau costau byw fel achos strwythurol. **2. Effaith ar berfformiad academaidd a lles** • Mae oriau gwaith hir yn gallu achosi gorflinder, straen ac ymgysylltiad academaidd is. • Mae myfyrwyr mewn rhaglenni sy'n drwm o ran lleoliadau neu sy'n cael eu rheoleiddio'n broffesiynol yn nodi straen penodol oherwydd diffyg hyblygrwydd. • Codwyd pryderon ynghylch gorflinder cyn mynediad at ymarfer proffesiynol. **3. Anghydraddoldeb o ran effaith**

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		• Effeithir yn anghymesur ar fyfyrwyr o gefndiroedd incwm is. • Mae amrywiadau cost rhanbarthol a beichiau cymudo yn dwysáu annhegwch. • Mae'r profiad yn amrywio rhwng disgyblaethau, gyda chyrsiau gofal iechyd yn llai cydnaws â gweithio hyblyg. **4. Mae rhaglenni dwys o ran lleoliadau yn wynebu pwysau penodol** • Yn aml, mae myfyrwyr iechyd, nyrsio, bydwreigiaeth a gwyddoniaeth glinigol yn mynychu lleoliadau amser llawn gyda chapasiti cyfyngedig ar gyfer gwaith cyflogedig, ond eto'n dal i wynebu pwysau costau byw. • Weithiau mae myfyrwyr yn ymgymryd â gwaith yn ogystal ag oriau ar leoliad, gan gynyddu'r risg o orflinder. **5. Cyflogaeth a chyflogadwyedd myfyrwyr** • Er bod rhywfaint o waith yn gwella sgiliau trosglwyddadwy (cyfathrebu, rheoli amser), mae'r budd hwn yn eilaidd pan fydd cyflogaeth yn cael ei gyrru gan angenrheidrwydd. • Mae'r adroddiad yn rhybuddio rhag tybio bod gwaith yn ystod y tymor yn gadarnhaol yn gyffredinol. **6. Polisi ac argymhellion sefydliadol** • Gwella cymorth cynhaliaeth, cronfeydd caledi a chyngor ariannol. • Sicrhau bod amserlennu a modelau lleoliadau yn cydnabod pwysau cyflogaeth myfyrwyr. • Cryfhau'r gefnogaeth fugeiliol a'r ddarpariaeth llesiant. • Gwella tryloywder ynghylch gwir gost astudio.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Mae'r adroddiad yn cyfrannu at y ddadl ehangach ar gynaliadwyedd addysg uwch a pholisi costau byw. Cysylltiadau â thrafodaethau cyllido, benthyciadau cynhaliaeth a gwahaniaethau rhanbarthol. Yn berthnasol i systemau datganoledig lle mae trefniadau cymorth ariannol yn wahanol.
B3	**Higher education student numbers – Research Briefing (CBP-7857)** **Cyhoeddwr:** UK Parliament – House of Commons Library **Dyddiad:** Ionawr 2026 Mae *Higher education student numbers* yn friff ystadegol swyddogol sy'n rhoi trosolwg o dueddiadau o ran cyfranogiad mewn addysg uwch yn y DU. Mae'n cyflwyno data ar gyfanswm cofrestriadau myfyrwyr, cyfraddau mynediad, nodweddion demograffig, meysydd pwnc, domisil, dull astudio a thueddiadau myfyrwyr rhyngwladol. Mae'r papur briffio yn cefnogi craffu seneddol, dadleuon a llunio polisïau drwy ddarparu tystiolaeth ystadegol hygyrch a chyfredol. **Dolen: <u>Higher education student numbers</u>**	Niferoedd myfyrwyr cyffredinol • Mae'r papur briffio yn adrodd am gyfanswm y cofrestriadau addysg uwch yn y DU ar draws lefelau israddedig ac ôl-raddedig. • Mae'n nodi twf hirdymor mewn cyfranogiad ers y 1990au, gydag amrywiadau'n gysylltiedig â diwygiadau polisi (e.e. newidiadau i ffioedd dysgu) a newidiadau demograffig. • Mae'n gwahaniaethu rhwng myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU a darparwyr amgen. Cyfraddau mynediad a chyfranogiad • Mae'n darparu data ar gyfraddau mynediad pobl ifanc i addysg uwch, gan gynnwys cyfran y bobl ifanc 18 oed sy'n mynd i'r brifysgol. • Mae'n tynnu sylw at dueddiadau o ran ehangu cyfranogiad, gan gynnwys cynyddu cyfranogiad ymhlith grwpiau difreintiedig. • Mae'n dangos yr amrywiaeth ar draws gwledydd y DU (Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon). Astudiaethau israddedig yn erbyn astudiaethau ôl-raddedig • Mae'n dadansoddi'r niferoedd rhwng myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig. • Mae'n nodi twf mewn darpariaeth ôl-raddedig a addysgir (PGT) dros y blynyddoedd diwethaf. • Mae'n olrhain newidiadau mewn cofrestriadau ymchwil ôl-raddedig (PGR).

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Llifau domisil a thrawsffiniol • Mae'n gwahaniaethu rhwng myfyrwyr sydd â'u domisil yn y DU a myfyrwyr rhyngwladol. • Mae'n darparu dadansoddiad o ble mae myfyrwyr o bob gwlad yn y DU yn astudio (e.e. myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn Lloegr). • Mae'n olrhain patrymau recriwtio rhyngwladol a'r gyfran gynyddol o fyfyrwyr o'r tu allan i'r DU. Myfyrwyr rhyngwladol • Mae'n nodi twf sylweddol mewn cofrestriadau myfyrwyr rhyngwladol dros y degawd diwethaf. • Mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd ariannol myfyrwyr rhyngwladol i brifysgolion. • Mae'n nodi newidiadau polisi sy'n effeithio ar recriwtio (rheolau fisa, hawliau gwaith ar ôl astudio). Meysydd pwnc • Mae'n darparu cofrestriadau yn ôl grŵp pwnc eang (e.e. STEM, gwyddorau cymdeithasol, busnes, pynciau sy'n gysylltiedig ag iechyd). • Mae'n olrhain newidiadau ym mhoblogrwydd pynciau dros amser. Dull astudio • Mae'n gwahaniaethu rhwng astudio'n amser llawn ac yn rhan-amser. • Mae'n nodi gostyngiad hirdymor yn nifer y cofrestriadau israddedig rhan-amser ers dechrau'r 2010au.

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
		Nodweddion demograffig • Mae'n darparu dadansoddiadau yn ôl oedran, rhyw a chefndir economaidd-gymdeithasol. • Mae'n tynnu sylw at gyfranogiad cynyddol gan fenywod dros amser. • Mae'n cyflwyno data ar fyfyrwyr aeddfed a thueddiadau o ran eu cofrestriadau. Amrywiadau rhanbarthol a sefydliadol • Mae'n nodi gwahaniaethau rhwng sefydliadau o ran maint, cymysgedd pwnc a phroffil myfyrwyr. • Mae'n nodi amrywiadau rhwng gwledydd o ran trefniadau cyllido a phatrymau cyfranogi. Mae'r briff yn rhan o gyfres ystadegol Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, sydd wedi'i chynllunio i roi gwybodaeth i ASau ac arglwyddi. Yn bennaf, mae'n defnyddio data o setiau data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), UCAS a'r Adran Addysg. Caiff ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd i adlewyrchu'r ystadegau swyddogol diweddaraf. Mae'r ddogfen yn ddisgrifiadol yn hytrach nag yn ddadansoddol; nid yw'n cynnig newidiadau polisi ond mae'n crynhoi tystiolaeth.
B3	**Independent prescribing in the UK** **Cyhoeddwr:** Nuffield Trust	**Cefndir a datblygiad polisi** • Yn wreiddiol, roedd rhagnodi annibynnol wedi'i gyfyngu i feddygon a deintyddion ond mae wedi cael ei **ymestyn yn raddol i broffesiynau eraill** dros y ddau ddegawd diwethaf. • Mae'r proffesiynau sydd bellach yn gallu rhagnodi'n annibynnol yn cynnwys:

Cyf	Dogfen Strategaeth	Pwyntiau Cyfeirio Allweddol a meysydd ffocws ar gyfer y strategaeth addysg
